# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU GOFAL**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 29AIN IONAWR, 2026**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH**

*** NODER ***

**Bydd cyfarfod briffio I aelodau am 10:00yb.**

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Pwynt Cyswllt

**Courtney Leigh Jones**

**courtneyleighjones@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 21 Ionawr 2026)

# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL

**AELODAETH (18)**

## Plaid Cymru (11)

Y Cynghorwyr

Menna Baines
Linda Morgan
Meryl Roberts
Jina Gwyrfai
Berwyn Parry Jones
Geraint Wyn Parry
Rheinallt Puw
Gwynfor Owen
Einir Wyn Williams
Sian Williams
Elin Walker Jones

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Elwyn Jones
Eryl Jones-Williams
Angela Russell
Anwen J. Davies
Beth Lawton

Gwynedd yn Gyntaf (1)

Gareth Coj Parry

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N


**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy''n fater brys marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 4 - 14

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod diwethaf y pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar y 18 Rhagfyr 2025, fel rhai cywir.

**5. STRATEGAETH CADW TEULUOEDD GYDA'I GILYDD** 15 - 41

I graffu'r ddarpariaeth bresennol a'r adnoddau sydd ar gael i wireddu'r strategaeth.

**6. GWASANAETH CYFIAWNDER IEUENCTID** 42 - 128

Sicrhau bod y gwasanaeth yn effeithlon

**7. TIM 16+ (GADAEL GOFAL)** 129 - 143

Sicrwydd o ran y ddarparieth ar gyfer rhai 16 oed +

## PWYLLGOR CRAFFU GOFAL, 18 RHAGFYR 2025

**Presenoldeb:**

**Y CYNGHORWYR:**
Elwyn Jones, Jina Gwyrfai, Menna Baines, Elin Walker Jones, Sian Williams, Meryl Roberts, Berwyn Parry Jones, Eryl Jones-Williams, Einir Williams, Rheinallt Puw, Angela Russell a Gwynfor Owen

**Swyddogion yn bresennol:**
Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu) a Courtney Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth a Dinesig)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7:**
Y Cynghorydd Paul Rowlinson (Aelod Cabinet Tai ac Eiddo), Carys Fon Williams (Pennaeth Adran Tai ac Eiddo), Lowri Cadwaladr Roberts (Pennaeth Cynorthwyol Adran Tai ac Eiddo) a Sion Elwyn Hughes (Uwch Swyddog Gweithredol Tai ac Eiddo).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 6:**
Y Cynghorydd Menna Trenholme (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd), Aled Gibbard (Pennaeth Cynorthwyol Plant a Chefnogi Teuluoedd), Sharron Williams Carter (Pennaeth Cynorthwyol Plant a Chefnogi Teuluoedd), Dylan Owen (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7:**
Y Cynghorydd Dilwyn Morgan (Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant), Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant), Mari Wynne Jones (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) a Dylan Owen (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol).

### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Gareth Coj Parry, Gwynfor Owen, Linda Morgan, Elin Walker Jones, Einir Wyn Williams.

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

### 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

### 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 20 Medi 2025, fel rhai cywir.

## 5. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET TAI AC EIDDO

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr aelod Cabinet Tai ac Eiddo a’r Pennaeth Adran. Amlygwyd y byddai’r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth o berfformiad yr adran o fis Ebrill i ddiwedd mis Medi 2025. Eglurwyd y byddai yn adrodd ar y ffigyrau mwyaf diweddar er mwyn rhoi darlun cywir i aelodau’r pwyllgor, gan fod y cyfarfod gwreiddiol wedi ei ohirio. Cywirwyd ystadegau y nifer o dai gwag sydd wedi dod nol i ddefnydd yn sgil cefnogaeth gan y Cyngor yng Ngwynedd, a’r nifer sydd wedi dod nôl i ddefnydd trwy grant cartrefi gwag. Cyfeiriwyd at y mesuriadau gan nodi mai 306 o dai sydd wedi dod nol i ddefnydd yn sgil cefnogaeth gan y Cyngor, gyda 123 ohonynt trwy’r grantiau Cynllun Cartrefi Gwag. Nodwyd bod y ffigyrau wedi cynyddu erbyn diwedd mis Tachwedd, i 321 o dai sydd wedi dod nôl i ddefnydd a 128 trwy’r grantiau Cynllun Cartrefi Gwag, sydd yn adlewyrchu llwyddiant mawr. Mynegwyd bod y Cynlluniau Tai Gwag yn parhau i fod yn llwyddiannus, ac ar y rheng flaen yng Nghymru o ran dod a thai gwag nol i ddefnydd ar gyfer perchnogion lleol.

Mynegwyd pryder bod y system bresennol ar gyfer ceisiadau’r grantiau braidd yn fiwrocrataidd. Nodwyd bod llawer o bobl yn disgwyl amser maith yn ystod y broses ac yn methu dechrau ar y gwaith sydd ei angen cyn symud i fewn. Gofynnwyd a yw’n bosib diwygio elfennau o’r grant er mwyn cyflymu’r broses? Awgrymwyd y dylid cyflwyno mesurydd ychwanegol i adnabod beth sydd yn cymryd cymaint o amser. Nodwyd hefyd bod y cyfyngiad amser o 6 mis mae’r perchnogion yn cael i wneud y gwaith yn annheg gan ystyried prysurdeb contractwyr, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Holwyd a yw’n bosib i bobl cael estyniad? Mewn ymateb, rhoddwyd manylion am ddarpariaeth y grant gan nodi ei fod yn bwrpasol i ddarparu cymorth ariannol i bobl adfer nodweddion hanfodol mewn tai er mwyn gwneud y tai yn gynnes ac yn ddiogel. Oherwydd hyn, pwysleisiwyd ei fod yn anodd creu cynllun sydd yn addas i bawb.

Manylwyd ar y prosiectau sydd ar waith yn yr adran, i weithredu ar addewidion Cynllun y Cyngor 2023-28. Adroddwyd ar y cynnydd llwyddiannus sydd wedi bod yn y flwyddyn diwethaf, gan nodi bod yr adran ar y ffordd i gyflawni bob nod. Tywyswyd yr Aelodau trwy’r adroddiad wrth diweddaru ar y cynnydd ymhob prosiect i wireddu amcanion Cynllun y Cyngor;

Nodwyd bod Cynllun Tŷ Gwynedd yn gwneud cynnydd da fel rhan o gynllun Gwynedd Glyd. Nodwyd bod datblygiad Dol Afon Goch bron a chwblhau a’r broses osod wrthi’n mynd rhagddo. Mynegwyd bod datblygiad hen safle Ysgol Babanod Coed Mawr, Bangor hefyd yn gwneud cynnydd da gyda’r gwaith strwythurol ar y gweill. Nodwyd bod 433 o dai gymdeithasol wedi eu gosod trwy’r rhaglen Adeiladu Tai Cymdeithasol a’r bartneriaeth gyda’r Cymdeithasau Tai, sy’n dangos eu bod ar y ffordd i gyflawni’r targed o 500 erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Ymhelaethwyd ar datblygiadau’r Cynllun Prynu i Osod, gan nodi eu bod wedi llwyddo i brynu 51 o dai hyd yma, ac wedi gosod 20 ohonynt i bobl leol.

Manylwyd ar waith y Gwasanaeth Ynni gan nodi bod y r tîm cefnogi trigolion, yn cynnig talebau i dalu am ynni. Cadarnhawyd bod 5,788 o dalebau wedi eu dosbarthu ers dechrau’r cynllun, sydd yn werth £239,565. Nodwyd bod y tîm yn

brysur yn cynnal cynadleddau a digwyddiadau hyrwyddo, ymweliadau cartref ac yn cyfeirio unigolion at gymorth ychwanegol megis banciau bwyd, Age Cymru, CAB ayyb. Ymfalchïwyd yng ngwaith y tîm wrth nodi hanfodrwydd y gwasanaeth yn ystod tymor y gaeaf.

Rhoddwyd gwybodaeth ar y gwaith sydd yn mynd rhagddi i fynd i'r afael â digartrefedd yng Ngwynedd, gan nodi bod safle 137 Stryd Fawr Bangor bellach ar agor, gyda unigolion wedi symud yno ym mis Awst a Medi 2025. Cadarnhawyd bod cwmni wedi'i benodi i gwblhau gwaith mecanyddol a thrydanol ar hen Adeilad y Goron, Penrallt. Cwblhawyd pryniant Tŷ Glyn ym Mangor a bydd yr adran yn ei addasu yn briodol cyn anelu i'w agor yn ystod 2026. Nodwyd bod dyluniadau uchelgeisiau adeilad Y Goron yng Nghaernarfon wedi cyrraedd bellach, a bod gwaith yn mynd rhagddi i ddatblygu'r prosiect. Nodwyd bydd elfen cefnogol i drigolion yn Tŷ Glyn, gyda gwasanaethau amrywiol yn dod i mewn i un lle diogel ac addas iddynt. Nodwyd bod S4C wedi comisiynu cyfres yn dilyn gwaith y tîm digartrefedd, sy'n tynnu sylw at y gwaith da mae'r tîm yn ei wneud. Nodwyd bod y tîm eto eleni wedi codi arian er mwyn rhoi anrhegion Nadolig i blant sydd yn byw mewn llety argyfwng, a bod yr adran yn ymfalchïo yn haelioni, ymroddiad ac effeithlonrwydd y tîm wrth gefnogi trigolion Gwynedd ddod o hyd i lety.

Mynegwyd pryder bod llawer o bobl yng Ngwynedd yn parhau i ddisgwyl am dŷ yng Ngwynedd, a cydnabuwyd bod yr angen yn heriol i'w gyfarch. Cadarnhawyd bod yr adran yn gweithredu ar hyn i ddod a'r niferoedd i lawr, a lansio portal yn y flwyddyn newydd i drigolion allu tracio eu ceisiadau a derbyn diweddariadau. Ymhelaethwyd bydd modd iddynt rannu gwybodaeth perthnasol yn uniongyrchol â'r portal, a fydd yn cyflymu'r broses o brosesu eu ceisiadau. Ychwanegwyd bydd modd derbyn ystadegau cyfredol trwy'r portal, a fydd yn darparu diweddariadau cyson a thryloyw i drigolion ar y rhestr aros. Nodwyd bod datblygiadau ar waith i ychwanegu nodwedd sy'n cynorthwyo Cynghorwyr i siarad yn uniongyrchol ar ran eu etholwyr.

Gofynnwyd beth yw'r gwariant ar y prosiect Tŷ Gwynedd, i gymharu a phrosiectau eraill megis gosod Tai Cymdeithasol. Amlygwyd bod y prosiectau yn mynd i'r afael ag anghenion gwahanol ac yn darparu buddion amrywiol i drigolion mewn sefyllfaoedd gwahanol. Amlinellwyd pwrpas a phriodweddau'r prosiectau, wrth gymharu eu gwahaniaethau. Nodwyd bod prosiect Tŷ Gwynedd yn rhoi cymorth i drigolion sydd yn awyddus i berchnogi tŷ, ac felly mae'r Cyngor yn darparu cymorth ariannol iddynt wneud hynny trwy ddisgownt. Cyfeiriwyd at Tai Gwynedd sydd yn cael eu datblygu yn Llanberis, gan nodi y byddent yn darparu aelwyd i 3 teulu lleol sydd eisoes wedi eu hadnabod. Eglurwyd bod canran grant sylweddol yn cael ei roi ar gyfer datblygu Tai Cymdeithasol. Cydnabuwyd bod y gost o ddatblygu Tai Gwynedd yn fwy, ond atgyfnerthwyd ei fod at bwrpas gwahanol. Cydnabuwyd y pwysau sydd ar y Cyngor o ganlyniad i brisiau rhentu uchel gan landlordiaid yn y sector preifat.

Nodwyd bod yr Adran yn edrych ar y Cynllun Gweithredu Tai yn ei gyfanrwydd er mwyn datblygu a gwella'r cynllun yn raddol. Cyfeiriwyd at y codiad yn y premiwm treth, a mynegodd aelod bryder yn sgil y codiad o 150%. Mynegwyd

pryder ynghylch tai gwag yng Ngwynedd, yn enwedig tai sydd wedi bod yn wag ers amser maith. Mewn ymateb, eglurwyd mai mater i'r Adran Gyllid yw hyn gan mai nhw sydd yn delio a'r gofrestr. Cydnabuwyd bod y broblem hyn yn heriol, a nodwyd ei fod yn fater gwleidyddol i rhoi pwysau ar Lywodraeth San Steffan er mwyn mynd i'r afael a'r diffyg gwybodaeth yn y system.

Holwyd faint o dai gwag sydd wedi eu prynu gan y Cyngor sydd yn parhau i fod yn wag? Mewn ymateb i hyn, cadarnhaodd yr Aelod Cabinet bod y ffigyrau wedi eu cynnwys yn yr adroddiad. Cadarnhawyd mai 28 tŷ sydd heb gael eu gosod ar hyn o'r bryd a bod 5 o rhain yn barod i'w gosod. Nodwyd bod 15 o dai wrthi yn cael eu atgyweirio ar hyn or bryd, a bod rhaglenni gwaith yn cael eu datblygu ar gyfer yr 8 tŷ arall.

Rhoddwyd manylion ar y sesiynau '*drop in'* a'r Siop un Stop, sydd yn darparu cymorth ar gyfer ystod o drigolion gwahanol. Nodwyd eu bod yn cael eu cynnal yn ystod ac ar ôl oriau gwaith arferol, er mwyn darparu'r gwasanaeth i bobl ar amser cyfleus. Mynegwyd eu bod yn llwyddo i gyrraedd nifer fawr o bobl. Gofynnwyd faint o bobl sydd yn mynychu'r sesiynau, ac os yw'r rhan helaeth yn gweithio neu ar budd daliadau? Cadarnhawyd y byddai'r adran yn casglu ac yn rhannu'r ffigyrau efo aelodau'r pwyllgor yn fuan.

Mewn ymateb i ymholiad, manylwyd ar y grŵp tai arbenigol sydd yn darparu aelwyd ar gyfer trigolion ag anghenion ychwanegol. Nodwyd bod swyddogion a therapyddion galwedigaethol yn cydweithio i ddatblygu nodweddion a darpariaethau pwrpasol yn y tai i gyfarch anghenion unigryw. Nodwyd bod y prosiect trawsadrannol wedi bod yn llwyddiannus iawn, a bod y cymdeithasau tai wedi cyfrannu yn sylweddol ato ac yn rhannu'r baich. Nodwyd bod hyn yn eithaf unigryw i Wynedd er mwyn cyfarch yr angen. Awgrymwyd y dyldi rhoi mwy o sylw i'r datblygiadau hyn, ac y dylid ffurfio datganiad ir wasg i hysbysebu'r cyhoedd am y gwaith arloesol sydd yn mynd ymlaen gan yr adran.

**PENDERFYNIAD**

1. **Derbyn yr adroddiad**
2. **Gofyn i'r adran gyllid ohebu gyda'r asiantaeth swyddfa brisio er mwyn cael rhestr o holl dai gwag yng Ngwynedd.**
3. **Gofyn i'r aelod cabinet anfon llythyr i'r llywodraeth yn datgan pryder am renti uchel yn y sector tai preifat a phwyso arnynt i gyflwyno mesurau i sicrhau bod y rhestr yn fforddiadwy a lleihau digartrefedd.**
4. **Annog yr Adran Tai ac Eiddo i roi cyhoeddusrwydd i ddatblygiadau tai newydd arbenigol ar gyfer pobl gyda anghenion penodol.**

## 6. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET OEDOLION, IECHYD A LLESIANT

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Pennaeth Adran. Nodwyd fod yr adroddiad yn seiliedig ar berfformiad yr adran

Oedolion hyd ddiwedd mis Awst. Cydnabuwyd bod y data a'r ffigyrau bellach wedi dyddio ers dyddiad gwreiddiol cyfarfod y pwyllgor hwn, oherwydd bod data'r maes yn newid yn ddyddiol. Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet ei fod yn adrodd ar y data sydd yn yr adroddiad. Diolchodd yr Aelod Cabinet i holl staff yr adran gan ddiolch yn arbennig i'r nifer fawr o staff bydd yn gweithio dros gyfnod y Nadolig. Diolchwyd i'r amryw bartneriaid allweddol yr adran, y trydydd sector a'r gwirfoddolwyr. Amlinellwyd prif brosiectau'r adran gan nodi bod yr adran yn parhau i gyflawni er gwaethaf yr heriau lleol a chenedlaethol, gyda'r galw cynyddol a'r capasiti cyfyngedig.

Tywyswyd yr aelodau trwy'r adroddiad yn dangos sut mae'r adran yn gweithredu i gyflawni addewidion Cynllun y Cyngor 2023-28. Rhoddwyd trosolwg o waith ddydd i ddydd yr adran a rhannwyd gwybodaeth am yr archwiliadau allanol sydd wedi bod yn y cyfnod dan sylw. Rhoddwyd trosolwg o effaith yr heriau a godwyd yn adroddiad Llechen Lan, sy'n tynnu sylw at y pwysau ariannol a gweithredol yn y system iechyd a gofal.

Manylwyd ar y prosiect o foderneiddio adnoddau gofal i gwrdd ag anghenion y dyfodol. Nodwyd bod y gwaith o uwchraddio cartrefi preswyl Hafod Mawddach a Cefn Rodyn wedi eu cwblhau, a'r uned ddementia yn Bryn Blodau wedi ei agor. Nodwyd bod yr uned dementia ar fin agor ym Mhlas Hedd a disgwylir cadarnhau dyddiad agor yn fuan. Nodwyd bod trafodaethau yn datblygu o ran darpariaeth Tai Gofal Ychwanegol yng Nghaernarfon, gyda'r safle wedi ei adnabod. Amlygwyd bod y cynllun busnes amlinellol nesaf ar gyfer safle Penyberth wedi ei gymeradwyo gan y Cabinet yn ddiweddar. Cadarnhawyd bod y gwaith adeiladu wedi dechrau ar ddatblygiad tai gyda gofal addas ar safle Penyberth, gyda'r bwriad o fod yn barod erbyn Hydref 2026. Cadarnhawyd hefyd bod y gwaith atgyweirio safle Dolfeurig yn mynd ymlaen a bod datblygiadau sylweddol wedi bod dros y misoedd diwethaf. Ymhelaethwyd bod adnodd wedi ei adnabod i gychwyn gwaith Tai Gofal Ychwanegol yn ardal Dolgellau a bod y gwaith wedi cychwyn.

Rhannwyd manylion am y defnydd cynyddol o dechnoleg yn yr adran, i wella gallu trigolion Gwynedd i gael mynediad at gefnogaeth gofal. Manylwyd ar y darpariaeth teleofal ar wefan y Cyngor, sy'n galluogi i bobl Gwynedd weld beth sydd yn digwydd o fewn eu cymunedau nhw. Mynegwyd bod dros 80% o ddyfeisiadau teleofal y Sir wedi eu trosglwyddo i ddyfeisiadau newydd digidol, heb gost bellach i drigolion y sir. Nodwyd fod hyn yn waith arloesol yn y maes ac yn cefnogi unigolion i fod yn annibynnol. Cyfeiriwyd at y gwaith datblygu gwasanaeth taliadau uniongyrchol syth yn parhau. Nodwyd bod pecynnau newydd yn cael cynnig cyfrif digidol, gyfwerth a 'waled rithiol; er mwyn gallu rheoli eu pecynnau taliadau uniongyrchol yn haws.

Adroddwyd ar y datblygiadau sydd wedi bod wrth i'r Cyngor cydweithio a Gwasanaethau Iechyd i alluogi pobl i fyw eu bywyd gorau yn y gymuned. Cadarnhawyd bod y Gwasanaeth Iechyd Meddwl wedi'i sefydlu a'r gweithlu wedi ei sefydlu yn swyddfeydd y Cyngor yng Nghaernarfon a Penrhyndeudraeth. Nodwyd bydd y cynnydd yn cael ei fonitro dros y misoedd nesaf. Manylwyd ar y cydweithio effeithiol sydd wedi bod yn digwydd rhwng y Tîm Rhyddhau Ysbyty Gwynedd a'r Timau Adnoddau Cymunedol. Canmolwyd y gwaith da a'r

cydweithio effeithiol rhwng yr asiantaethau. Rhannwyd gwybodaeth am waith y Tîm, wrth iddynt flaenoriaethu sicrhau bod unigolion yn gadael yr ysbyty yn brydlon, fel bod llai o siawns iddynt ddirywio ac yn sgil hynny cynydd yn eu hanghenion gofal. Eglurwyd bod hyn yn osgoi gorddarpariaeth ac felly yn lleihau'r straen ar y gwasanaeth iechyd a darpariaethau gofal.

Ymhelaethwyd ar y Llwybrau Gyrfaoedd ar gyfer trigolion sydd ag anableddau dysgu. Manylwyd ar y datblygiadau, cyfleon hyfforddi a gwaith sydd ar gael ar gyfer unigolion sydd angen cefnogaeth, gan nodi bod Cydlynydd Llwybr Gyrfa Anabledd Dysgu yn gweithio ar draws Gwynedd a Môn i hyrwyddo cyfleon a chefnogi unigolion i waith cyflogedig. Nodwyd bod 3 Swyddog cefnogol hefyd yn gweithio i hyrwyddo a chefnogi unigolion, a bod hyn wedi bod yn llwyddiant ers cychwyn y prosiect yn 2023.

Ymhelaethwyd ar y cynnydd ym Mhrosiect Llechen Lan. Nodwyd bod yr ymchwil ac adroddiad wedi ei gwblhau, gan adrodd bod siroedd eraill yng Nghymru wedi dangos gryn ddiddordeb yn y canfyddiadau. Pwysleisiwyd bod y gwaith yma wedi bod yn hanfodol bwysig er mwyn edrych ymlaen at y dyfodol. Sicrhawyd bod gweithredu wedi cychwyn ar yr argymhellion yn yr adroddiad Llechen Lan gyda sawl carreg filltir nodedig wedi ei chyrraedd erbyn hyn. Nodwyd bydd yr argymhellion yn parhau i fod yn rhan o gynllun yr Adran Oedolion a fydd yn cael ei ddatblygu dros y misoedd nesaf.

Amlygodd yr Aelod Cabinet ei fod yn parhau i fod yn Gadeirydd y Bwrdd Rhanbarthol a phwysleisiodd bod y cydweithio da sydd yn digwydd rhwng y siroedd a'r asiantaethau yn symud prosiectau ymlaen yn gyflym ac yn llwyddiannus. Cyfeiriwyd at y gofalwyr di-dâl yng Ngwynedd a'u gwaith diflino wrth ofalu am drigolion Gwynedd, a amlygwyd bod angen eu cefnogi. Cadarnhawyd bod gwaith yn datblygu i gefnogi gofalwyr di dal.

Diolchwyd i'r adran am eu gwaith wrth gefnogi trigolion mwyaf bregus y sir. Canmolwyd y datblygiadau, a chydnabuwyd yr heriau sy'n wynebu'r adran oherwydd natur heriol y maes iechyd a gofal. Diolchwyd am y gwaith datblygiadol ym Mhenros.

Mynegwyd pryder am y nifer sydd yn parhau i fod ar y rhestr aros am ofal cartref yng Ngwynedd a'r prinder darpariaeth gwlâu nyrsio. Cydnabuwyd bod y sefyllfa i weld yn waeth mewn rhai ardaloedd, ac eglurwyd bod hyn yn dueddol o fod oherwydd natur newidiol gofal cartref. Adnabuwyd ardal Bethesda, Dyffryn Nantlle, Tywyn a Phen Llyn fel ardaloedd o bryder. Cydnabuwyd bod hyn yn heriol i'r adran a chadarnhawyd bod y rhestr aros wedi dod i lawr ers mis Awst. Eglurwyd bod ffactorau prinder staff oherwydd salwch a dibyniaeth ar ddarpariaeth allanol yn cyfrannu at hyn. Adroddwyd bod yr adran yn cydlynu ac yn gweithredu er mwyn sicrhau bod llai o bobl yn aros am ofal cartref.

Mynegwyd pryder ynglŷn â'r ffigyrau asesiad Diogelu Rhag Amddiffyn Rhyddid (DOLS) a'r rhestr aros am ofal cartref. Mewn ymateb i'r pryderon, cadarnhawyd bod yr aelodau wedi derbyn hyfforddiant (DOLS). Nodwyd bod 2 swyddog newydd wedi cael eu penodi i gefnogi'r gwaith o leihau'r rhestrau aros yn yr

adran. Eglurwyd bod recriwtio ar gyfer y swyddi wedi bod yn heriol, a bu rhaid penodi unigolion gyda phrofiad yn y maes a oedd yn awyddus i gwblhau hyfforddiant pellach. Cadarnhawyd eu bod wedi mynychu'r hyfforddiant priodol ac yn agos i gwblhau'r cymhwyster. Cadarnhawyd bod y niferoedd ar y rhestr aros wedi dod i lawr a'r gobeithir y byddent yn lleihau ymhellach erbyn cyfarfod nesaf y pwyllgor.

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhawyd bod newid ym mhrosesau taliadau uniongyrchol. Gofynnwyd beth yw'r rhwystrau sydd wedi ei adnabod yn y defnydd o rhain. Mewn ymateb, cadarnhawyd bod y system yma bellach yn cael ei redeg yn fewnol yn y Cyngor. Nodwyd bod gweithwyr cymdeithasol wedi cael hyfforddiant i hyrwyddo'r taliadau uniongyrchol hyn, sydd wedi ei adnabod yn yr adroddiad Llechen Lan fel y ffordd ymlaen. Pwysleisiwyd fod llais yr unigolyn yn hollbwysig i hyn a bod y system newydd yn rhoi mwy o rym a rhyddid iddynt ddewis eu gofal eu hunain mewn modd sy'n gyfleus iddynt hwy. Cadarnhawyd bod y system yma ar gael i bobl sydd eisoes â phecyn gofal. Adnabuwyd y rhwystrau sydd yn codi efo'r system newydd a chydnabuwyd bod angen darparu cymorth i unigolion sydd heb gapasiti i weithredu'n ariannol neu neb i weithredu ar eu rhan.

Canmolwyd hyblygrwydd ac ymroddiad staff wrth gydnabod eu bod yn aml yn gweithio oriau ychwanegol, hir ac yn aml yn teithio ar draws y sir i ddarparu gofal i driolion. Cymeradwywyd eu parodrwydd i sicrhau nad oes wir argyfwng gofal yn y sir. Cydnabuwyd bod y staff dan straen eithriadol a bod yr adran yn ceisio ymateb i hyn wrth ddarparu a chynnig cefnogaeth gyson iddynt. Pwysleisiwyd bod denu a recriwtio staff yn her, sydd yn golygu bod y Cyngor yn gorfod dibynnu ar staff asiantaethau allanol ar adegau. Mynegwyd bod anghenion trigolion hefyd yn dwysau, sydd yn cynyddu'r galw am ofal. Eglurwyd fod diogelu staff a phreswylwyr yn flaenoriaeth i'r adran, a bod hyn yn rhan o'r gwaith wrth edrych ar gyflwr y cartrefi preswyl a'u hadnewyddu pan mae angen.

Gyda'r cynnydd o weithwyr y Bwrdd Iechyd yn defnyddio masgiau yn yr ysbytai i ddiogelu rhag heintiau gaeafol megis y norofeirws a'r ffliw, gofynnwyd os oes cynllun mewn lle i ddiogelu staff? Cadarnhawyd bod y Cyngor wedi derbyn neges gan y Bwrdd Iechyd am weithwyr yn gwisgo mygydau yn yr ysbytai, ac esboniwyd nad oes galw am hyn yn y gymuned eto, ond wrth gwrs, bod unigolion yn rhydd i ddewis i wneud beth sydd yn addas iddynt hwy.

Manylwyd ar yr Academi Gofal a gafodd ei lansio i fynd i'r afael a phrinder staff yn y sector gofal. Nodwyd ei fod yn cynnig llwybr proffesiynol datblygiadol i unigolion sydd yn dymuno dilyn gyrfa yn y maes gofal, wrth gynnig profiadau ymarferol a chyfleoedd i ddatblygu dan arweiniad arbenigwyr. Nodwyd bydd criw newydd yn cael eu croesawu i'r academi yn y flwyddyn newydd.

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhawyd bod gweithwyr cymdeithasol bellach yn gweithio un diwrnod yr wythnos yn Ysbyty Gwynedd. Nodwyd bod hyn yn rhoi cyfle iddynt weithio yn agos ac yn barhaus efo cleifion, fel rhan o'r ymdrech ehangach i ryddhau cleifion o'r ysbytai yn gynt, trwy'r prosiect Rhyddhau o'r

Ysbyty. Eglurwyd bod hyn yn rhoi cyfle iddynt ddatblygu perthynas agos efo'r cleifion ac yn gallu adnabod eu hanghenion yn gynt. Nodwyd bod hyn yn caniatáu iddynt ddarparu'r cefnogaeth gymesur a phriodol yn y gymuned ac yn lleihau'r galw cynyddol ar yr ysbytai. Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhawyd bod trafodaethau yn mynd ymlaen i ehangu'r prosiect er mwyn darparu cefnogi trigolion Gwynedd sydd yn mynd i ysbytai Bronglais a Maelor yn y dyfodol. Gofynnwyd am adroddiad cynnydd ar y protocol cwympo er mwyn cadarnhau bod protocol mewn lle i ddiogelu trigolion Gwynedd.

**PENDERFYNIAD**

1. **Derbyn yr adroddiad.**
2. **Cydnabod y gwaith da sy'n cael ei wneud yn yr adran gan datgan pryder am ffigyrau asesiad Diogelu Rhag Amddiffyn Rhyddid (DOLS) a'r rhestr aros am ofal cartref.**
3. **Gofyn am adroddiad cynnydd ar y protocol cwympo.**

**7. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET PLANT A THEULUOEDD**

Gofynnodd y Cadeirydd beth yw'r diweddaraf gyda'r rhaglen waith ymateb i Adolygiad Ymarfer Plant – Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder a phryd fydd y pwyllgor yn derbyn adroddiad ar y rhaglen waith? Mewn ymateb, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bydd cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor ym mis Ionawr 2026. Eglurwyd y broses, gan nodi bod y Cyngor wedi sefydlu Bwrdd a Chynllun Ymateb, sydd wedi ei diwygio a'i adnewyddu ers i'r Adolygiad Ymarfer Plant gael ei gyhoeddi, a chadarnhawyd bydd cyfle i'w graffu yn y cyfarfod arbennig. Sicrhawyd bod yr Adran yn ymrwymedig i weithredu i ymateb i'r argymhellion yn llawn. Cyflwynwyd cais gan aelodau o'r Pwyllgor am gyfarfod arbennig o'r Cyngor Llawn er mwyn rhoi cyfle i'r holl aelodau graffu ar y Cynllun hollbwysig.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr aelod Cabinet Plant a Theuluoedd. Rhoddwyd diweddariad ar beth sydd wedi ei gyflawni gan yr adran plant hyd at ddiwedd mis Medi. Nodwyd bod gan yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ddau brosiect sydd ar waith yng Nghynllun y Cyngor, y Cynllun Awtistiaeth a Chynllun datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal cartrefi grŵp bychain.

Manylwyd ar y Cynllun Awtistiaeth, gan nodi nod y gwaith yn ffynnu a'r galw am wasanaeth yn parhau i godi. Nodwyd bod y system ymgynghori rhwng y Tîm Awtistiaeth a'r gweithwyr cymdeithasol yn gweithio yn effeithiol ac mae nifer o achosion o ymyrraeth gynnar a chefnogaeth arbenigol wedi arwain at ostyngiad mewn angen a statws, a nifer o achosion wedi cau yn dilyn ymyrraeth.

Nodwyd bod y rhaglen hyfforddi staff yn parhau ac yn datblygu gyda gwahanol lefelau o hyfforddiant, a'r union lefel i'w gyflawni yn ddibynnol ar y swydd. Ymhelaethwyd bod y tîm bellach yn hyfforddi gweithwyr i hwyluso a rhedeg grwpiau a rhaglenni cefnogi ac addysgol i rieni a gofalwyr yn ogystal â grwpiau hunaniaeth i bobl ifanc awtistig. Adroddwyd bod grwpiau 'Paned a Sgwrs' i rieni a gofalwyr a chlwb Niwro i bobl ifanc yn parhau i fod yn llwyddiannus. Nodwyd bod yr Ap Niwro Cymru bellach ar gael, sydd wedi ei ddatblygu gan Awtistiaeth

Gwynedd ar gyfer darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i'r gymuned. Nodwyd bod yr arian ar gyfer y cynllun yn dod i ben ym 2027 ac felly bydd angen ystyried sut i sicrhau parhad y gwasanaeth i'r dyfodol o safbwynt cynaliadwyedd.

Manylwyd ar y cynllun datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartref grŵp bychan, sydd wedi datblygu yn sylweddol. Nodwyd bod cartref ym Morfa Bychan bellach yn weithredol, gyda 2 blentyn yn byw ynddo. Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhawyd mai lle i 2 blentyn yn unig sydd yn y cartref, er mwyn sicrhau aelwyd gartrefol i'r plant yn unol â'r strategaeth genedlaethol. Eglurwyd bod datblygiadau yn digwydd yn safle Deiniolen, gan nodi bod dirprwy reolwr wedi ei benodi a 5 gweithiwr preswyl ar gyfer yr ail dŷ yn Neiniolen. Cadarnhawyd bod y staff wedi cychwyn eu swyddi. Nodwyd bod yr adran yn parhau i ddisgwyl am gofrestriad swyddogol i'r cartrefi, a disgwylir hyn yn fuan gan Arolygiaeth Gofal Cymru. Eglurwyd bod siroedd eraill yng Nghymru yn datblygu darpariaethau preswyl i blant, sydd yn rhoi pwysau ar yr Arolygiaeth Gofal Cymru, felly mae rhestr aros bellach er mwyn eu cofrestru. Gobeithir y bydd y ddau dŷ wedi eu cofrestru yn llawn erbyn mis Chwefror 2026. Nodwyd bod yr Adran yn y broses o brynu tŷ yng Nghriccieth gan obeithio bydd y gwaith wedi ei gwblhau ym 2026. Nodwyd bod ymdrech i ddarparu cartref preswyl fel rhan o'r cynllun darpariaeth breswyl yn ardal Meirionnydd, ond amlygwyd bod cyfyngiadau oherwydd y farchnad dai a'r trafferthion ddod o hyd i dŷ addas ar gyfer y plant.

Manylwyd ar waith dydd i ddydd yr Adran, gan nodi bod 283 o blant mewn gofal yng Ngwynedd. Mynegwyd bod yr Adran wedi gweld datblygiadau cadarnhaol, wrth i 4% o blant adael gofal a dychwelyd adref yn y flwyddyn ddiwethaf. Tystiolaethwyd bod llais y plentyn a phobl ifanc yn flaenoriaeth gan yr adran, gan nodi bod llais a barn y plentyn ei glywed mewn 94% o gynadleddau achos . Nodwyd bod y nifer o bobl ifanc daeth mewn i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi gostwng 13%. Adroddwyd bod Gwasanaeth Teulu Gwynedd wedi llwyddo i ymestyn cynllun gofal plant 2 oed gyda 9 darpariaeth ychwanegol sydd yn galluogi mwy o deuluoedd i dderbyn cefnogaeth.

Codwyd pryderon ynghylch y nifer o gyfeiriadau a gafwyd gan y tîm derbyn. Adroddwyd mai 2025 yw'r flwyddyn prysuraf ers ei sefydlu. Nodwyd bod Gwasanaeth Derwen dan bwysau, gyda dros 500 o achosion agored. Nodwyd bod y Tîm 16+ hefyd yn parhau i adrodd fod y galw am wasanaethau ar ei uchaf, gyda 238 achos yn agored. Esboniwyd bod y nifer o achosion a diffyg staff yn creu pryder a phwysau gwaith uchel. Amlinellwyd y mesurau sydd mewn lle i fynd i'r afael ar yr heriau, gan nodi bod 5 bid i ariannu 7 swydd yn y timau gweithredol wedi bod yn llwyddiannus. Nodwyd bod hyn wedi sicrhau cefnogaeth ychwanegol i'r gwasanaeth Derwen, ac yn rhoi cysondeb i wasanaethau cefnogol i blant a theuluoedd Gwynedd.

Yn ystod y drafodaeth, cododd y sylwadau fel a ganlyn;

- Mynegwyd bod gan Wynedd mwy o blant mewn gofal nag unrhyw sir arall yng Nghymru. Wrth ystyried hyn, canmolwyd y gwaith da sydd yn mynd rhagddo yn yr adran i gyfarch yr angen yn y sir, gan ddiolch i'r holl staff am eu gwaith diflino wrth gefnogi plant a theuluoedd Gwynedd.

- Awgrymwyd y dylid datblygu mesuryddion newydd i reoli a monitro bod plant mewn gofal yn cael eu gweld yn gyson gan staff y Cyngor, fel rhan o gyfrifoldebau'r Cyngor fel rhiant corfforaethol**.**

- Awgrymwyd y dylid datblygu mesuryddion sy'n dangos cynnydd gyda Chynllun ymateb i'r adroddiad adolygiad Ymarfer Plant Cyfiawnder, er mwyn i'r Pwyllgor hwn ei fonitro a mesur y perfformiad.

- Holwyd am lwyddiant ymgyrchoedd recriwtio gofalwyr maeth a gofynnwyd beth yw'r sefyllfa gyda'r nifer o rieni maeth yng Ngwynedd yn bresennol. Mewn ymateb, manylwyd ar yr ymgyrchoedd recriwtio gan nodi eu bod yn llwyddiannus wrth ddenu nifer cynyddol o rieni maeth. Nodwyd bod oddeutu 70 o deuluoedd maeth yng Ngwynedd, ond nodwyd bod y Cyngor yn parhau i wneud defnydd o'r asiantaethau allanol oherwydd y galw cynyddol a pharhaus. Ymhelaethwyd bod y Cyngor yn gweithio yn rhanbarthol ac yn cydweithio ar draws 6 sir Gogledd Cymru i ddarparu gofal maeth.

- Cydnabuwyd ei fod wedi bod yn gyfnod heriol i'r Adran Plant a Theuluoedd a chydnabuwyd y pryderon am sefydlogrwydd a rheolaeth yr adran. Diolchwyd i'r adran am eu gwaith caled i sicrhau lles a diogelwch y plant. Mynegwyd bod y Cyngor yn gweithio i ddatblygu sefyllfa sefydlog yn yr adran, gan nodi bod y gweithwyr yn derbyn cefnogaeth, gwasanaethau iechyd galwedigaethol a chwnsela yn gyson. Esboniwyd y byddai'r Cabinet yn ystyried bid ariannol yn fuan er mwyn ymateb yn llawn i'r Adolygiad Cynllun Plant.

**PENDERFYNIAD**

1. **Derbyn yr adroddiad.**
2. **Gofyn i Gadeirydd y Cyngor ystyried galw cyfarfod arbennig o'r Cyngor Llawn er mwyn rhoi cyfle i bob aelod drafod a chraffu'r Cynllun Ymateb i'r Adolygiad Ymarfer Plant cyfiawnder trwy Ddewrder.**
3. **Gofyn i'r adran ddatblygu mesuryddion newydd, yn dangos bod plant mewn gofal yn cael eu gweld yn gyson gan staff y Cyngor ac un arall sy'n dangos cynnydd gyda Chynllun ymateb i'r adroddiad adolygiad Ymarfer Plant Cyfiawnder.**

## 8. BRIFF GRŴP TASG A GORFFEN CWYNION

Rhoddwyd cyflwyniad ar y briff grŵp tasg a gorffen cwynion. Cadarnhawyd bod y Fforwm Craffu wedi caniatáu'r adnodau i gynnal y Grŵp Tasg a Gorffen. Etholwyd 5 aelod i fod yn y grŵp, gyda 1 aelod wrth gefn.

**PENDERFYNIAD**

**1. Mabwysiadu'r briff.**

**2. Ethol y Cynghorwyr Elwyn Jones, Sian Williams, Menna Baines, Angela Russell, Elin Walker Jones i fod yn aelod o'r grŵp tasg a gorffen. Etholwyd y Cynghorydd Beth Lawton i fod yn aelod wrth gefn.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30yb a daeth i ben am 13:10yp

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Gofal |
| **DYDDIAD** | 29 Ionawr 2026 |
| **TEITL** | **Strategaeth Cadw Teuluoedd Gyda'i Gilydd** |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Mae angen craffu'r ddarpariaeth bresennol a'r adnoddau sydd ar gael i wireddu'r strategaeth. |
| **AWDURON** | Sharron Williams Carter<br>Gwenan Medi Hughes<br>Sue Layton<br>Caren Brown |
| **AELOD CABINET** | Cynghorydd Menna Trenholme |

**1. Pam fod angen ei graffu?**

1.1. Mae angen craffu'r ddarpariaeth bresennol a'r adnoddau sydd ar gael i wireddu'r strategaeth.

**2. Beth yn union sydd angen ei graffu?**

2.1 Byddwn yn edrych yn benodol ar bedwar cwestiwn i graffu ar y strategaeth cadw teuluoedd gyda'i gilydd.

1. Beth sy'n cael ei wneud er mwyn cadw teuluoedd gyda'i gilydd?
2. Faint o deuluoedd sy'n derbyn cefnogaeth?
3. Ydy'r adnoddau sydd ar gael yn diwallu anghenion/galw am y gwasanaeth?
4. Ydy'r gwasanaethau ataliol yn helpu i gadw teuluoedd gyda'i gilydd a lleihau'r nifer o blant sydd angen gofal gan y Cyngor?

2.2 I ymateb i'r cwestiynau hyn byddwn yn rhoi crynodeb o beth yw'r strategaeth a pa dimau o fewn yr Adran Blant sydd yn benodol yn rhan o'r strategaeth cadw teuluoedd gyda'i gilydd yn ogystal â gwaith aml-asiantaethol.

**3. Crynodeb a'r Materion Allweddol**

3.1 Rhan allweddol o'r Strategaeth Cadw Teuluoedd gyda'i gilydd yw ein Rhaglen a Gwasanaethau ataliol. Mae'r gwaith hwn yn holl bwysig ac yn canolbwyntio ar roi cymorth amserol a penodol er mwyn cadw teuluoedd gyda'i gilydd ac yn ddiogel cyn cyrraedd sefyllfa o argyfwng ac yn y pen draw yn atal plant a phobl ifanc rhag mynd i ofal. Prif nod yr Adran ydi cadw plant a phobl ifanc gyda'i teuluoedd os yw'n saff i wneud hynny.

3.2 Yn yr adroddiad yma byddwn yn edrych ar y pa wasanaethau yn yr Adran Blant sydd yn bennaf yn rhan o'r Strategaeth Cadw Teuluoedd gyda'i gilydd. Y prif wasanaethau ataliol yw Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, Tîm o Amgylch y Teulu , Tîm Cefnogi Teulu a'r Timau Gweithredol. Yn ogystal â hyn mae Gwasanaeth

Trobwynt, Tîm ôl-16 a Derwen hefyd yn rhoi cefnogaeth i bobl ifanc a theuluoedd. Mae cydweithio da yn digwydd drwy hybiau cymunedol hefyd er mwyn gweithio yn aml-asiantaethol a darparu'r gwasanaeth gorau i bobl a phlant Gwynedd.
Mi fydd unrhyw gais am wasanaethau ( cyfeiriad) yn mynd drwy ein Tîm Derbyn, cyfeiriadau, nhw sydd yn gwneud penderfyniad ynglŷn â'r angen i gynnal asesiad , cytuno ar drothwyon ac yna yn ei basio ymlaen i'r gwasanaeth addas os yn briodol.

## 4. Cefndir / Cyd-destun

4.1 Cynlluniwyd Teuluoedd yn Gyntaf i wella canlyniadau plant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae'n rhoi pwyslais ar ymyrraeth gynnar, gweithgarwch atal a chynnig cymorth ar gyfer teuluoedd cyfan, yn hytrach nag unigolion. Mae'r rhaglen yn hyrwyddo gwaith aml-asiantaethol er mwyn sicrhau bod teuluoedd yn cael cymorth cyd-gysylltiedig pan fydd angen hynny arnynt.

4.2 Bwriad y rhaglen yw darparu cymorth cynnar i deuluoedd, gyda'r nod o atal problemau rhag gwaethygu. Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn cefnogi Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru ac yn gweithio ochr yn ochr â rhaglenni eraill megis Dechrau'n Deg.

4.3 Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i awdurdodau lleol er mwyn gwella deilliannau i blant, pobl ifanc a theuluoedd.

4.4 Mae pob awdurdod lleol wedi datblygu Cynllun Gweithredol Teuluoedd yn Gyntaf sy'n disgrifio sut byddant yn gweithredu Teuluoedd yn Gyntaf yn lleol:

- Mae pobl o oedran gweithio mewn teuluoedd incwm isel yn cael cyflogaeth ac yn gwneud cynnydd ynddi
- Mae plant, pobl ifanc a theuluoedd, sy'n byw mewn tlodi neu mewn perygl ohono, yn cyflawni eu potensial
- Mae plant, pobl ifanc a theuluoedd yn iach ac yn mwynhau lles
- Mae teuluoedd yn hyderus, yn meithrin gwydnwch ac yn ddiogel.

4.5 Mae mesurau perfformiad wedi eu sefydlu er mwyn gwybod pa mor dda mae'r rhaglen yn perfformio o fewn awdurdodau lleol.

**4.6 Beth ydym yn dymuno gweld Teuluoedd yn Gyntaf yn ei gyflawni?**

4.7 Rhaid i Deuluoedd yn Gyntaf ddangos ei fod yn gallu gwella canlyniadau teuluoedd, er mwyn sicrhau eu bod yn hyderus, yn meithrin ac yn gydnerth. Mae Symud Cymru Ymlaen yn cynnwys ymrwymiad i gynorthwyo teuluoedd a rhieni i leihau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, ac mae Teuluoedd yn Gyntaf yn ffordd allweddol o gyflawni hyn.

4.8 Yn benodol, dylai'r rhaglen geisio:

· Cynllunio a datblygu gwasanaethau arloesol sy'n gallu cynorthwyo teuluoedd i sicrhau canlyniadau cadarnhaol a chynaliadwy

· Annog diwylliant o ddysgu am welliant parhaus wrth ddarparu gwasanaeth, rhannu arfer gorau a'r gwersi a ddysgwyd

· Hyrwyddo effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd wrth ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng dull gweithredu "buddsoddi er mwyn arbed", sy'n cynnwys ffocws cynnar ar weithgarwch ymyrraeth gynnar ac atal

· Cydweithio a chydweithredu gydag asiantaethau a rhaglenni eraill er mwyn sicrhau bod y gwaith o ddarparu gwasanaeth yn cyd-fynd, heb unrhyw fylchau na dyblygu gwasanaethau


**4.9 Egwyddorion Teuluoedd yn Gyntaf a ddarparir trwy'r rhaglen ystyried y prif egwyddorion canlynol:**

1. Canolbwyntio ar y teulu
2. Pwrpasol
3. Grymuso
4. Integredig
5. Dwys
6. Lleol
7. Rhagweithiol
8. Cynaliadwy

**4.10 Comisiynu Teuluoedd yn Gyntaf Gwynedd – 2025/26**

4.11 Mae Cyngor Gwynedd yn glir yn ei fwriad i wella aliniad cefnogaeth rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf â darpariaeth statudol, wrth wneud hynny mae'r cyngor wedi creu Strwythur Ymyrraeth Gynnar ac Ataliol Plant a Theuluoedd sy'n adlewyrchu'r timau ardal statudol bresennol (Arfon, Dwyfor a Meirionnydd).

4.12




**4.13 <u>Tîm o Amgylch y Teulu - TAF</u>**

4.14 Mae modd i unrhyw un gwneud cyfeiriad er mwyn cael mynediad i ystod eang o wasanaethau Teuluoedd yn gyntaf a Tîm amgylch y Teulu.

4.15 Mae nifer cyfeiriadau sengl wedi cynyddu ( teuluoedd sydd yn cael un gwasanaeth sy’n cael eu comisiynu yn hytrach na theulu gyda nifer uwch o anghenion sydd angen gwasanaethau wedi eu cydlynu.

4.16 Dyma drosolwg o rai o anghenion y teuluoedd sydd yn cael eu cyfeirio am gefnogaeth ymyrraeth gynnar yn ystod y chwarter diwethaf:

- Ymddygiad heriol plant a phobl ifanc yn y cartref a / neu'r ysgol a rhieni a gofalwyr yn gofyn am help i fynd at wraidd y broblem.
- Teuluoedd plant a phobl ifanc sydd ar restr aros am asesiad ASD / ADHD yn cysylltu am help tra'n disgwyl i gael eu gweld.
- Teuluoedd plant a phobl ifanc wedi cael diagnosis ASD / ADHD sydd ddim yn gwybod pa help sydd ar gael nesaf.
- Pryder am bresenoldeb isel plant a phobl ifanc neu blant yn gwrthod mynychu'r ysgol.

- Pryder am iechyd meddwl plant a phobl ifanc sydd ddim yn cyrraedd trothwy cefnogaeth gan CAMHS.
- Pryder am iechyd meddwl rhieni a gofalwyr a'r effaith mae hyn yn ei gael ar y plant.

**4.17 Beth sy'n cael ei wneud er mwyn cadw teuluoedd gyda'i gilydd gan y Tim Cefnogi Teulu?**

4.18 Mae'r tîm Cefnogi Teulu yn gweithredu gwaith ataliol ac ar wahanol lefelau rhan ymyraethau er mwyn cryfhau teuluoedd a lleihau'r risg o argyfwng. Rydym yng nghyd weithio'n agos gydag asiantaethau a gweithwyr eraill i gefnogi'r teuluoedd e.e. iechyd, addysg, gwasanaethau trydydd sector a llawer mwy. Mae'r gwaith yn cynnwys nifer o wahanol elfennau:

4.19 Mae rhannu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth yn hanfodol gan y gwasanaeth. Byddant yn darparu gwybodaeth am gefnogaeth i deuluoedd mewn meysydd megis rhianta, ymddygiad a pherthnasedd iach. Defnyddio adnoddau rhithiol megis 'Solihull Online' a 'Togetherness', ynghyd â negeseuon Llywodraeth megis "Rhowch Amser Iddo".

4.20 Mae'r tîm yn hyrwyddo perthnasoedd cadarnhaol drwy drefnu sesiynau hwyl i deuluoedd sy'n annog amser positif gyda'i gilydd ac yn cryfhau perthnasoedd. Yn y flwyddyn ddiwethaf cynhaliwyd 28 sesiwn Hwyl gyda 813 o blant yn mynychu a 502 o deuluoedd.

4.21 Mae grwpiau cefnogi rhieni yn cael ei gynnal i rannu arferion rhiantu, cefnogaeth ôl-genedigaeth, strategaethau i ymdopi â straen, ac ACE's . Maent yn cynnig ymyraethau ar gyfer:

  - Ymddygiad heriol
  - Gwrthdaro rhwng rhieni
  - Codi hyder
  - Cefnogaeth i rieni plant ag awtistiaeth neu anghenion niwroamrywiol
  - Delio â sefyllfaoedd trais (gan blentyn ar riant neu drais yn y cartref)

4.22 Mae'r sefyllfaoedd hyn yn gallu rhoi straen sylweddol ar deuluoedd, ac felly mae'r grwpiau'n cynnig strategaethau ymarferol i'w cefnogi.

4.23 Pan mae cefnogaeth un i un ei angen mae'n bwysig ei fod yn cael ei deilwra i'r teulu unigol i wneud yn siŵr eu bod yn cael y gefnogaeth addas ar gyfer eu hanghenion. Mae teuluoedd yn gallu derbyn cefnogaeth bersonol gan Swyddog Cefnogi Teulu. Mae'r swyddogion yn asesu'r teulu, adnabod cryfderau'r teulu, trafod pryderon, ac yng nghyd gynllunio strategaethau wedi'u teilwra i anghenion unigol.

4.24 Mae cefnogaeth yn cael eu cynnig gan swyddogion arbenigol yn y tîm sy'n gweithio gyda thadau, ieuenctid, Awtistiaeth, sefyllfaoedd *Tu Allan i'r Llys* yn dilyn cyfeiriad gan yr Heddlu (e.e., pan fo rhiant wedi defnyddio cosbi corfforol).

4.25 Mae gweithio mewn partneriaethau a chreu rhwydweithiau yn hanfodol i'r gwasanaeth fod yn llwyddiannus. Mae'r tîm yn cynnwys swyddogion Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg, gan weithio mewn partneriaeth i sicrhau cefnogaeth gynhwysfawr.

4.26 Nod y gwaith hwn yw cryfhau teuluoedd, lleihau bregusrwydd, a hyrwyddo llesiant plant a rhieni yn y blynyddoedd cynnar.

**4.27 Beth sy'n cael ei wneud er mwyn cadw teuluoedd gyda'i gilydd gan Wasanaeth Trobwynt?**

4.28 Yn ogystal â gwaith gan Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg mae gwaith ataliol yn cael ei wneud gan Wasanaeth Trobwynt hefyd. Mae'r Gwasanaeth yn cynnig ystod eang o raglenni seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi rhieni, gofalwyr, plant a phobl ifanc. Mae'r ymyriadau hyn yn helpu i gryfhau perthnasoedd, gwella lles emosiynol a chreu cartrefi mwy diogel a maethlon. Mae gwaith ataliol mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn cynnwys ymyriadau dwys (tua 10 awr yr wythnos) hyd at flwyddyn gyda theuluoedd. Maent yn darparu cefnogaeth i rieni sydd yn feichiog hyd at bobl ifanc 16+. Pan mae'r unigolion yn cyrraedd oed 16+ mae'r unigolion yn cael cefnogaeth gan y tîm 16+. Hefyd maent yn gweithio efo rhieni i dorri'r cylch o feichiogrwydd ailadroddus a gweithdrefnau gofal.

**4.29 Beth sy'n cael ei wneud er mwyn cadw teuluoedd gyda'i gilydd gan y Derwen a Hafan y Sêr?**

4.30 Mae Derwen a Hafan y Sêr hefyd yn cefnogi teuluoedd. Mae Derwen yn darparu hyfforddiant ar reoleiddio emosiynol trwy gynnig dosbarth sgiliau wythnosol i addysgu a llunio dysgu sgiliau newydd a rheoli emosiynau i blant a phobl ifanc ag anableddau. Mae gweithdai a chyrsiau i rieni sy'n canolbwyntio ar rai o'r anawsterau allweddol y mae teuluoedd yn eu profi ac yn trafod pa strategaethau y gellir eu cymryd i gefnogi eu plentyn. Siarad â rhieni eraill mewn sefyllfa debyg yn aml yw'r gefnogaeth emosiynol fwyaf effeithiol. Nod y gwasanaeth yw darparu cyfleoedd diogel a chyfeillgar i rieni siarad â rhieni eraill. Mae'r gweithdai, sesiynau celf a'r grwpiau cymorth yn darparu hyn. Mae Derwen hefyd gyda gwasanaeth yn darparu elfen gefnogol ar gyfer plant gydag anableddau drwy weithiwr cefnogol fynd a phlentyn / person ifanc i grwpiau, allan i'r gymuned i wneud rhywbeth sydd gan y plentyn ddiddordeb ynddo. Mae hyn yn helpu'r plant i allu bod yn rhan o weithgareddau du allan i'r ysgol a mwynhau profiadau gwahanol. Bydd hyn hefyd yn elfen ysbaid i'r teulu. Mae nifer o blant sydd yn defnyddio gwasanaeth Derwen hefyd yn defnyddio Gwasanaeth Hafan Y Sêr sydd yn lleoliad preswyl sydd yn darparu ysbaid i rieni sydd hefyd yn ofalwyr.

4.31 Pan mae teuluoedd angen gwasanaeth a chefnogaeth gan yr Adran Blant mae popeth yn mynd trwy'r Tim Derbyn er mwyn gallu gwneud yn siŵr bod y

wybodaeth yn cael ei asesu yn gywir er mwyn rhoi'r gwasanaeth gorau i deuluoedd.

**4.32 Cydweithio gydag Asiantaethau a Gwasanaethau**


4.33 Mae hybiau cymunedol hefyd yn ffordd o rannu gwybodaeth ar gyfer y teuluoedd iddynt wybod pa fath o gefnogaeth sydd ar gael ac ar gyfer cyfeirio unigolion at wasanaethau cywir. Mae hyn hefyd yn atgyfnerthu cydweithio yn aml-asiantaethol rhwng gwasanaethau statudol, ataliol a trydydd sector. Un o'r hybiau ydi Hwb Dinas Bangor ac maent yn gweithio'n agos gyda Gwasanaethau Plant ac rydym mewn proses sefydlu hwb plant a phobl ifanc ar gyfer Bangor a fydd yn cyd-fynd â Hwb Dinas Bangor. Gofynnwyd am hyn i sicrhau bod partneriaethau da yn cael eu hadeiladu, dim dyblygu gwasanaethau, ymwybyddiaeth barhaus o bwy sy'n darparu beth, ceisiadau ar y cyd a sicrhau bod neges gyson a chyfunedig yn cael ei hyrwyddo i bawb sy'n rhieni, oedolyn ymddiriededig, gofalwr ac unrhyw un sy'n gweithio gyda'r grwpiau hynny, yn ogystal â, wrth gwrs, cefnogi Plant a Phobl Ifanc yn uniongyrchol. Yn Hwb Yr Orsaf, Penygroes, mae tîm Cefnogi Teulu Dechrau'n Deg wedi rhoi sesiynau rhiant a babi. Yn Hwb Porthi Dre, Caernarfon mae cydweithio gyda nifer o dimau plant, awtistiaeth a chefnogi teulu yn digwydd hefyd. Mae hyn yn ffordd i'r gymuned wybod pa wasanaethau sydd ar gael i gefnogi teuluoedd.

4.34 Rydym yn cydweithio gyda'r Adran Tai ac Eiddo hefyd. Mae cyfrifoldeb llety argyfwng i deuluoedd yn cael ei weithredu drwy Adran Tai ac Eiddo. Drwy weithredu gyda phrotocol yr Adran Tai ac Eiddo nid yw llety argyfwng dros dro yn cael effaith ar gadw teuluoedd gyda'i gilydd. Nid yw'r gwasanaeth yn gwahanu teuluoedd. Ei blaenoriaeth bob amser yw sicrhau bod teuluoedd yn cael eu cadw gyda'i gilydd, gan gynnwys rhieni a phlant, hyd yn oed pan fo angen llety argyfwng ar fyr rybudd. Pan dderbynnir cais am lety argyfwng ar gyfer teulu, byddant yn ceisio, lle bynnag y bo'n bosibl, sicrhau ystafell deuluol addas fel ateb brys. Os oes plant yn rhan o'r aelwyd, rydym yn gweithio'n weithredol i leihau hyd yr arhosiad mewn llety argyfwng ac i symud y teulu ymlaen cyn gynted â phosibl i lety dros dro mwy addas. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd hyn drwy eiddo PSL (Private Sector Leasing), sef ein cynllun prydlesu sector preifat, neu opsiwn llety dros dro priodol arall.

**4.35 Faint o deuluoedd sy’n derbyn cefnogaeth?**

4.36 Wrth fod bron pob ymholiad yn dod drwy’r Tim Derbyn mae’n ffordd o weld faint o gynnydd sydd wedi bod dros y blynyddoedd diwethaf o unigolion a theuluoedd sydd angen cefnogaeth gan yr Adran Blant a Chefnogi Teuluoedd. Mae’r graff isod yn dangos bod cynnydd yn y nifer o gyfeiriadau wedi ein cyrraedd, llynedd roedd y nifer o gyfeiriadau bron yn 8,000 yn ystod y flwyddyn.

4.37




4.38 Mae hyn yn golygu wrth fod mwy o unigolion a theuluoedd yn cael cefnogaeth mae mwy o unigolion gyda chynllun gofal a chymorth statudol yn ei le. Mae ffigyrau isod yma hefyd yn dangos cynnydd dros y blynyddoedd diwethaf.

4.39

| | |
|---|---|
| 21-22 | 686 |
| 22-23 | 765 |
| 23-24 | 745 |
| 24-25 | 846 |
| 25-26 | (Amcan) 908 |

**4.40 Nifer o deuluoedd sy’n derbyn cefnogaeth gan Teuluoedd yn Gyntaf**


| | |
|---|---|
| 2020 – 21 | 167 teulu |
| 2021 - 22 | 326 teulu |
| 2022 – 23 | 279 teulu |
| 2023 – 24 | 355 teulu |
| 2024 – 25 | 403 teulu |
| 2025 – 2026 (hyd yn hyn) | 281 teulu |

*mae’r ffigyrau uchod yn dangos faint o deuluoedd sydd wedi cysylltu efo Tîm Derbyn Cyfeiriadau Plant ac sydd wedi derbyn cefnogaeth ymyrraeth gynnar trwy gynllun Teuluoedd yn Gyntaf Gwynedd.

Mae cynnydd amlwg yn y nifer dros y 2 flynedd diwethaf. *


4.41 Mae'r graff nesaf yn dangos faint o gyfeiriadau sydd yn cael eu gwneud i wasanaethau sy'n cael eu comisiynu gan arian Teuluoedd yn Gyntaf yma yng Ngwynedd:

4.42




4.43 Mae'r graff isod yn dangos faint o deuluoedd sydd wedi cau i gydlynwyr Tîm o Amgylch y Teulu a beth oedd canlyniad yr ymyrraeth. Rhain ydi'r teuluoedd sydd yn derbyn y gefnogaeth fwyaf dwys:

4.44



4.45 Un o'r rhesymau am leihad mewn achosion yn cau'n llwyddiannus dros y 2 flynedd diwethaf ydi oherwydd bod natur cyfeiriadau sy'n derbyn cefnogaeth wedi dwysau ac felly mae achosion yn dueddol o barhau ar agor am gyfnodau llawer iawn hirach cyn i ni fedru gweld unrhyw gynnydd. Rydym yn mesur "distance travelled" drwy ein teclyn asesu effaith "outcome star" ac rydym yn gofyn i'r mudiad rydym yn eu comisiynu adrodd yn chwarterol. Er mwyn cadw llygaid ar effeithiolrwydd ein rhaglen ac addasu yn amserol os oes angen.

4.46 Mae hyn yn nodwedd yn rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf ar draws Cymru.

**4.47 Nifer o deuluoedd sydd yn derbyn cefnogaeth gan swyddogion Cefnogi Teulu, Dechrau'n Deg**

4.48 Mae'r tabl isod yn dangos y niferoedd sydd yn derbyn cefnogaeth 1 i 1 gan swyddogion Dechrau'n Deg sydd yn rhan o wasanaeth Blynyddoedd Cynnar.

4.49

| **Ardal** | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 (Tymor 1) |
|---|---|---|---|---|
| Bangor | 28 | 28 | 32 | 6 |
| Caernarfon | 65 | 59 | 79 | 21 |
| Blaenau & Dolgellau | 94 | 71 | 85 | 17 |
| Bethesda a Deiniolen | 26 | 30 | 28 | 6 |
| Talysarn | 18 | 15 | 18 | 8 |
| Cyfanswm | 231 | 203 | 242 | 58 |

**4.50 Nifer o unigolion / deuluoedd sydd yn derbyn cefnogaeth gan Gwasanaeth Trobwynt**

**4.51**

| **22/23** | **23-24** | **24-25** | **Ebrill 25-Rhagfyr 25** |
|---|---|---|---|
| Trothwy wedi gweithio efo 178 o blant | Trothwy wedi gweithio efo 147 o blant | Trothwy wedi gweithio efo 209 o blant | Trothwy wedi gweithio efo 180 o blant ers Ebrill 2025. |
| 48 o'r 178 yn y broses amddiffyn plant ar gychwyn yr ymyrraeth. | 40 allan o'r 147 yn y broses amddiffyn plant ar gychwyn yr ymyrraeth. | 74 o'r 209 yn y broses amddiffyn plant ar gychwyn yr ymyrraeth. | 76 o'r 180 yn y broses amddiffyn plant ar gychwyn yr ymyrraeth. |
| 64 o'r 178 yn blant mewn gofal gyda'r bwriad o sefydlogi neu | 55 allan o'r 147 yn y broses amddiffyn plant ar gychwyn yr ymyrraeth. | 56 o'r 209 yn blant mewn gofal gyda'r bwriad o sefydlogi neu ddychwelyd adra. | 33 o'r 180 yn blant mewn gofal gyda'r bwriad o sefydlogi neu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| ddychwelyd adra. | | | ddychwelyd adra. |
| 20 babi cyn ei geni. | 21 babi cyn ei geni. | 37 babi cyn ei geni. | 6 babi cyn ei geni. |
| 50 CASP- 11 wedi gorffen ar amddiffyn plant neu ICO. | 43 CASP-17 wedi gorffen ar amddiffyn plant neu ICO. | 63 CASP-21 wedi gorffen ar amddiffyn plant neu ICO. | 52 CASP- 12 wedi gorffen ar amddiffyn plant neu ICO. |
| 21 Plentyn allan o ofal drwy ddiddymu gorchmynion gofal. | 12 Plentyn allan o ofal drwy ddiddymu gorchmynion gofal. | 12 Plentyn allan o ofal drwy ddiddymu gorchmynion gofal. | 6 plentyn allan o ofal drwy ddiddymu gorchmynion gofal ers Ebrill. |
| 1 Plentyn ar gynllun “step down” yn y cyfnod yma. | 2 Plentyn ar gynllun “step down” yn y cyfnod yma. | 6 Plentyn ar gynllun “step down” yn y cyfnod yma. | 3 plentyn ar gynllun “step down” yn y cyfnod yma. |

4.52 Mae’r trosolwg data gan y Gwasanaeth Trobwynt yn dangos bod y gwaith ataliol mae’r gwasanaeth yma yn ei wneud yn helpu teuluoedd aros gyda’i gilydd pan mae yn saff i wneud hynny ac o bosib i blant a phobl ifanc dychwelyd adref.

4.53 Fel y gwelir o’r data uchod mae yn dangos bod cyfeiriadau i dderbyn pob gwasanaeth yn codi a bod anghenion unigolion a theuluoedd hefyd wedi dwysau yn y blynyddoedd diwethaf sydd yn golygu bod gwasanaethau yn gweithio dros fwy o gyfnod o amser gyda’r teuluoedd.

**4.54 Nifer o unigolion / deuluoedd sydd yn derbyn cefnogaeth gan Derwen a Hafan y Sêr**

4.55 Gyda gweithgareddau sydd â ffocws ar anableddau gweler y tabl isod. Nid yw ffigyrau yma yn cynnwys paned a sgwrs, sesiynau hwyl a sesiynau rhannu gwybodaeth.

4.56 Gweithgareddau a grwpiau sydd â ffocws anableddau:-

| | |
|---|---|
| 22-23 | 128 |
| 23-24 | 103 |
| 24-25 | 170 |
| 25-26 (data at rŵan) | 90 |

4.57 Mae niferoedd sydd yn ceisio derbyn cefnogaeth a gwasanaeth gan Derwen wedi codi a dyna pam rydym wedi mynd ati i drefnu amrediad o weithgareddau gwahanol a threfnu sesiynau grwpiau er mwyn ymateb i’r gofyn ac i drio helpu teuluoedd tra yn disgwyl am wasanaeth penodol neu ar y cyd gyda gwasanaethau ataliol. Mae

Ffigwr Mis Rhagfyr yn dangos bod 483 o blant a phobl ifanc yn agored i wasanaethau Derwen ac o'r ffigwr 483 mae 214 yn derbyn gwasanaeth cefnogol.

4.58 Gyda gwasanaeth preswyl ysbaid mae Hafan y Sêr yn darparu, maent yn rhoi gwasanaeth i 43 o blant a phobl ifanc gydag anableddau. Yn ystod 2024 roedd nifer o nosweithiau ysbaid yn 1,048 dros y flwyddyn ac roedd cynnydd i 1,417 am y flwyddyn 2025.

**4.59 Ydy'r adnoddau sydd ar gael yn diwallu anghenion/galw am y gwasanaeth**

**4.60 Teuluoedd yn Gyntaf**

4.61 Rydym yn defnyddio gwybodaeth gan Tim Derbyn Cyfeiriadau i helpu deall beth yw natur problemau teuluoedd a chanfod patrymau lleol amlwg ac yn defnyddio'r wybodaeth yma er mwyn sicrhau ein bod ni yn comisiynu'r gwasanaethau ac ymyraethau mwyaf effeithiol a buddiol.

4.62 Mae gwasanaethau a gomisiynir trwy Teuluoedd yn Gyntaf Gwynedd wedi eu sefydlu'n gadarn erbyn hyn o ran y ddarpariaeth sydd ar gael. Maent hefyd yn hyblyg ac yn gallu addasu i anghenion y teulu.

4.63 Mae'r galw am ein gwasanaeth cefnogi teulu wedi cynyddu'n fawr gyda nifer uchel o'n cyfeiriadau yn gofyn am help gydag ymddygiad. Mae llai o ffocws erbyn hyn am helpu teuluoedd efo materion mwy ymarferol. Byddai'n dda gallu cynnig hyn i deuluoedd hefyd petai mwy o gyllid ar gael.

4.64 Arian grant sydd yn ariannu rhan helaeth o' waith ataliol yr Adran , gan gynnwys Teuluoedd y Gyntaf a Dechrau'n Deg. Mae risg bod Llywodraeth Cymru yn lleihau dyraniad Cyngor Gwynedd ac mi fyddai hynny yn cael effaith arwyddocaol ar allu'r Adran i ddarparu gwasanaethau ataliol yn yr un ffordd. Mae hwn yn fater sydd wedi ei gofnodi ar Gofrestr Risg y Cyngor.

**4.65 Tim Cefnogi Teulu**

4.66 Ar hyn o bryd, mae rhestr aros ar gyfer cefnogaeth un i un, gan adlewyrchu cynnydd sylweddol yn yr angen am wasanaeth. Mae'r achosion sy'n dod i'r amlwg yn gofyn am gefnogaeth ar lefel fwy dwys neu arbenigol, ac o ganlyniad, mae hyd y gefnogaeth yn ymestyn dros gyfnod hirach.

4.67 Mae nifer y teuluoedd sy'n derbyn cefnogaeth drwy grwpiau wedi gostwng, yn bennaf oherwydd bregusrwydd teuluoedd a lefelau isel o iechyd meddwl. Yn ogystal, mae nifer o swyddogion ar gyfnod mamolaeth, sy'n effeithio ar ein gallu i ymateb yn llawn i anghenion teuluoedd Gwynedd.

**4.68 Gwasanaeth Trobwynt**

4.69 Gan fod natur, cymhlethdodau a llwythi gwaith ar y cynnydd nid ydi pob tro yn bosibl diwallu anghenion/galw am wasanaeth yn amserol. Mae data o Fis Rhagfyr yn dangos 287 o blant mewn gofal a 116 ar gofrestr amddiffyn plant. Mae nifer o

achosion yn uchel ac felly mae yn anodd rhoi gwasanaeth amserol i bawb. Mae bosib rhoi 1 gweithiwr i allu gweithio gyda 4 teulu ar bob tro. Weithiau angen 2 weithiwr i rai teuluoedd, ddibynnol ar risg a natur y gwaith.

**4.70 Derwen a Hafan y Sêr**

4.71 Wrth fod anghenion plant a phobl ifanc wedi dwysau dros y blynyddoedd diwethaf mae rhestrau aros bellach oherwydd y cynnydd. Mae'r gwasanaeth yn gwneud eu gorau i wneud yn siŵr bod pob teulu yn cael y gwasanaeth maent ei angen yn amserol. Mae rhestr aros ar hyn o bryd ar gyfer gwasanaeth cefnogol Derwen yn ogystal â rhestr aros ar gyfer mynediad at wasanaeth nyrsio.

4.72 Mae sefyllfa debyg gyda'r lefel angen am nosweithiau ysbaid wedi codi yn Hafan y Sêr hefyd ac oherwydd hyn mae 19 o blant ar y rhestr aros i dderbyn y gwasanaeth. Gobeithio bydd y rhestr aros yn lleihau yn y misoedd nesaf.

**4.73 Ydy'r gwasanaethau ataliol yn helpu i gadw teuluoedd gyda'i gilydd a lleihau'r nifer o blant sydd angen gofal gan y Cyngor**

**4.74 Teuluoedd yn Gyntaf**

4.75 Mae'n bosib i deuluoedd gael eu cyfeirio am un o'r gwasanaethau 'rydym yn eu comisiynu neu mae'n bosib iddynt gael cefnogaeth fwy dwys gan gydlynydd Tîm o Amgylch y Teulu. Mae hyn yn lleihau pwysau ar wasanaethau statudol a mwy cymhleth.

4.76 Os ydi'r teulu yn agored i Teuluoedd yn Gyntaf am unrhyw gefnogaeth, y Tim fydd yn delio gydag unrhyw adroddiad Heddlu ddaw i mewn neu gyfeiriad pellach am help os nad yw o bryder arwyddocaol. Rydym yn cydweithio'n agos efo Tîm Derbyn i sicrhau bod teuluoedd yn derbyn y gefnogaeth gywir gan wneud ymweliadau ar y cyd os oes pryder cynyddol am deulu. Weithiau mae'n anochel bod teulu'n cael ei uchafu i dderbyn cefnogaeth statudol.

4.77 Yn sicr mi welwn gynnydd sylweddol mewn llwyth gwaith statudol pe byddai'r adnodd a'r arian Teuluoedd yn Gyntaf yn cael ei golli neu leihau gan y Llywodraeth.

**4.78 Tim Cefnogi Teulu**

4.79 Hwn ydi'r cyfle gorau i ni gyfarch anghenion y teuluoedd a rhoi gwybodaeth a chefnogaeth sydd yn adeiladu ar gryfderau a sgiliau'r rhieni. Y rhieni yn adrodd yn gadarnhaol iawn o'r gefnogaeth.

**4.80 Gwasanaeth Trobwynt**

4.81 Mi fyddai llawer mwy o blant angen gofal neu fethu dychwelyd adra o ofal heb y gwasanaethau ataliol.

**4.82 Derwen a Hafan y Sêr**

4.83 Mae'r gwaith mae gwasanaeth Derwen a Hafan y Sêr yn ei wneud yn amhrisiadwy gyda phlant a phobl ifanc gydag anableddau. Mae sesiynau a hyfforddiant yn galluogi teuluoedd a phobl ifanc allan dygymod cyn iddo fynd at grisis. Mae yn creu fforwm hefyd bod rhieni yn gallu trafod hefo'i gilydd mewn grwpiau ac felly yn creu cysylltiadau. Yn ogystal â darparu ysbaid ar gyfer rhieni sydd yn ofalwyr i'r plant a phobl ifanc. Mae hyn o fudd i'r plentyn / person ifanc yn ogystal ar deulu oll oherwydd fel arall gall teuluoedd dorri lawr oherwydd y straen a gofynion i ofalu ac yn atal iddo gyrraedd lefel crisis.

**5. Ymgynghori**

5.1 Mae ymgynghori yn digwydd yn gyson yn y maes yma, mae hyn oherwydd mai arian grant ydi nifer o'r gwaith mae hyn yn golygu bod angen ymgynghori gyda gwahanol asiantaethau a theuluoedd i weld os ydi'r cynllun yn gweithio wrth asesu effeithlonrwydd y gwaith. Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn cefnogi Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru felly mae ymgynghori yn digwydd drwy Lywodraeth Cymru yn ogystal â gwasanaethau megis Dechrau'n Deg i ymgynghori gyda theuluoedd i weld pa fath o wasanaethau maent angen ei weld. Ar ôl hynny bydd dad-gomisiynu / ail gomisiynu pan mae blwyddyn ariannol newydd yn cychwyn.

**6. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

6.1 A ydych wedi **cynnwys** trigolion / defnyddwyr gwasanaeth? Os ddim, pryd a sut ydych yn bwriadu ymgynghori â nhw?

6.2 Rydym wedi ystyried y nodau llesiant perthnasol o dan y ddeddf hon. Rydym eisoes yn cynnwys trigolion a defnyddwyr gwasanaeth wrth ddatblygu gwaith yn y maes hwn. Yn ogystal mae cydweithio ar lefel aml-asiantaethol yn fewnol ac allanol eisoes yn digwydd.

6.3 A ydych wedi ystyried **cydweithio**?

6.4 Mae cydweithio yn digwydd yn gyson wrth fod y strategaeth cadw teuluoedd gyda'i gilydd yn dibynnu ar gydweithio yn aml-asiantaethol drwy gydweithio rhwng Adrannau'r Cyngor ac y trydydd sector.

6.5 Beth sydd wedi ei wneud neu bydd yn cael ei wneud i **atal** problemau rhag codi neu waethygu yn y dyfodol?

6.6 Drwy flaenoriaethu gwaith ataliol bydd hyn yn helpu i leihau'r angen i wasanaethau statudol o fewn yr Adran Blant sydd eisoes gyda gorbwysa yn barod. Mae gwaith ataliol yn atal problemau rhag gwaethygu ar gyfer y teuluoedd sydd wir angen cymorth ac yn rhoi cymorth i deuluoedd cyn sefyllfa argyfwng.

6.7 Sut ydych wedi ystyried yr **hirdymor** a beth fydd anghenion pobl mewn blynyddoedd i ddod?

6.8 O edrych ar ystadegau dros y 5 mlynedd diwethaf, mae mwy o deuluoedd angen cymorth gan y Gwasanaeth Plant yn enwedig yr elfen ataliol. Yn ogystal â hyn mae'r cymorth mae teuluoedd ei angen yn fwy dwys yn y blynyddoedd diwethaf oherwydd bod anghenion yn fwy dwys a chymhleth erbyn hyn. Rydym yn gobeithio bydd y rhaglen yn parhau i gael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru am flynyddoedd i ddod. Heb yr arian rydym yn ei dderbyn drwy grant nid yw'n bosib rhoi'r gwasanaeth rydym yn ei gynnig.

6.9 Er mwyn sicrhau **integreiddio**, a ydych wedi ystyried yr effaith bosib ar gyrff cyhoeddus eraill?

6.10 Mae integreiddio yn digwydd yn gyson rhwng yr Adran Blant a Chefnogi Teuluoedd a trydydd sector. Heb gael yr arian grant i gyflawni dyletswyddau ataliol sydd un ai o fewn yr Adran neu yn cael ei gomisiynu gan Drydydd Sector buasai mwy o arian yn gorfod cael eu buddsoddi gan y llywodraeth oherwydd buasai fwy o blant a phobl ifanc yn dod i ofal. Yn ogystal ar ffaith buasai teuluoedd yn gorfod derbyn gwasanaeth statudol yn hytrach na ataliol maent yn ei dderbyn ar hyn o bryd.

## 7. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

7. 1 Rydym wedi rhoi sylw i'r nodweddion uchod ac rydym fel Adran yn dilyn Deddf Cydraddoldeb 2010 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn ein gwaith yn ddyddiol. Mae hyn yn gwneud yn siŵr bod unigolion a theuluoedd yn derbyn gwasanaeth a chael ei asesiadau yn eu hiaith o'i dewis.

## 8. Camau Nesaf

8.1 Byddwn yn cyflwyno Cynllun Gweithredu Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Ddiwygiedig mis Chwefror i'r Llywodraeth gymeradwyo drwy'r Grant CCG. Rydym yn gobeithio bydd dim llawer o newid o'r swm rydym yn ei dderbyn gyda'r grant.

**Atodiadau**

Strategaeth Cadw Teuluoedd Gyda'i Gilydd

# CYNLLUN CYFLAWNI TEULUOEDD YN GYNTAF
# 2025-26

## Awdurdod Lleol:

Mae'r Cynllun Cyflawni yn cynnwys pedair adran, y mae'n rhaid cwblhau pob un ohonynt cyn ei gyflwyno.

Adran A – Trosolwg Awdurdodau Lleol o Gynllun Cyflawni Teuluoedd yn Gyntaf.
Adran B – Cyflawni Elfennau
Adran C – Heriau a Risgiau

### Adran A - Trosolwg

Rhowch drosolwg o raglen arfaethedig Teuluoedd yn Gyntaf yn eich ardal ar gyfer 2025-26 a'r rhesymeg drosti. Dylech nodi anghenion yr ardal a sut mae eich cynllun yn mynd i'r afael â nhw. Pan fydd newidiadau yn cael eu gwneud i'r cyflawniad, esboniwch sut maent yn dal i gyd-fynd â'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf.

**Strategaeth Cefnogi Teuluoedd a Rhiantu Gwynedd**

Mae Cyngor Gwynedd wedi datblygu a diweddaru ei Strategaeth Plant a Theuluoedd. Mae ein ffocws yn parhau i fod ar y cyfeiriad strategol a osodwyd yn y Strategaeth Gomisiynu Cefnogi Teuluoedd a Rhiantu. Y weledigaeth yw y bydd teuluoedd yng Ngwynedd yn 'gryf, gwydn a ffyniannus' er mwyn sicrhau bod:

- *Plant yn cael y cychwyn gorau mewn bywyd.*
- *Rhieni, gofalwyr a theuluoedd yn derbyn y math cywir o ofal ar yr amser iawn er mwyn eu galluogi i ddarparu gofal o'r lefel orau a chyfleoedd i'w plant.*
- *Plant a phobl ifanc yn cyflawni eu potensial dysgu llawn ac yn datblygu sgiliau.*
- *Plant, pobl ifanc a theuluoedd yn mwynhau’r iechyd gorau posib gyda mynediad teg i gyfleoedd egnïol, diwylliannol, chwarae a hamdden.*
- *Plant, pobl ifanc a theuluoedd yn gallu lleisio eu barn yn hyderus a gwneud cyfraniad*

*cadarnhaol i'w cymunedau.*

- *Plant, pobl ifanc a theuluoedd yn byw mewn cartrefi a llety addas a sefydlog.*
- *Pobl ifanc yn datblygu'n oedolion hyderus, llwyddiannus ac annibynnol.*

Mae Grŵp Arweinyddiaeth Plant a Theuluoedd Gwynedd yn ogystal â Chabinet Cyngor Gwynedd wedi cytuno ar y weledigaeth. Rydym felly yn canolbwyntio ar y canlyniadau a'r gwasanaethau comisiynu isod yn unol â'r hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni, sef:

- gweithio gyda theuluoedd y gallai eu plant fod wedi eu heffeithio gan Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE's).
- bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd sydd mewn tlodi neu mewn perygl o fod mewn tlodi yn cyflawni eu potensial.
- bod plant, pobl ifanc a theuluoedd yn iach, yn ddiogel ac yn mwynhau llesiant.
- mae teuluoedd yn hyderus, yn meithrin ac yn wydn.

Caiff y canlyniadau hyn eu hategu gan ystod o egwyddorion allweddol sy'n ganolog i'r atebion posib y gallwch eu dylunio. Y rhain yw:

- **Ar sail anghenion** - mynediad at wasanaethau a seiliwyd ar **anghenion** yn hytrach na ble mae teuluoedd, rhieni, plant neu bobl ifanc yn byw.
- **Atal** – ailgyfeirio ein ffocws tuag at atal problemau rhag datblygu a lleihau dibyniaeth.
- **Wedi'i dargedu** – amddiffyn a meithrin pobl a mynd i'r afael ag anghenion y cymunedau mwyaf difreintiedig.
- **Wedi'i bersonoli** - sicrhau bod gwasanaethau wedi eu **teilwra**fel eu bod yn diwallu anghenion pobl yn effeithiol gan ddarparu hyblygrwydd i ymateb yn Arfon, Dwyfor a Meirionnydd.
- **Integredig** - rhaid i asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau gydweithio i ddiwallu anghenion ac felly gyflwyno tendr mewn partneriaeth i deuluoedd, sy'n dangos symudiad ymwybodol tuag at wasanaethau mwy integredig.
- **Cysondeb a hyblygrwydd** - Pwysleisiodd nifer o'r rhanddeiliaid yr angen am gysondeb i hybu cydraddoldeb mynediad ar draws y Sir. Ynghyd â hyn, galwodd rhanddeiliaid a phartneriaid am hyblygrwydd ledled y tair ardal - Arfon, Meirionnydd a Dwyfor - er mwyn cysylltu yn hytrach na dadleoli darpariaeth gwasanaeth parhaus mewn rhai ardaloedd a llenwi'r bylchau mewn eraill.
- **Yn seiliedig ar rymuso a chryfderau** - dylai'r holl gefnogaeth i'r teuluoedd a rhieni **rymuso -** cefnogi pobl i wneud pethau dros eu hunain, adeiladu ar gryfderau a nodwyd a helpu i wneud newid yn gynaliadwy.

- **Canolbwyntio ar y teulu** – mae angen i'r holl wasanaethau **roi teuluoedd yn ganolog i'w dull gweithredu** - teuluoedd yn gyntaf nid y gwasanaeth **(Ffordd Gwynedd)**

- **Gwerth am Arian** - rhaid i bob gwasanaeth cefnogi teulu a rhiantu gynnig gwerth am arian sy'n gysylltiedig â fframwaith mesur canlyniad priodol **– cost ac ansawdd.**

- **Dwyieithog -** rhaid cynnig pob gwasanaeth cefnogi teulu a rhiantu yn yr **iaith o'u dewis.**

Cyflawni'r rhaglen:

- Canolbwyntio ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) a blaenoriaeth
- Ystod oedran yn symud i ymyriadau cefnogi teuluoedd a rhiantu gan ganolbwyntio mwy ar elfennau o'r rhaglen yn y grwpiau oedran 8-18; 0-7, **7-12, 13-18 (25*)**
- Mwy o gefnogaeth i rieni, plant a phobl ifanc sy'n byw gydag anabledd ac i rieni gydag anawsterau dysgu neu broblemau iechyd meddwl.
- Rhoi'r gorau i gefnogaeth gwasanaethau ariannol
- Mwy o ymwybyddiaeth o broblemau cam-drin sylweddau mewn teuluoedd (rhieni a phlant, cysylltiadau gyda thrais domestig a cham-drin domestig)
- Dim angen am Setiau Dysgu, er hynny mae angen i ni ystyried Fforwm Hyfforddi a Dysgu i holl agweddau prosiectau Teuluoedd yn Gyntaf.
- Tadau (preswyl neu ddi-breswyl).
- Teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr
- Teuluoedd sy'n profi carchariad.

## Adran B - Cyflawni

Disgwylir i Awdurdodau Lleol hefyd flaenoriaethu'r model Tîm o Amgylch y Teulu a pharhau i sicrhau bod gweithio amlasiantaethol yn parhau i fod yn nodwedd annatod o Deuluoedd yn Gyntaf.

### FFRAMWAITH ASESU'R TEULU AR Y CYD (JAFF)/TÎM O AMGYLCH Y TEULU (TAF)

Er mwyn sicrhau mynediad di-dor at wasanaethau ataliol a/neu statudol yn dibynnu ar lefel yr angen, mae Gwynedd wedi mabwysiadu ac yn parhau i ddefnyddio templedi asesu a chynllunio gofal Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (SSWBA). Rydym wedi gwneud rhai addasiadau i'r rhain i adlewyrchu'r arferion gwaith gorau a gafwyd yng Ngwynedd.

Mae'r ffurflen gyfeirio rhanbarthol wedi'i mabwysiadu sy'n galluogi cyfeirwyr i ddefnyddio un ffurflen i gael mynediad i wasanaethau ataliol a/neu statudol. Mae'r ffurflen gyfeirio yn cynnwys ac wedi'i strwythuro i ystyried cryfderau'r teulu ac yn ystyried beth yw eu

canlyniadau llesiant. Mae hefyd yn cynnwys y cwestiwn "beth sy'n bwysig" fel bod unrhyw gyfeiriad yn canolbwyntio ar beth yw'r materion pwysig y mae'r teulu eisiau cefnogaeth neu gymorth gyda nhw.

Yn dilyn hyn, mae Gwynedd wedi mabwysiadu'r teclyn asesu a chymhwysedd gofal a chefnogaeth rhanbarthol Rhan 3 ar draws gwasanaethau ataliol a statudol sy'n galluogi teuluoedd i symud yn rhwydd rhwng darpariaethau os a phan fydd yr angen yn codi, gan felly leihau'r baich asesu arnynt.

Mae'r prif elfennau a gynhwysir yn y JAFF wedi'u cadw yn nogfen asesu rhan 3 oherwydd awydd y grŵp i gael un teclyn asesu cyffredinol.

Mae gan y JAFF a'r teclyn Asesu Rhan 3 iaith gyffredin a thanategir y ddau gan yr un egwyddor o adeiladu a chydnabod cryfderau'r teulu.

Bydd strwythur y TAF yn dal gafael ar ei rôl fel cydlynwyr cefnogaeth ac uwch reolwyr achos ar gyfer y 3 **Tîm Cefnogi Teuluoedd**; dyrennir 3 cydlynydd i Dîm Arfon ac un yr un i Dimau Dwyfor a Meirionnydd (a gomisiynwyd).

**Gwasanaethau Anabledd**

Darparwr Gwasanaeth - DERWEN

Drwy ein gwaith manwl gyda theuluoedd plant anabl, rydym wedi adnabod nifer o feysydd sydd eu hangen i gefnogi teuluoedd a phlant i wella deilliannau rhieni a phobl ifanc. Mae'r meysydd hyn yn ymdrin â'r ystod oedran llawn o ran gwella sgiliau a gwydnwch rhieni ac yn targedu plant hŷn i wella eu sgiliau eu hunain i ddeall ac ymdrin â'u hemosiynau. Yn benodol:

1. Gwaith iechyd meddwl ataliol ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau gydag anabledd dysgu

Mae gwella sgiliau pobl ifanc gydag anabledd dysgu (AD) i ddeall a goddef eu profiadau emosiynol yn well yn debygol o effeithio ar eu llesiant eu hunain, lleihau ymddygiad heriol ac anawsterau iechyd meddwl, a chael sgil-effaith ar eu teuluoedd. Mae darparu sgiliau/hyfforddiant ar iechyd emosiynol a meddwl i bobl ifanc gydag AD yn faes neu'n waith ataliol sy'n cael ei ddiystyru'n fawr.

Mae Therapi Ymddygiad Dilechdidol (DBT) yn driniaeth ar gyfer unigolion gyda sensitifrwydd emosiynol eithafol, h.y. sydd ag ymatebion emosiynol cynt, mwy ac sy'n cymryd mwy o amser i ddychwelyd at y llinell sylfaen na'r cyfartaledd. Mae'r ymatebion hyn yn aml yn arwain at ymddygiad mentrus a byrbwyll er mwyn lleihau a goddef profiadau emosiynol. Mae DBT fel arfer yn cynnwys hyfforddiant sgiliau yn seiliedig ar grŵp; dosbarth sgiliau wythnosol i addysgu a siapio'r gwaith o ddysgu sgiliau newydd i reoli emosiynau. Mae'n cynnwys ystyriaeth ofalgar, goddef gofid, rheolaeth emosiynau ac effeithiolrwydd rhyngbersonol (e.e. gofyn/dweud na, cynnal/gorffen perthnasau, a hunan-barch). Dull yn seiliedig ar dystiolaeth yw DBT ac mae ar gael fel arfer i bobl ifanc heb anabledd dysgu, oedolion gydag anawsterau iechyd meddwl, ac oedolion gydag anawsterau dysgu. Nid yw ar gael ar hyn o bryd i bobl ifanc yn eu harddegau gydag anabledd dysgu.

Ar ôl peilot llwyddiannus yn yr ysgolion arbennig, mae'r gwasanaeth yn parhau i ddarparu grwpiau rheoleiddio emosiynol (naill ai wyneb yn wyneb neu'n rhithiol); cynigiwyd y sesiynau hyn ar sail 1:1 yn ystod y pandemig hefyd. Roedd y sesiynau hyn hefyd yn llwyddiant a derbyniwyd adborth cadarnhaol rheolaidd gan y teuluoedd. Mae'r prosiect bellach yn cyflwyno'r sesiynau mewn ysgolion prif ffrwd.

Rydym wedi parhau â'r gwaith o gyflwyno cwrs DBT wedi'i addasu i bobl ifanc gydag anabledd dysgu ac i werthuso'r gwaith er mwyn ychwanegu at sylfaen wybodaeth sut i wella sgiliau pobl ifanc gydag AD. Byddai'r ysgolion neu asiantaethau eraill sy'n debygol o elwa o'r math hwn o waith yn adnabod y bobl ifanc. Bydd pob ysgol arbennig yn yr ardal yn parhau i gael cynnig gwaith grŵp a chefnogaeth i barhau â'r gwaith eu hunain.

Mae'r gwasanaeth wedi ymestyn i bobl ifanc gydag AD y tu allan i ysgolion arbennig. Rydym hefyd yn cynnig y grwpiau i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion ychwanegol heblaw anabledd dysgu sydd mewn ysgolion prif ffrwd. Rydym wedi darganfod bod y cwrs yr ydym yn ei gynnig o fudd i lawer o blant a phobl ifanc sydd o dan yr ymbarél niwroamrywiol gan fod llawer yn ei chael hi'n anodd rheoleiddio eu hemosiynau.

Rydym wedi datblygu cyfres o ddau weithdy i rieni drafod, deall a rheoli emosiynau eu plentyn. Mae yna hefyd bwyslais yn y gweithdai hyn ar les emosiynol y rhieni / gofalwyr. Trafodir y rhain ymhellach yn rhan 2.

2. Uwch Swyddog Cefnogi Rhieni a Swyddogion Cefnogi Rhieni.

Mae sawl her ychwanegol wrth fagu plentyn gydag anabledd ochr yn ochr â'r heriau arferol a wynebir gan deuluoedd. O ystyried ein profiadau diweddar, mae cynyddu cyfleoedd teuluoedd i gymryd rhan mewn ymyrraeth grŵp yn seiliedig ar dystiolaeth drwy gefnogaeth briodol yn debygol o alluogi mwy o bobl i elwa o'r rhaglenni sy'n cael eu cynnig. Mae'r Swyddogion Cefnogi Rhieni yn gyfrifol am gefnogi teuluoedd i gael mynediad at y grwpiau ymyrraeth yn seiliedig ar dystiolaeth.

Mae'r Uwch Swyddog Cefnogi Rhieni, ynghyd â'r swyddogion Cefnogi Rhieni, yn adnabod ble a phryd fyddai angen grŵp, yn trefnu'r bobl angenrheidiol i redeg y grwpiau, ac yn eu cefnogi i'w rhedeg.

Yn lleol, mae gennym gyfoeth o weithwyr medrus mewn gwasanaethau statudol a'r trydydd sector sydd wedi'u hyfforddi ac yn gallu rhedeg ymyraethau ataliol yn seiliedig ar dystiolaeth i deuluoedd. Mae'r tîm wedi bod yn gweithio ar y cyd â sawl gwasanaeth gwahanol gan gynnwys Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol, Timau Teuluoedd yn Gyntaf i redeg amrywiol raglenni a gweithdai rhiantu amrywiol.

Mae'r uwch Swyddog Rhieni yn defnyddio'r wybodaeth a'r strategaethau uchod i gefnogi a chysylltu gyda'r ddau swyddog cefnogi teulu yn y tîm i gwblhau gwaith unigol gyda theuluoedd e.e. cynorthwyo gyda strategaethau rheoli ymddygiad neu weithgareddau rhiantu eraill.

Dyma'r gweithdai a'r rhaglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth yr ydym wedi canfod eu bod yn llwyddiannus wrth gefnogi teuluoedd plant ag anghenion ychwanegol yng Ngwynedd:
Ers mis Medi 2023 rydym wedi rhedeg y cwrs ***'Riding the Rapids'*** bedair gwaith yng Ngwynedd. Mae *'Riding the Rapids'* yn gwrs a ddyluniwyd i rieni a gofalwyr plant sy'n awtistig, ar y llwybr ar gyfer asesiad awtistiaeth neu sydd ag anableddau dysgu sylweddol neu anableddau cymhleth eraill. Nod y cwrs yw helpu rhieni i ddeall a chefnogi lles eu plentyn, a lleihau straen, gofid ac ymddygiadau sy'n gysylltiedig â gofid, neu ymddygiadau eraill sy'n peri pryder.

Mae ymchwil yn dangos fod rhieni a gofalwyr sy'n mynychu *'Riding the Rapids'* yn gallu datblygu strategaethau effeithiol i gefnogi eu plant a chynyddu eu sgiliau ymdopi a'u hyder gan leihau straen.

Datblygwyd *'Riding the Rapids'* ym Manceinion gan y Gwasanaeth Cymunedol Arbenigol—Anableddau Dysgu ac Awtistiaeth. Gwnaed ymchwil arno gan Uned Polisi Cymdeithasol ac Ymchwil, Prifysgol Efrog.
Mae dau gwrs ar wahân: un ar gyfer rhieni/gofalwyr plant oedran cynradd (derbyn i flwyddyn 6) ac un ar gyfer rhieni/gofalwyr pobl ifanc oedran uwchradd (blynyddoedd ysgol 7-11).

Mae adborth gan fynychwyr y cwrs *'Riding the Rapids'* wedi bod yn gadarnhaol. Mae rhieni wedi adrodd eu bod yn teimlo fod pobl yn wirioneddol gwrando arnynt, ac roeddent yn gwerthfawrogi gallu dod at ei gilydd, roedd y sesiynau 'bron fel sesiwn therapi'. Mae llawer o rieni yn teimlo bod *'Riding the Rapids'* wedi rhoi rhai strategaethau gwych iddynt ac maent yn eu defnyddio o hyd.  Adroddodd rhieni fod uniaethu â thrafferthion rhieni eraill wedi bod yn dda a chysylltu ag eraill a rhannu profiadau mewn lle diogel.

**Gweithdai cwsg a chefnogaeth.** Gallwn gynnig cymorth i deuluoedd plant ag Anableddau Dysgu a/neu anghenion ychwanegol. Nid yw rhai rhieni yn gallu mynychu gweithdai felly rydym yn cynnig cefnogaeth 1:1 naill ai ar-lein neu drwy ymweld â'r cartref. Yn ddiweddar, mae un o'r swyddogion cefnogi rhieni wedi cwblhau hyfforddiant ymgynghorydd cyngor cwsg pediatrig 'Cerebra Essential'.

Darparwyd sesiynau **ACT (Therapi Derbyn ac Ymrwymiad)** i rieni sy'n cael trafferth gyda diagnosis eu plentyn; mae'r rhain wedi bod yn llwyddiant a byddant yn rhan o'n rhaglenni yn y dyfodol.

Darparwyd sesiynau **MAKATON** ar ôl i nifer o rieni ofyn am gymorth gyda thechnegau cyfathrebu.

Cynhelir grwpiau **Cefnogaeth i Rieni, y sesiynau Cwrdd a Gwneud** ddwywaith y mis yn rhithiol. Mae'r grwpiau hyn yn grŵp cymorth a lles i rieni. Rydym hefyd yn trefnu sesiynau wyneb yn wyneb ar draws y sir.

Rydym hefyd yn cyd-redeg y **sesiynau Paned a Sgwrs** gyda Thîm Awtistiaeth Gwynedd a'r Tîm Nyrsio Ysgolion Arbenigol. Mae'r sesiynau yn caniatáu i rieni gael

lle diogel i gyfarfod â rhieni plant eraill ag anghenion ychwanegol ac i sgwrsio â Gwasanaethau fel ein un ni sy'n cynnig cefnogaeth.

Rydym hefyd yn trefnu **sesiynau chwarae** yn ystod gwyliau hanner tymor.

Cefnogaeth i **ofalwyr ifanc**, gallwn gynnig asesiad a chefnogaeth i blant a allai fod yn ymgymryd â thasgau ychwanegol oherwydd brawd neu chwaer ag anabledd.

**Gweithdai synhwyraidd a chefnogaeth.** Mae ymchwil yn dangos bod tua 90% o unigolion ag ASC yn cael rhai anawsterau prosesu synhwyraidd. Felly, mae'n bwysig cefnogi rhieni i gydnabod a deall anghenion synhwyraidd eu plentyn.

Gallwn gynnig cefnogaeth neu weithdai 1:1. Mae aelodau'r tîm wedi mynychu cwrs Hyfforddiant Ymarferwyr Anghenion Synhwyraidd Achrededig. Galluogodd y cwrs hwn i'r mynychwyr gael mynediad at raglen, sy'n caniatáu i weithwyr proffesiynol asesu anghenion unigolyn a chreu rhaglenni synhwyraidd wedi'u targedu ar gyfer yr unigolyn hwnnw.

**Cefnogaeth Deall a Rheoli Emosiynau**. Gallwn gynnig cymorth i deuluoedd plant ag Anableddau Dysgu a/neu anghenion ychwanegol. Nid yw rhai rhieni yn gallu mynychu gweithdai felly rydym yn cynnig cefnogaeth 1:1 naill ai ar-lein neu drwy ymweld â'r cartref. Yn y sesiynau hyn, rydym yn trafod pam fod rhai plant ag anabledd dysgu, neu anghenion ychwanegol, yn ei chael hi'n anodd rheoleiddio eu hemosiynau. Rydym yn trafod pwysigrwydd plant yn deall eu hemosiynau ac rydym yn rhoi cynnig ar wahanol strategaethau i rieni gefnogi eu plentyn i reoleiddio eu hemosiynau. Rydym hefyd yn trafod y pwysigrwydd i rieni ofalu am eu lles eu hunain.

Nod rhaglenni, fel y rhai a grybwyllwyd uchod, yw cefnogi a grymuso rhieni plant anabl yn eu rôl rhiantu i wella cyfathrebu ac ymddygiad eu plentyn, a rheoli ymddygiad yn briodol er mwyn atal ymddygiad heriol rhag mynd yn waeth oherwydd 'camgymhariad' rhiant-plentyn. Mae'r gweithdai a'r rhaglenni hefyd wedi bod yn llwyddiannus wrth ddod â rhieni at ei gilydd. Mae llawer o rieni yn teimlo'n ynysig ac efallai nad oes ganddynt yr un rhwydweithiau cefnogi â rhieni eraill. Gall dod i sesiwn neu gwrs fod yn frawychus iawn. Rydym yn cydweithio'n agos â rhieni i wneud yn siŵr eu bod yn teimlo'n gyfforddus gyda mynychu sesiynau. Mae rhieni wedi adrodd eu bod yn teimlo fod pobl yn gwrando arnynt a bod y cyngor a'r gefnogaeth maent yn eu derbyn gan rieni eraill mor bwysig. Ni fyddai hyn wedi bod ar gael iddynt pe na baent wedi mynychu'r grŵp/cwrs.

Rydym hefyd yn edrych ar raglenni eraill sy'n seiliedig ar dystiolaeth:

Mae prifysgol Caint wedi datblygu EPATS (*Early Positive Approaches to Support*). Mae hon yn rhaglen ar gyfer rhieni / gofalwyr gyda phlant o dan bump oed ag anabledd dysgu. Mae'r tîm ar hyn o bryd yn edrych ar sut y gallwn ddarparu'r gwasanaeth yng Ngwynedd.

**Gwasanaethau neu brosiectau a gomisiynwyd**

1. **Cefnogaeth rhiantu**
2. **Cefnogaeth i bobl ifanc.**

**Prosiect:** **Lot 2: Gwasanaeth Cefnogi Teuluoedd; Gwasanaethau Therapiwtig, Cwnsela a Chyfryngu**

Bydd y prosiect yn un o dri phrosiect arbenigol **Gwasanaethau Cefnogi Teuluoedd (GCT)** a bydd yn darparu cefnogaeth arbenigol i'r tri **Thîm Cefnogi Teuluoedd (TCT)** yng Ngwynedd;Arfon, Dwyfor a Meirionnydd.

Bydd y gwaith isod yn cael ei gyflawni:

- Cwnsela Therapiwtig i blant 10-19 oed yn seiliedig ar gymwysterau Therapiwtig a Chwnsela a gydnabyddir yn genedlaethol a ddarperir gan staff wedi'u hyfforddi yn briodol.
- Therapi Gwrthdaro Perthynas Rhwng-rhieni yn seiliedig ar gymwysterau Therapiwtig a Chwnsela a gydnabyddir yn genedlaethol a ddarperir gan staff wedi'u hyfforddi yn briodol.
- Ymyriadau wedi'u seilio ar dystiolaeth sy'n defnyddio arfer cydnabyddedig Cyfweld Ysgogiadol.
- Cyfryngu Rhiant-Plentyn (i gynnwys tadau absennol).
- Rhaglenni Cynhadledd Grŵp Teuluol wedi'u seilio ar dystiolaeth sy'n datrys problemau yn y teulu, sy'n amharu ar allu'r teulu i ddarparu amgylchedd cartref teuluol sefydlog a hapus.
- Cwnsela yn seiliedig ar dystiolaeth i blant a phobl ifanc sydd wedi profi Profedigaeth neu Golli oedolion pwysig a dylanwadau yn eu bywydau.
- Cwnsela sy'n canolbwyntio ar yr Unigolyn
- Rhaglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer tadau (sy'n bod yn dreisgar tuag at bartneriaid/teulu).

Gwneir hyn drwy waith un i un, gwaith grŵp, gwaith cyfryngu a chynhadledd grŵp. Er y dylai rhai ymyriadau fod yn berthnasol i theorïau yn seiliedig ar oedolion (y rhieni), dylai'r canlyniadau ganolbwyntio ar y plentyn, gan roi ystyriaeth lawn i liniaru **Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod (ACEs)** .

Bydd gan y darparwr brofiad o ddarparu gwasanaethau i blant, pobl ifanc a theuluoedd, gan gynnwys y rhai a effeithiwyd gan Gam-drin Domestig, sy'n dioddef o iechyd meddwl gwael ac mae ganddynt anabledd dysgu. I gwrdd ag anghenion defnyddwyr, gall y sesiynau fod mewn canolfan, yn y gymuned neu yn y cartref.

Fel rhan o'r prosiect ehangach, disgwylir y bydd y sefydliad(au) llwyddiannus yn gweithio'n agos gyda Gwasanaethau Plant Cyngor Gwynedd a'r timau Cefnogi Teuluoedd a'r Gwasanaethau Arbenigol eraill sy'n darparu cefnogaeth i Raglen Teuluoedd yn Gyntaf yng Ngwynedd.

Bydd cyfeiriadau penodol yn cael eu datblygu a phroses sgrinio i ddyrannu achosion a theuluoedd, gofynnir i'r ymgeisydd/ymgeiswyr llwyddiannus gyfrannu tuag at a chydymffurfio gyda phrosesau cyfeirio ac asesu cytunedig.

Sicrhau bod pobl Gwynedd yn ganolog ym mhopeth rydym yn ei wneud – 'Ffordd Gwynedd'.

Bydd gwasanaethau Lot 2 ar gael drwy gyfeirio drwy'r broses Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth a'r Tîm TAT (Tîm o Amgylch y Teulu Gwynedd).

**Prosiect: <u>Lot 5: Tîm Cefnogi Teulu i Ardal Arfon, Dwyfor a Meirionnydd - Gwynedd</u>**

**Darparwr:Plas Pawb**

Darperir manyleb gynhwysfawr o'r Tîm Cefnogi Teulu a bydd yn cwmpasu Gwynedd gyfan – (**Dwyfor, Meirionnydd ac Arfon)** a byddwn yn gweithio ar y cyd â Thîm Meirionnydd a thîm TAT i sicrhau llwybr a dilyniant cyfeirio a rheoli achosion clir ac effeithiol.

Nodir prif ddeilliannau lefel uchel ar gyfer y prosiectau yng **'Nghanllawiau Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf' (Ebrill 2017) Llywodraeth Cymru**

Mae'r Lot yma'n cynnwys darpariaeth:

**Rhiantu**

1. Ymyraethau a rhaglenni rhiantu wedi'u seilio ar dystiolaeth (ffurfiol, anffurfiol ac a arweinir gan gyfoedion) ar sail allgymorth i rieni / teuluoedd gyda phlant a phobl ifanc rhwng 5 a 25 oed. Felly bydd angen i'r ddarpariaeth gael ei chyflwyno yn hyblyg ar sail un i un ac mewn gosodiadau grŵp yn unol ag anghenion rhieni a theuluoedd.

2. Gwasanaeth cefnogi teuluoedd wedi ei seilio ar dystiolaeth i rieni, teuluoedd gyda phlant a phobl ifanc rhwng 5 a 25 oed. Unwaith eto, dylai'r ddarpariaeth gael ei chyflwyno yn hyblyg yn y cartref ac o ganolfannau allgymorth i deuluoedd yn unol ag anghenion rhieni/teuluoedd.

- Datblygu agweddau cadarnhaol, dyheadau a gwydnwch
- Gwella sgiliau rhiantu cadarnhaol
- Cynyddu hyder a sgiliau rhieni i ddarparu amgylchedd dysgu cadarnhaol yn y cartref a helpu eu plentyn gyda'r dysgu.

3. Gwasanaethau pwrpasol i hyrwyddo iechyd meddwl a llesiant emosiynol rhieni ac i hyrwyddo a chynnal perthnasau effeithiol gyda'r teulu.

- Gwella perthnasau rhiant-plentyn a rhiant-rhiant
- Cynyddu hyder rhieni yn eu rôl rhiantu
- Cryfhau dealltwriaeth rhieni am ddatblygiad plentyn
- Cefnogi rhieni i gael iechyd meddwl da
- Cefnogi rhieni i gael llesiant emosiynol cadarnhaol

**Pobl Ifanc**

4. Gwasanaethau pwrpasol i rieni/teuluoedd gyda phlant a phobl ifanc dan amgylchiadau arbennig e.e. plant/pobl ifanc sydd mewn perygl o beidio bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), pobl ifanc mewn perygl o droseddu, plant/pobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol mewn perygl o fynd yn

ddigartref.

- Grymuso pobl ifanc i weithredu a chymryd rhan weithredol mewn cymdeithas.
- Cynyddu hyder a gwydnwch
- Gwella llesiant cymdeithasol ac emosiynol
- Gwella cyfleoedd bywyd pobl ifanc

*Yn ychwanegol at y rhain, dylai gwasanaethau hefyd geisio cefnogi pobl ifanc yn y meysydd a ganlyn:*

- Adeiladu gallu pobl ifanc i ystyried risg, gwneud penderfyniadau rhesymegol a chymryd rheolaeth.
- Datblygu agweddau cadarnhaol, ymddygiad a dyheadau
- Datblygu gallu pobl ifanc i reoli perthnasau personol a chymdeithasol
- Atal anghenion rhag gwaethygu
- Diogelu pobl ifanc rhag niwed a achoswyd drwy fod yn agored i ACEs a phrofiadau tebyg eraill.
- Iechyd Meddwl a Lles - Mae'r model gwasanaeth yn cydnabod pwysigrwydd ymgorffori ymateb priodol yn yr amgylchedd teuluol i gefnogi adferiad y person ifanc o broblemau iechyd meddwl a lles a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs).

Sicrhau bod pobl Gwynedd yn ganolog ym mhopeth rydym yn ei wneud – 'Ffordd Gwynedd'.

Bydd gwasanaethau Lot 5 ar gael drwy gyfeirio drwy'r broses Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth a'r Tîm TAT (Tîm o Amgylch y Teulu Gwynedd).

**Prosiect – LOT 6 Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd ac Ynys Môn**

**Darparwr: Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd ac Ynys Môn**

- Darparu gwasanaeth ymyrraeth gynnar (fel rhan o'r Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf) i bobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n debygol o ddod â nhw i gysylltiad â'r Heddlu a'r system cyfiawnder troseddol. Bydd hyn yn cynnwys addysg gyffredinol wedi'i thargedu, rhaglenni ataliol a gwaith strwythuredig gyda phobl ifanc. Bydd hefyd yn hwyluso mynediad at ystod o ymyriadau i bobl ifanc sydd mewn perygl o gamddefnyddio sylweddau.

- Darparu gwasanaeth arbenigol i bobl ifanc a nodwyd fel rhai sydd ag ystod o'r problemau uchod drwy'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf **Timau Cefnogi Teuluoedd**.

- Bydd y gwasanaeth hwn yn darparu asesiad ac ymyrraeth gynhwysfawr i'r bobl ifanc hynny a nodwyd fel rhai ag anghenion lefel uchel yn cynnwys cyfeirio'r rhai mewn angen at y gwasanaeth a'r ymyriadau priodol.

- Darparu gwasanaeth uniongyrchol i blant a phobl ifanc mewn addysg anffurfiol a gosodiadau grwpiau cymunedol ar draws yr ardal yn darparu'r wybodaeth briodol ynglŷn â defnyddio/camddefnyddio sylweddau, lleihau risg, iechyd a llesiant cymdeithasol.

- Darparu gwasanaethau gwaith achos i blant a phobl ifanc a gyfeiriwyd gan **Dimau Cefnogi Teulu** yn defnyddio modelau damcaniaethol cydnabyddedig, cynllun gweithredu a systemau adolygu.

- Cefnogi grwpiau cymunedol a sefydliadau addysg anffurfiol i ddatblygu, cynllunio ac adolygu rhaglenni ataliol ar addysg gyffuriau ac alcohol i'w cyflwyno i blant a phobl ifanc mewn sefydliadau addysgol.

- Cefnogi gweithwyr ieuenctid/arweinwyr grwpiau cymunedol i gyflwyno rhaglenni ataliol addysg briodol i blant a phobl ifanc yn eu lleoliadau.

- Sgrinio addasrwydd cyfeiriadau
- Asesu cyfeiriad, plentyn a theulu gan ddefnyddio Teclyn asesu priodol a chymesur (Asset+, Asesiad Biwro, Atal/Cychwyn)
- Ymyrraeth sy'n canolbwyntio ar y plentyn sy'n ystyried Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a Thrawma
- Sgrinio Arbenigol (Camddefnyddio Sylweddau, Iechyd Meddwl, Hyfforddiant Addysg a Chyflogaeth)
- Cyfle i gyfeirio at Banel Iechyd GCI am gyngor, asesu ac ymyrraeth arbenigol.
- Asesiad risg sy'n ymwneud â Throseddu a Diogelu'r Cyhoedd.
- Cyfiawnder Adferol helaeth a gwaith gyda Dioddefwyr (Iawndal, Cyfryngu)
- Cyfeiriad posibl at Weithiwr Rhiantu i rieni a gofalwyr.

Ymyriadau -

- Ymyrraeth trais i blentyn ar rieni
- Gweithgareddau i hyrwyddo iechyd a lles.
- Deall Troseddu a'r system Gyfiawnder
- Cyfrifoldebau a Hawliau Plant
- Rhaglenni gwaith Dewisiadau a Chanlyniadau.
- Prosiectau gweithgareddau gwneud iawn
- Rhaglenni effaith ar ddioddefwyr
- Ymyriadau Gwydnwch
- Dysgu Byw'n Iach (rhoi'r gorau i ysmygu, diet iach, patrymau cysgu da ac ati)
- Rheoli Dicter a Rheoleiddio Emosiynol

Sicrhau bod pobl Gwynedd yn ganolog ym mhopeth rydym yn ei wneud – 'Ffordd Gwynedd'.

Bydd gwasanaethau Lot 6 ar gael drwy gyfeirio drwy'r broses Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth a'r Tîm TAT (Tîm o Amgylch y Teulu Gwynedd).

## Adran C - Heriau a Risgiau

Amlinellwch unrhyw feysydd o her neu risgiau posibl i weithredu'r Rhaglen yn eich ardal Awdurdod Lleol a sut rydych chi'n bwriadu eu goresgyn.

Yr un yw'r brif risg ar gyfer 2025/2026 â'r blynyddoedd a fu - yr ansicrwydd am ddyfodol y rhaglen a'r cyllid grant ac felly mae risg uchel y bydd staff yn symud i swyddi eraill gan leihau'r gwasanaeth sydd ar gael i deuluoedd yng Ngwynedd, ond gobeithio y bydd cadarnhad cynnar o'r cyllid a dderbynnir yn helpu i leihau unrhyw broblemau staffio oherwydd contractau tymor byr.

| |
|---|
| Bydd y prosiect a gomisiynwyd yn parhau mewn contract tan 31 Mawrth 2026. |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Panel Craffu Gofal |
| **DYDDIAD** | 29 Ionawr 2026 |
| **TEITL** | Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid |
| **Y RHESYMAU DROS GRAFFU:** | Sicrhau bod y gwasanaeth yn effeithlon. |
| **AWDUR** | Stephen Wood, Rheolwr Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd ac Ynys Môn |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd Menna Trenholme |

**1. Pam bod angen ei graffu?**

1.1 Mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (YJS) yn cael ei gynnal gan Gyngor Gwynedd ac mae'n gweithredu ar draws Gwynedd ac Ynys Môn. Mae'n dîm aml-asiantaeth sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu neu sydd wedi troseddu.

1.2 Mae angen sicrhau ei fod yn gweithredu'n effeithlon a bod gan y gwasanaeth adnoddau priodol.

**2. Beth sydd angen ei graffu?**

1. Adolygu nifer y plant sy'n cael eu cefnogi
2. Y gefnogaeth a roddwyd i gadw pobl ifanc allan o'r carchar
3. Y gwahanol brosiectau a ddarperir gan y gwasanaeth, yr heriau a wynebwyd, a'r llwyddiannau

**3. Crynodeb a Materion Allweddol**

**3.1 Cyffredinol**

3.2 Mae Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (YJS) Gwynedd a Môn yn wasanaeth amlasiantaethol, a gynhelir gan Gyngor Gwynedd ac wedi'i leoli mewn swyddfeydd rhent preifat yn y Felinheli. Mae swyddogaethau statudol y gwasanaeth wedi'u seilio yn y ***Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998*** (Ddeddf T & A) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth atal troseddu ac aildroseddu gan blant. Sefydlodd Ddeddf Trosedd ac Anrhefn wasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid (YJS) fel partneriaeth oedd yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol, Yr Heddlu, Y Gwasanaeth Prawf ac Iechyd i weithio gyda'i gilydd i ddarparu cyllid, adnoddau a llywodraethiant er mwyn sicrhau system cyfiawnder ieuenctid effeithiol ar gyfer yr ardal a ddewiswyd, yn ein hachos ni dyma ardal dwy sir Gwynedd ac Ynys Môn.

3.3 Fel awdurdod lletya ar gyfer y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, mae Cyngor Gwynedd yn darparu: rheolaeth llinell ar gyfer rheolwr y gwasanaeth, rheolaeth

ariannol, fframwaith hyfforddi a datblygu (ar gael i staff wedi'u secondio hefyd), cefnogaeth TG ac Iechyd a Diogelwch ar gyfer y swyddfeydd a'r adeiladau. Mae'r gwasanaeth yn cynnal ei fusnes ac yn rheoli ei staff yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Cyngor Gwynedd.

3.4 Mae'r gwasanaeth yn derbyn Goruchwyliaeth Strategol a Llywodraethu gan Fwrdd Rheoli Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd ac Ynys Môn, mae'r bwrdd yn cynnwys Penaethiaid Gwasanaeth, Uwch Reolwyr ac Arweinwyr o'r bartneriaeth leol; Iechyd, yr Awdurdod Lleol (Addysg a Gwasanaethau Plant), y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, Heddlu Gogledd Cymru, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, Mainc yr Ynadon, Gwasanaeth Llys a Thribiwnlys Ei Fawrhydi a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (Y Bwrdd). Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd Rheoli yn cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Corfforaethol Gwynedd ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol, ac mae'r cyfrifoldebau cadeirio yn cylchdroi rhwng y ddau awdurdod lleol. Mae'r Bwrdd Rheoli yn cyfarfod bob chwarter a bydd ganddo; cyllid, perfformiad, diogelu a monitro rhaglenni gwella, fel eitemau sefydlog.

## 3.5 Cynllunio Strategol

3.6 Un o brif gyfrifoldebau statudol y bwrdd rheoli a'r rheolwr gwasanaeth yw cynhyrchu'r Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid Blynyddol (**atodiad a**). Mae'r Cynllun yn gwerthuso perfformiad y gwasanaeth dros y 12 mis blaenorol ac yn mesur ei gynnydd ar y Cynllun blaenorol ac unrhyw gynlluniau gwella/gwaith sydd wedi'u cychwyn. Mae'n monitro ymrwymiad ac ymgysylltiad y partneriaid statudol, sy'n cynnwys cyllid ac adnoddau. Cyflwynwyd ein cynllun 2025-26 i'r Bwrdd / y Weinyddiaeth Gyfiawnder ym mis Mehefin 2025, cawsom lofnod ym mis Medi 2025, ar ben hynny mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid wedi gofyn am ganiatâd gan ein Bwrdd Rheoli i ddefnyddio ein Cynllun fel enghraifft o arfer da yn y sector.

3.7 Mae busnes strategol a gweithredol y gwasanaeth yn cynnwys cyfrifoldebau datganoledig a rhai nad ydynt wedi'u datganoli, mae ein gwaith gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol yn derbyn goruchwyliaeth, arweiniad ac yn adrodd i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (MOJ) a'r Swyddfa Gartref (HO). Mae llawer o'r gwaith hwn yn cael ei gydlynu drwy Fwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr, sy'n gorff braich hir y Sector Cyhoeddus o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Rôl y Bwrdd yw:

*3.8 "Goruchwylio'r system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr, gyda rôl graidd i atal plant rhag troseddu trwy gynghori'r llywodraeth, monitro perfformiad y system, hyrwyddo arferion gorau, comisiynu ymchwil, a sicrhau lleoliadau diogel ar gyfer ieuenctid yn y ddalfa, i gyd o dan ddull "Plentyn yn Gyntaf" sy'n trin plant fel plant ac yn blaenoriaethu eu cryfderau a'u hadsefydlu."*

3.9 Mae'r holl faterion llys ieuenctid yn cael eu clywed yn y Llys Ieuenctid a Llys y Goron Caernarfon, gyda'r baich teithio ychwanegol ar deuluoedd i sicrhau presenoldeb yn llys Caernarfon; mae hyn yn gryn broblem i deuluoedd sy'n byw yn rhai o'n cymunedau mwy anghysbell lle mae'r ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus yn gyfyngedig. Mae gennym drefniadau ar y ddwy ochr gyda'n cydweithwyr yng Ngwasanaethau Conwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint ar gyfer gwaith llysoedd ieuenctid yn Llys Ieuenctid Llandudno neu Lys y Goron yr Wyddgrug petai'n rhaid i'n plant fynd yno. Pan fo angen a phan fo risg achos, bydd y gwasanaeth yn

- Ddigwyddiad 1 diwrnod gydag ymgysylltiad gan bartneriaid cyfiawnder troseddol a gwasanaethau plant
- Plant a phobl ifanc i gymryd rhan (profiad bywyd a chyfranogi)
- Rhannu a Myfyrio ar ein gwaith gyda Cham-fanteisio, Trais ac Anghymesuredd (CEC)
- Gwahodd siaradwyr arbenigol; Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth, Ymchwil ac Arloesi
- Seremoni wobrwyo i ddathlu llwyddiant gyda phlant, staff a phartneriaid

## 2. Y Cyd-destun Lleol

2.1 Mae Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd a Môn yn cael ei gomisiynu ar y cyd gan Gyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd. Cyngor Gwynedd yw’r awdurdod lletya; mae 22 o staff yn cael eu cyflogi gan Gyngor Gwynedd, ynghyd ag wyth aelod staff ar secondiad neu'n gweithio ar brosiectau o fewn y gwasanaeth, sydd gyfystyr â 27.5 aelod staff llawn amser. Fel awdurdod lletya ar gyfer y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, mae Cyngor Gwynedd yn darparu: rheolaeth llinell ar gyfer rheolwr y gwasanaeth, rheolaeth ariannol, fframwaith hyfforddi a datblygu (ar gael i staff wedi’u secondio hefyd), cefnogaeth TG ac Iechyd a Diogelwch ar gyfer y swyddfeydd a’r adeiladau. Mae’r gwasanaeth yn cynnal ei fusnes ac yn rheoli ei staff yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Cyngor Gwynedd. Gweler y strwythur staffio yn **atodiad 1.**

2.2 Yn ogystal â chefnogaeth cyfiawnder ieuenctid, mae'r gwasanaeth yn lletya Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Pobl Ifanc y ddwy sir ar y cyd (Be 'di'r Sgôr) ynghyd â Thîm Atal Ymddygiad Rhywiol Niweidiol Gwynedd (Tîm Emrallt).***Be 'di'r Sgôr***) a Thîm Atal Ymddygiad Rhywiol Niweidiol Gwynedd (***Tîm Emrallt***),

2.3 Mae ardal y ddwy sir sy'n cael ei gwasanaethu yn cynnwys poblogaeth o 17,000 rhwng 10 a 17 oed (cynnydd o 1000 ers 2016). Oherwydd natur wledig ac anghysbell ein daearyddiaeth a’n cymunedau, mae gennym nifer fawr o ysgolion cynradd ac uwchradd.

Tabl 1

| Sir | Cynradd | Uwchradd | Arbennig | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 40 | 5 | 1 | **46** |
| Gwynedd | 82 | 14 | 2 | **98** |
| **Cyfanswm** | **122** | **19** | **3** | **144** |

***Mae ardal ddaearyddol gyfunol Gwynedd ac Ynys Môn yn 51% o ranbarth Gogledd Cymru ac er y byddai'r lledaeniad poblogaeth, yn bennaf, yn cael ei ddisgrifio fel un gwledig ei natur, mae gan y ddwy sir drefi porthladd a marchnad unigryw â phoblogaeth gymharol uchel; Caergybi, Amlwch a Llangefni ar Ynys Môn a Chaernarfon, Bangor, Porthmadog a Dolgellau yng Ngwynedd.***

2.4 Mae gan ran fwyaf o arfordir yr Ynys statws *Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol* (AHNE), ac mae bron i ddwy ran o dair o Wynedd wedi'i gwarchod gan statws Parc Cenedlaethol, mae hyn yn cyfyngu'n fawr ar ddatblygu isadeiledd. Mae un ffordd ddeuol dosbarth 'A', sef yr A55, sy'n mynd drwy ogledd Gwynedd ac ar hyd Ynys Môn. Mae un prif lwybr rheilffordd yn dilyn yr un llwybr â'r A55. Lleolir Swyddfa'r Gwasanaeth ym mhentref y Felinheli, tua 6 milltir o Fangor a Chaernarfon ac mae'n defnyddio cyfleusterau'r sector cyhoeddus a'r sector preifat i gyfarfod â phlant a phobl ifanc, yn ogystal ag ymweliadau cartref. Gwasanaeth peripatetig yw hwn yn bennaf ac mae gan y math hwn o ddarpariaeth oblygiadau amser a chostau sylweddol i staff ac arianwyr y bartneriaeth.

2.5 Mae pob mater llys ieuenctid yn cael ei glywed yn Llys Ieuenctid a Llys y Goron Caernarfon, gyda'r baich ychwanegol ar deuluoedd i sicrhau presenoldeb yn llys Caernarfon; mae hyn yn broblem benodol i deuluoedd sy'n byw yn rhai o'n cymunedau mwyaf anghysbell lle mae'r ddarpariaeth cludiant cyhoeddus yn gyfyngedig.

2.6 Mae holl faterion dalfa'r heddlu yn cael eu prosesu yn Nalfa Caernarfon, sydd eto'n faich ychwanegol ar deuluoedd i fynychu. Mae gennym drefniadau ar y ddwy ochr gyda'n cydweithwyr GCI yng Nghonwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint ar gyfer gwaith llysoedd ieuenctid yn Llys Ieuenctid Llandudno neu Lys y Goron yr Wyddgrug petai'n rhaid i'n plant fynd yno. Pan fo angen a phan mae risg achos, bydd y gwasanaeth yn gweithredu ar ddarpariaeth wrth law Llys Remand Ddydd Sadwrn, yn cefnogi ein cyd-weithwyr yn Sir y Fflint ble mae'r Llys Remand (Yr Wyddgrug) yn cymryd lle.

2.7 Er dibenion Penderfyniadau y Tu Allan i'r Llys a chyfarfodydd panel Gorchymyn Cyfeirio, mae staff y gwasanaeth yn defnyddio gorsafoedd cymunedol Heddlu Gogledd Cymru ar gyfer cyfarfodydd Presenoldeb Gwirfoddol a chyfiawnder adferol, ac mae trefniadau gwych yn eu lle â gweithredwyr cymunedol (sector preifat a chyhoeddus) ar gyfer defnyddio/llogi lleoliadau lleol.

2.8 Mae'r gwasanaeth yn cynnwys Dyletswyddau Oedolyn Priodol 9am - 5pm dydd Llun i ddydd Gwener, mae'r ddau dîm sirol sydd ar ddyletswydd y tu allan i oriau yn darparu'r gwasanaeth hwn gyda'r nos, ar benwythnosau, a Gwyliau'r Banc. Fe wnaeth holl staff GCI a Thu Allan i Oriau

dderbyn hyfforddiant blynyddol y Rhwydwaith Oedolion Priodol Cenedlaethol (NAAN) ym mis Mawrth 2025, ac rydym wedi cofrestru fel deiliaid cyfrif 'Aur' gyda NAAN, sy'n darparu mynediad i'r holl adnoddau a deunydd hyfforddi sydd ar gael.

2.9 Mae'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg fesul y boblogaeth yng Nghymru yng Ngwynedd ac Ynys Môn; Gwynedd 75.5% ac Ynys Môn 63.3%. Felly, mae angen i weithlu'r GCI adlewyrchu hyn, ar hyn o bryd mae 29 o'r 32 aelod staff yn siarad Cymraeg (ar draws y tri gwasanaeth), mae 29 (91%) yn siaradwyr iaith gyntaf, mae dau yn ddysgwyr (lefel canolradd), ac mae gan un sgiliau sylfaenol Iaith Gymraeg. Mae'r holl ymyraethau, cyfathrebu a'r gefnogaeth yn cael eu cyflwyno yn iaith angen y teulu neu'r plentyn.

2.10 Mae gan y gwasanaeth drefniadau ffurfiol a chynrychiolaeth gyson gyda phaneli lleol sef **Troseddau Cyfundrefnol Difrifol** a **Cham-fanteisio ar Blant**, sy'n cyfrannu at Asesiad Risg, Casglu Gwybodaeth a Mapio Ymarfer.

2.11 Mae ardal Gogledd Cymru, a Gwynedd ac Ynys Môn yn enwedig, yn ardal boblogaidd iawn i ddarparwyr unedau gofal preswyl preifat. Mae wyth prif uned yn ein hardal sy'n cynnig lleoliadau tymor byr a chanolig i Blant mewn Gofal ar draws Cymru a Lloegr. Mae'r gwasanaeth yn derbyn oddeutu 12-15 'Cais am Ofalu" y flwyddyn gan awdurdodau lleol sy'n lleoli plant a phobl ifanc yn ein hardal sydd angen asesiad neu oruchwyliaeth cyfiawnder ieuenctid; mae hyn yn rhoi galw uchel iawn ar Dîm Troseddu Ieuenctid (TTI) o faint canolig. Fodd bynnag, mae hyn yn nifer is na'r blynyddoedd blaenorol ac yn dilyn gwaith sylweddol â'n hunedau preswyl a datblygu ***Protocol Cydweithio***, mae'n gadarnhaol nodi bod gwelliant yn y gefnogaeth ar gyfer y plant hyn a bod nifer yr achosion Tu Allan i'r Sir a reolir ar unrhyw adeg o fewn ein llwyth achosion statudol wedi gostwng yn y 2-3 mlynedd diwethaf.

## 3. Adnoddau a Gwasanaethau

3.1 Er gwaethaf y 'wasgfa' barhaus ar wariant yn y sector cyhoeddus, mae'r gwasanaeth yn elwa o ymrwymiad ariannol rhagorol gan ein partneriaid statudol lleol, sydd wedi parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu, datblygu ac arloesi gwasanaethau. Yn 2025-26, maent wedi gwneud cynnydd cychwynnol o 10% mewn cyfraniad arian parod. Dylid nodi bod y ddau awdurdod lleol yn parhau i ysgwyddo'r baich a roddir ar gostau gwasanaethau (cynnydd mewn costau byw ac Yswiriant Gwladol).

**Tabl 2 (Arian Parod)**

| Ffynhonnell | 2024-25 (£) | 2025-26 (£) | % cyfraniad |
|---|---|---|---|
| Cyngor Gwynedd | 187,530.65 | 210,570.00 | 48.08% |
| CSYM | 142,890.00 | 156,180.00 | 35.66% |
| Heddlu Gogledd Cymru | 27,897.00 | 28,900.00 | 6.60% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| BIPBC (Iechyd) | 34,000.00 | 37,320.00 | 8.52% |
| Y Gwasanaeth Prawf | 5,000.00 | 5,000.00 | 1.14% |
| **Is-gyfanswm** | 397,317.65 | 437,970.00 | **100.00%** |

**Cynnydd o 10.2%**

**Tabl 3 (Secondiad)**

| **Ffynhonnell** | **2024-25** | **2025-26 (Amcangyfrif)** | **% Cyfraniad** |
|---|---|---|---|
| Cyngor Gwynedd | 54,630.73 | 60,470.00 | 27% |
| CSYM | 54,789.07 | 55,540.00 | 24.7% |
| Heddlu Gogledd Cymru | 61,693.55 | 61,693.55* | 27.5% |
| BIPBC (Iechyd) | 27,500.00 | 27,500.00* | 12.2% |
| Y Gwasanaeth Prawf | 19,365.18 | 19,365.18* | 8.6% |
| **Is-gyfanswm** | 217,978.53 | 224,568.68* | **100%** |

*I'w gadarnhau

**Tabl 4 (Grantiau)**

| Ffynhonnell | 2024-25 | 2025-26 |
|---|---|---|
| PPE (Gwy ac YM) | 252,926.47 | 256,120.00 |
| Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd (OPCC) Gogledd Cymru | 16,793.28 | 16,790.00 |
| Grant CI | 277,943.00 | 282,000.00 |
| FF (Gwynedd) | 18,000.00 | 18,000.00 |
| **Is-gyfanswm** | 565,662.75 | 572,910.00 |

**Tabl 5 (Cyfansymiau)**

| Ffynhonnell | 2025-26 £ |
|---|---|
| Cyfraniad Partner Statudol (Arian Parod) | 437,970.00 |
| Secondiad (anariannol) | 224,568.68 |
| Grantiau (46%) | 572,910.00 |
| **Cyfanswm** | **1,235,448.68** **(+4.6%)** |

3.2 Mae'r gwasanaeth yn gweithredu 3 car pŵl (2 x gar 1 x fan bob pwrpas), mae ceir yn cael eu defnyddio gan staff ar gyfer ymweliadau cymunedol ac mae'r fan yn cael ei defnyddio ar gyfer prosiectau cymunedol gan gynnwys gwaith Di-dâl a gwaith Gwneud Iawn. Mae'r defnydd o geir pŵl yn helpu i leihau costau teithio gwasanaeth ar gyfer gwasanaeth peripatetig sy'n gweithredu mewn cymuned wledig fawr. Mae gennym hefyd ddetholiad mawr o Offer a Chelfi ar gyfer prosiectau di-dâl a phrosiectau gwneud iawn; casglu sbwriel, garddio, a chynnal a chadw cyffredinol.

3.3 Mae'r gwasanaeth yn parhau i adeiladu ar ein pecynnau a'n rhaglenni Ymyrraeth helaeth, y nifer sy'n ymuno ag Ymyraethau Gwytnwch (er eu bod yn dal mewn treialon ymchwil) sydd eisoes yn cael defnydd da;

- ***Dewisiadau Cadarnhaol***
- ***Time Out for Teenagers (Rhiantu)***
- ***Teen Talk***
- ***Clued-Up***
- ***Star***
- ***Materion Teuluol***
- ***Escape (Rhiantu)***
- ***Stori Olivia***

Yn ogystal, mae'r gwasanaeth yn cynnal llyfrgell gynyddol o adnoddau ar-lein a yrrir ac a adeiladir drwy ein hymglymiad â'r Fforwm Ymyraethau GCI Rhanbarthol, sy'n cynnwys ymwybyddiaeth o drais a throseddau cyllell.

3.4 Mae'r gwasanaeth yn darparu cymorth teithio i blant a theuluoedd a allai fel arall gael trafferth mynychu cyfarfodydd swyddfa, Llys, neu gyfarfodydd yr heddlu. Daw'r gefnogaeth ar ffurf talebau teithio ar gyfer gwasanaethau bws lleol.

3.5 Yn 2025-26, bydd y gwasanaeth yn elwa o gyfraniad hael iawn (£16,200) gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru i brynu defnydd 12 mis o ***Virtual Decisions****.* Mae Virtual Decisions yn rhaglen realiti rhithwir sy'n cael ei chyflwyno gan ddefnyddio clustffonau fideo ac sy'n caniatáu i blant a staff archwilio gwahanol senarios cymunedol (gall y rhain fod yn droseddu neu'n seiliedig ar aros yn ddiogel) lle mae plant yn gallu rhyngweithio a gwneud penderfyniadau i newid naratif a chanlyniadau. Cefnogir y rhaglen gan Becynnau Dysgu Estynedig sy'n hwyluso'r rhyngweithio rhwng staff a phlentyn, gan hyrwyddo gwneud penderfyniadau gwell ac amlinellu canlyniadau gweithredoedd.
Mae'r gwasanaeth wedi prynu 5 clustffonau gyda'r rhaglenni canlynol;

- *Knife Crime*
- *Identity*
- *Influence*

3.6 Mewn partneriaeth ag academydd lleol, mae'r gwasanaeth wedi datblygu dull ac ymyrraeth newydd ac arloesol i fynd i'r afael â Cham-drin Plant ar Rieni a elwir yn y gwasanaeth yn *'Cam Ymlaen'*. Mae hwn yn ymyrraeth gydweithredol, sy'n caniatáu i weithwyr ar sail aml-asiantaeth gael sgwrs gyda theulu, ac i ddod i gytundeb ar y cyd ar y meysydd presennol i'w datblygu i fynd i'r afael â'r math hwn o gam-drin mewn modd 'teulu cyfan', tosturiol a diogel. Prif egwyddorion pecyn cymorth Cam Ymlaen yw ei fod yn cynnig cynllun ymyrraeth i'r teulu i fynd i'r afael â'r math hwn o gamdriniaeth, tra'n adeiladu ar gryfderau, hyrwyddo grymuso cadarnhaol a rhoi llais i rieni/gofalwyr fel arbenigwyr o'u profiadau eu hunain.

## 4. Plentyn yn Gyntaf a Llais y Plentyn

4.1 Mae'r gwasanaeth yn llwyr gefnogi a hyrwyddo'r egwyddor *'Plentyn yn Gyntaf'* yng Nghymru, ein dull yw;

- *Blaenoriaethu buddiannau'r plant ac adnabod eu hanghenion penodol, eu galluoedd, hawliau a photensial.*
- *Hyrwyddo cryfderau a galluoedd unigol y plant er mwyn iddynt ddatblygu eu hunaniaeth, drwy waith sy'n adeiladol ac yn edrych i'r dyfodol, sy'n seiliedig ar berthnasau cefnogol sy'n arfogi plant i gyflawni eu potensial a chyfrannu'n gadarnhaol i gymdeithas.*
- *Annog cyfranogiad gweithredol, ymgysylltiad, a chynhwysiant cymdeithasol ehangach plant. Mae'r holl waith yn cynnwys cydweithredu ystyrlon gyda phlant a'u teuluoedd.*
- *Hyrwyddo plentyndod sy'n rhydd o'r system gyfiawnder, drwy wneud gwaith ataliol rhagweithiol, gwaith gwyro a chyn lleied o ymyrraeth â phosib. Mae'r holl waith yn ceisio lleihau'r stigma troseddol a ddaw o gael cyswllt â'r system.*

4.2 Mae staff GCI wedi'u hyfforddi mewn Ymarfer sy'n seiliedig ar Drawma ac ymwybyddiaeth ACE. Mae prosesau rheoli yn eu lle i sicrhau bod Asesu, Cynllunio ac Ymyraethau wedi'u seilio ar gryfderau ac yn canolbwyntio ar ymataliad, a bod rheolwyr wedi sicrhau ansawdd cofnodion ac adroddiadau Goruchwyliaeth ar gyfer tystiolaeth sy'n rhoi'r plentyn yn ganolog ac yn seiliedig ar drawma. Yn 2024-25, cwblhaodd staff y gwasanaeth hyfforddiant TrACE o Iechyd Cyhoeddus Cymru a chwblhaodd 1 aelod o staff y diploma Ysgolion sy'n Wybodus am Trawma ac mae un arall hefyd wedi dechrau'r cwrs.

4.3 Mae'r gwasanaeth yn comisiynu ***Viewpoint*** i weinyddu arolygon cynnydd ac adborth plant a theuluoedd, cyflwynwyd sawl adroddiad adborth plant i'r Grŵp Rheoli Gweithredol. Yn 2024-25, gellir gweld canlyniadau ein hadolygiad blaenorol a'n diweddariadau i'r broses yn Adroddiad Rhagfyr 24 (**Atodiad 3**)

4.4 Mae'r gwasanaeth yn parhau i gasglu llais y plentyn a'r rhiant / gofalwr fel rhan o'r asesiadau AssetPus a PaDAT. Mae'r broses Sicrhau Ansawdd newydd yn cynnwys craffu ar sut mae llais y plentyn yn cael ei ddal a'i gyflwyno a sut mae'r plentyn yn cyfrannu at y camau cynllunio ac ymyrraeth.

4.5 Fel rhan o'n Hymchwil Ymyrraeth Gwytnwch, mae 60 o holiaduron wedi'u cwblhau gyda phlant a rhieni/gofalwyr. Bydd canlyniadau'r dadansoddiad yn cael eu rhannu gyda'r staff a'r Bwrdd Rheoli ar ôl cwblhau'r astudiaeth. Mae'r holiaduron yn archwilio ansawdd yr ymyrraeth newydd a grëwyd a hefyd gwell dealltwriaeth y plant o wydnwch a delio ag adfyd.

## 5. <u>Perfformiad a Blaenoriaethau</u>

## 5.1 Derbyniadau Tro Cyntaf (FTE)

*(Mae'r Data isod yn dod o YDS 122 Cenedlaethol (Ebrill 24-Mawrth 25), adroddiadau lleol a phrosesau archwilio.)*

**Tabl 6**


| TTI/Ardal | Nifer | Cyfradd/100,000 |
|---|---|---|
| Gwynedd Môn | 41 | 241 |
| Conwy a Dinbych | 46 | 238 |
| Sir y Fflint | 23 | 153 |
| Wrecsam | 9 | 67 |
| NWPCC | 124 | 192 |
| Cymru | 420 | 142 |
| Cymru a Lloegr | 8,713 | 148 |

**Sylwadau rheolwyr:** Rydym yn parhau i gofnodi niferoedd anghymesur uchel o Dderbyniadau Tro Cyntaf (FTE) yn 2024-25, mae'n gadarnhaol nodi ein bod wedi gweld gostyngiad cyson yn y 2 chwarter diwethaf ond nad yw'n ddigon sylweddol i effeithio ar newid o'i gymharu â pherfformiad Gogledd Cymru a Chymru. Am y 18 mis diwethaf, mae GCI Gogledd Cymru wedi gweithio mewn partneriaeth â NWP a'r Ganolfan Arloesi Cyfiawnder i ddatblygu Polisi Rhanbarthol - Penderfyniadau y Tu Allan i'r Llys, aeth y polisi yn fyw ar 1 Mai 2025, mae'n rhy gynnar i fesur effaith yn effeithiol.
Byddwn yn parhau â'n gwaith gyda BCI Cymru, Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid eraill yn y rhanbarth a Heddlu Gogledd Cymru i fonitro'r isod:


- Gweithredu'r Polisi Rhanbarthol - Penderfyniadau y Tu Allan i'r Llys (Mai 2025)
- Prosesau gwneud penderfyniadau'r heddlu a GCI ar gyfer Penderfyniadau y Tu Allan i'r Llys
- Mwy o ddefnydd o ganlyniad 22
- Adolygu'r rôl a'r Cylch Gorchwyl ar gyfer *Panel Gwneud Penderfyniadau'r gwasanaeth*

## 5.2 Aildroseddu

## Deuaidd





| | Jul 20 - Jun 21 | Jul 21 - Jun 22 | Jul 22 - Jun 23 |
|---|---|---|---|
| Binary Rate | 26.7% | 29.4% | 29.0% |
| Cohort Size | 86 | 51 | 69 |





| | Jul 20 - Jun 21 | Jul 21 - Jun 22 | Jul 22 - Jun 23 |
|---|---|---|---|
| Gwynedd and Ynys Mon | 26.7% | 29.4% | 29.0% |
| Wales | 33.6% | 35.4% | 35.4% |
| North Wales PCC Area | 36.3% | 38.3% | 36.1% |
| England & Wales | 31.1% | 32.7% | 32.1% |

## Amlder




| | Jul 20 - Jun 21 | Jul 21 - Jun 22 | Jul 22 - Jun 23 |
|---|---|---|---|
| Gwynedd and Ynys Mon | 0.66 | 1.12 | 0.97 |
| Wales | 1.06 | 1.44 | 1.56 |
| North Wales PCC Area | 1.18 | 1.60 | 1.56 |
| England & Wales | 1.13 | 1.38 | 1.38 |





| | Jul 20 - Jun 21 | Jul 21 - Jun 22 | Jul 22 - Jun 23 |
|---|---|---|---|
| Binary Rate | 26.7% | 29.4% | 29.0% |
| Cohort Size | 86 | 51 | 69 |

**Sylwadau'r Rheolwyr**: Cyflwynodd y tabl adroddiad ar y garfan o 2022 a gafodd ei holrhain am 24 mis. Yn 2024, fe wnaethom gofnodi ein cyfraddau aildroseddu isaf ar gyfer y garfan hon, gostyngiad o 29% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (29.6%) ac maent yn parhau i fod yn is na chymariaethau lleol a chenedlaethol. Yn bwysicach fyth, mae nifer yr unigolion yn y garfan wedi cynyddu o 51 i 69, cynnydd o 35%, unwaith eto mae angen i ni ystyried bod y garfan hon o gyfnod yr effeithiwyd arno gan Covid pan oedd nifer y llwyth achosion yn is na'r cyfartaledd, gellir gweld y cynnydd fel newid naturiol.

- O'r **69** yn y garfan, fe wnaeth **20** aildroseddu ar gyfradd ddeuaidd o **29%**
- **Cyflawnwyd 67** o droseddau yn ôl amlder carfan o **0.97**
- **Cyflawnodd 20** o ail-droseddwyr **67**o droseddau ail-droseddwyr ar amlder o **3.35**.

Mae ein cyfradd aildroseddu yn parhau i fod yn dda ar gyfer y garfan hon - mae yna ychydig o bryder ynghylch amlder y troseddau gan ail-droseddwyr ac er nad yw hyn y tu allan i baramedrau arferol, mae'n dangos y gallai fod nifer fach o blant yn cyflawni nifer fawr o droseddau.
Ar ôl derbyn YDS 123 bydd y gwasanaeth yn cwblhau dadansoddiad strwythuredig o'r plant sy'n cyfrannu'n anghymesur at y ffigyrau hyn. Yn ogystal, mae'r gwasanaeth eisoes wedi ymrwymo i ddadansoddi ein cyfraddau aildroseddu Penderfyniadau y Tu Allan i'r Llys Anffurfiol a Charfan Ataliol; bydd y BCI, Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol a'r BRhS yn gweld hyn ym mis Medi 2025.

## 5.3 Defnydd o'r Ddalfa




| | Jan 21 - Dec 21 | Apr 21 - Mar 22 | Jul 21 - Jun 22 | Oct 21 - Sep 22 | Jan 22 - Dec 22 | Apr 22 - Mar 23 | Jul 22 - Jun 23 | Oct 22 - Sep 23 | Jan 23 - Dec 23 | Apr 23 - Mar 24 | Jul 23 - Jun 24 | Oct 23 - Sep 24 | Jan 24 - Dec 24 | Apr 24 - Mar 25 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwynedd and Ynys Mon | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| Wales | 0.07 | 0.06 | 0.06 | 0.07 | 0.08 | 0.10 | 0.08 | 0.09 | 0.10 | 0.09 | 0.11 | 0.10 | 0.08 | 0.07 |
| North Wales PCC Area | 0.06 | 0.05 | 0.05 | 0.08 | 0.08 | 0.14 | 0.12 | 0.09 | 0.09 | 0.06 | 0.05 | 0.05 | 0.06 | 0.03 |
| England & Wales | 0.12 | 0.11 | 0.11 | 0.11 | 0.11 | 0.11 | 0.11 | 0.11 | 0.11 | 0.11 | 0.10 | 0.10 | 0.10 | 0.10 |

**Sylwadau rheolwyr**:
Mae'r gwasanaeth yn parhau i berfformio'n dda yn erbyn dangosydd y ddalfa, mae'r tabl uchod o YDS 122 yn adrodd 0 cyfnod remand yn ystod y cyfnod. Nid oes unrhyw blant wedi'u dedfrydu i'r ddalfa ers mis Gorffennaf 2023.
Risgiau yn y ddalfa

- Ar hyn o bryd, rydym yn rheoli 2 achos YRO ISS yn y cyfnod gyda'r ddau yn ddynion 17 oed; Dim pryderon cyfredol, 1 x achos wedi'i ail-ddedfrydu i YRO.
- Mae gofyn wedi bod am 4 PSR ers mis Hydref 2024, gyda'r holl opsiynau yn ystyriaeth agored, i gyd wedi arwain at orchmynion cymunedol.

- Nid oedd gofyn am rywun i weithio yn Llys Remand Ddydd Sadwrn yn y 12 mis diwethaf.
- Dim risg Remand (YDA) cyfredol.

5.4 **Tabl 7 Perfformiad DPA**

| DPA | Perfformiad | Problemau a Materion |
|---|---|---|
| ETE (Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth) | Mae 24-25 unwaith eto wedi profi i fod yn flwyddyn anodd iawn i berfformiad ETE, dim ond 66% o'r garfan oedd mewn darpariaeth addysg addas ar ddiwedd eu hymyrraeth, gwelliant bach ar 23-24, gyda rhywfaint o welliant sylweddol erbyn y 3ydd chwarter.<br><br>Mae'r rhan fwyaf o'r materion a brofwyd yn 2023-24 gyda chofnodi ac adrodd wedi'u cywiro ac mae ein prosesau croesgyfeirio mewnol yn cadarnhau cywirdeb, rydym yn hyderus i ddefnyddio perfformiad DPA BCI. | Y rhesymau dros y perfformiad is na'r arferol parhaus yw;<br>• Cynnydd yn nifer y plant ar amserlen lai neu becynnau addysg amgen<br>• Canran uchel barhaus o blant sy'n profi gwaharddiad neu'n symud ysgol.<br>• Er nad ydynt yn cyfrif am nifer uchel, mae rhai plant dros oedran ysgol yn profi anawsterau i gynnal lleoliadau mewn AB neu hyfforddiant.<br>Ysgolion yn y ddwy sir sy'n adrodd anawsterau wrth reoli ymddygiadau o fewn ac o amgylch yr ysgol; ymddygiad aflonyddgar ac ymosodol, defnydd a meddiant cyffuriau, ac ymgysylltu/cyfathrebu gwael â rhieni a gofalwyr.<br>Pwysau ar gyllid addysg sy'n arwain at ostyngiadau a thoriadau i ddarpariaeth amgen ac arbenigol. |
| Llety | Yn y cyfnod hwn o Ebrill i fis Rhagfyr 2024, roedd 114 o achosion ar gau. O'r 114 o achosion, roedd 101 mewn llety addas (88.5%), barnwyd bod 13 o blant wedi bod yn byw mewn llety anaddas. Mae hyn yn ostyngiad o 6 pwynt canran ar y 12 mis blaenorol. | Mae lleoliadau gofal yn y cartref neu achosion amddiffyn plant lle mae capasiti rhiantu yn gyfyngedig bellach yn cael eu hasesu gan y gwasanaeth fel nad ydynt yn ffactor amddiffynnol i droseddu; bydd staff yn awr yn cofnodi hyn fel anaddas, felly mae'r gostyngiad mewn perfformiad o flynyddoedd blaenorol.<br>Hefyd, i nodi bod y gwasanaeth wedi sylwi ar nifer cynyddol o blant o'r ddwy sir sydd mewn lleoliadau sy'n Gweithredu Heb Gofrestru (OWR), nid yw'r nifer yn uchel ond mae'n anodd cofnodi'r lleoliadau hyn fel rhai addas.<br>Mae'r gwasanaeth wedi darparu adroddiad dadansoddi i'r BRhS ar y dyfarniadau anaddasrwydd ar gyfer 24-25 (Mehefin 25), a bydd |

| | | |
|---|---|---|
| | | cynllun gweithredu yn cael ei greu i barhau â'n hymdrechion ar gyfer cofnodi cyson a theg. |
| ADY | Mae data perfformiad cyffredinol ar gyfer ein cofnodion ADY yn edrych yn gadarnhaol gyda dim ond **4** o achosion wedi'u cofnodi yn y 9 mis hyd at Ragfyr 24. O'r 4 achos, roedd gan 3 Gynlluniau ADY gweithredol (75%) gyda'r 4ydd achos â chynllun yn cael ei ddatblygu. Rydym yn fwy hyderus yn 24-25 bod ein hasesiadau yn casglu gwell gwybodaeth, ac mae ein cofnodi yn llawer mwy manwl gywir.<br>• Mae gofynion cofnodi yn newydd i rai staff (Cyn-Llys)<br>• Angen hyfforddiant pellach ar gyfer rheolwyr sy'n monitro cau achosion. | Nid yw staff yn cofnodi ADY yn gywir ar MIS Child View, er gwaethaf hyfforddiant sylweddol nid yw staff wedi anfon tabiau ADY yn gywir (dyddiad gorffen) felly nid yw'r data wedi dod drwodd yn y detholiad.<br>Mae hyfforddiant newydd gan CACI yn cael ei drefnu ar gyfer Gorffennaf 2024.<br>Bydd y Gwasanaeth yn gofyn am gefnogaeth gan dîm Data BCI i ddatrys anghywirdebau mewn cyflwyniadau blaenorol.<br>Diweddariad Mai 25<br><br>Gwelliant sylweddol mewn dadansoddi a chofnodi, rydym wedi cynyddu gwiriadau cyn cyflwyno ar ein data ac mae staff wedi derbyn hyfforddiant pellach ar gofnodi. |
| Iechyd Meddwl | Data ddim ar gael o DPA Tableau Fframwaith Cymhwyso Cyfiawnder Ieuenctid (YJAF) | Gweler llythyr Monitro ac Adrodd Data BCI Mehefin 25. |
| Dioddefwyr | Data ddim ar gael o DPA Tableau Fframwaith Cymhwyso Cyfiawnder Ieuenctid (YJAF) | Gweler llythyr Monitro ac Adrodd Data BCI Mehefin 25. |
| Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau (SMS) | Nifer y plant gydag angen wedi'i sgrinio neu ei adnabod am ymyrraeth neu driniaeth i ymdrin â chamddefnyddio sylweddau ar gyfer y cyfnod Ebrill 24 – Rhagfyr 24 oedd **25** neu **21%.** Mae hyn yn gynnydd sylweddol ar y 2.2% yn 2023-24. Mae hyn yn adlewyrchu cofnodi ac adrodd mwy cywir yn hytrach na galw cynyddol. | Bydd 2025-26 yn darparu gwell cyfleoedd cymharu a thracio nawr bod gennym ffigyrau mwy cywir.<br>Mae angen cydnabod staff BDS am eu gwaith i wella cofnodi a chyflymder ymyrraeth.<br>Bydd yr opsiynau cyfeirio newydd a gynhwysir yn y polisi rhanbarthol i arfer Penderfyniadau y Tu Allan i'r Llys yn sicrhau bod troseddau meddiant yn cael eu trin yn gyflym a gall plant gael mynediad at gymorth ac ymyraethau ar yr adeg iawn ac osgoi troseddoli anghymesur. |
| Cysylltiadau Gwasanaethau Ehangach | Roedd 16 o'r 114 achos a gafodd eu cau yn y cyfnod yn hysbys i wasanaethau ehangach (14%).<br>Gwasanaethau ehangach yw plant sydd â threfniadau gweithredol;<br>• Cynlluniau Gofal a Chymorth<br>• Trefniadau amddiffyn plant | Unwaith y bydd y gwasanaeth wedi derbyn yr adroddiad perfformiad 12 mis llawn ar YJAF, byddwn yn cynnal dadansoddiad o'r garfan ac yn adrodd i'r BRh ym mis Medi 25 ar;<br>• Statws y plentyn<br>• Rhesymau dros Ofal a Chymorth, Amddiffyn Plant a Phlant mewn Gofal |

| | | |
|---|---|---|
| | • Plant mewn Gofal<br>Mae ein ffigyrau 2024-25 yn parhau i fod yn unol â rhai 23-24, rydym yn amau y gallai cofnodi barhau i fod yn broblem ar gyfer y mesur hwn | • Problemau cofnodi (PaD?)<br>• Adroddiad olrhain posibl ar gyfer BLlDP a Gwasanaethau Plant. |

5.5 **Sicrhau Ansawdd (Asesu)**

Gweler **Atodiad 2** (*Adroddiad SA i BRhS Mehefin 2025*)

**Prif ganfyddiadau**

Mae canfyddiadau cyffredinol yn dda ac yn dangos safon uchel o safon asesu o fewn y gwasanaeth. Mae nifer o faterion a nodwyd yn ein Arolygiad HMIP (Tachwedd 2023) sy'n parhau;

Anghenion gwasanaeth

- Nid yw sgiliau Dadansoddi Proffesiynol wedi'u hymgorffori'n effeithiol yn y gwasanaeth.
- Mae cynllunio wrth gefn yn parhau i fod yn wan ar gyfer rhai staff.
- Mae cofnodi Diogelwch a Lles a Risg o Niwed wedi gwella, fodd bynnag, mae tystiolaeth nad yw rhai staff yn defnyddio gwybodaeth o wasanaethau ehangach yn llawn neu'n cynnwys yr elfennau hyn ym mhob maes o'r asesiad.
- Mae esboniadau ac adroddiadau, ar adegau, yn parhau i fod yn naratif ac nid ydynt yn dangos gallu rheolwyr achos i ddeall natur ymddygiad y plentyn a'r rhesymau posibl am hyn.

Staff unigol

- Nid oedd cofnod 'Llais y Plentyn' bob amser yn adlewyrchu llais y plentyn, geiriad 3ydd person, ac roedd o ansawdd anghyson.
- Roedd gwallau sillafu a gramadeg yn rhy gyffredin, gyda gwallau teipio yn cyfrannu at ddryswch.
- Roedd gan asesiadau PaDAT a gwblhawyd yn y cyfnod Medi-Hydref 2024, nifer sylweddol o adrannau a oedd yn anghyflawn, (blychau heb eu ticio).
- Tystiolaeth o asesiadau brys a '*blinder asesu*', (mae adrannau terfynol asesiadau o ansawdd gwael na'r adrannau cynharach)
- Tystiolaeth o wybodaeth *'Copy-Paste'* o ddogfennau allanol eraill.

6. **Cynnydd ar y cynllun blaenorol**

6.1 **Tabl 8** Dadansoddiad cynnydd

| Maes gwaith | Datblygiad Arfaethedig i'w Barhau |
|---|---|
| Rheoli a Llywodraethu | • **Archwilio cyfleoedd i godi ymwybyddiaeth o sut y gall cyfryngau cymdeithasol ddylanwadu ar Drais Ieuenctid.**<br>• Sicrhewch fod gan y **BRhS a'r GRhG** gytundeb ar rolau a chyfrifoldebau trwy gydol yr aelodaeth.<br>• Bydd y **GRhG** yn ymrwymo i gynorthwyo'r GCI i ddatblygu teclyn archwilio addysg; cofnodi cywir a chyson, cynnig a phresenoldeb, ADY, ACE a Thrawma. Bydd hyn yn darparu gwybodaeth a data cadarn y gellir adrodd arnynt i'r BRhS, yr Adran Addysg ac Ysgolion. (Nid Dangosyddion Perfformiad Allweddol Newydd yn unig) |
| Penderfyniadau y Tu Allan i'r Llys a Gwaith Ataliol | • **Gwaith wedi'i gwblhau** |
| Yn y Llys | • **Gwaith wedi'i gwblhau** |
| Gwaith gyda Dioddefwyr | • Mae cysylltiadau Cyfiawnder Adferol wedi'u hailsefydlu gyda'r OPCC ond yn bennaf ar lefel adrodd rhanbarthol yn y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol, mae angen rhagor o waith o hyd i sefydlu cysylltiadau cryfach â **Chanolfan Gyswllt Dioddefwyr.** |
| Yn y Gymuned<br>Yn cynnwys<br>Ail-droseddu<br>Ymyraethau Trais<br>Diogelu (Cam-fanteisio troseddol ar blant (CCE)/Cam-fanteisio'n rhywiol ar blant(CSE)) | • Datblygiadau Llinellau Sirol a CCE o fewn y gwasanaeth ac yn y bartneriaeth ehangach (ymwybyddiaeth gynyddol o risgiau penodol i Wynedd a Môn gan gynnwys Hyfforddiant Diogelu Cyd-destunol)<br>• Gofyn am gymorth ac arweiniad gan BCI ar ddadansoddiad manwl o ail-droseddu (Angen Teclyn Ail-droseddu wedi'i ddiweddaru). Adolygiad mewnol o droseddau sy'n gysylltiedig â thrais ar draws y carfannau. |
| Mewn lle diogel | • Asesiad Archwilio ac Adroddiadau Cyn-dedfrydu ac adrodd canfyddiadau i'r Bwrdd Rheoli Strategol a'r Grŵp Cyflawni Diogelu Lleol. |
| Trosglwyddo ac Ailsefydlu | • **Gwaith wedi'i gwblhau** |
| Dangosyddion Perfformiad Allweddol (Cymru)<br><br>1. ETE (ADDYSG, HYFFORDDIANT A CHYFLOGAETH)<br><br>2. Llety | • **Cynnal adolygiad manwl o'r holl achosion Oedran Ysgol a gaewyd yn 2023-24, gan ymchwilio i'r rhesymau dros berfformiad ETE gwael/Gwaharddiad.**<br><br>• **Ymgysylltu â BCI a Llywodraeth Cymru i adolygu mesuriadau DPA Llety ar gyfer Cymru.**<br>• **Cwblhau asesiad o'r holl ddarparwyr llety ôl-16 yn ardal y ddwy sir.** |

| | |
|---|---|
| 3. Camddefnyddio Sylweddau<br><br>4. Iechyd Meddwl | • **Cwblhau Archwiliad o reolaeth achosion y Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau (GCI a Be 'di'r Sgôr).**<br>• **Adolygu Teclynnau asesu'r Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau (SMS)**<br>• Adolygu CLG ac arferion gweithio gyda CAMHS. |
| Cyfranogiad a 'Llais y Plentyn' | • **Gwaith wedi'i gwblhau** |
| Diogelu a Sicrhau Ansawdd | Darparu Adroddiad Diogelu ar gyfer y Grŵp Cyflawni Diogelu Lleol, i gynnwys:<br>• Y defnydd o gystodaeth a remand<br>• Cysylltiadau GCI â Llinellau Sirol, Grwpiau Troseddu Cyfundrefnol (OCG) a Bygythiadau o ran Cam-fanteisio |

6.2 Bydd camau anghyflawn yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredu diwygiedig.

**7. Heriau, Risgiau a Phroblemau**

7.1 Mae'n anffodus ein bod yn parhau i brofi rhai problemau gyda'r defnydd o'n Systemau Gwybodaeth Rheoli (ChildView) wrth baratoi'r Detholiad Data ar gyfer y BCI i boblogi'r gofyniad DPA CI Newydd a chreu adroddiadau lleol, fodd bynnag, mae adroddiadau perfformiad newydd yn awgrymu gwelliant. Mae adolygiad o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Cyfiawnder Ieuenctid wedi'i gwblhau gan Dîm Data BCI gyda chanllawiau wedi'u hadnewyddu. Mae'r BCI wedi rhoi rhybudd ar y defnydd o ddata o 2024-25 a bydd angen i ni barhau i fonitro'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol wedi'u hadnewyddu a'r adroddiadau o fewn yr YJAF yn agos iawn.

7.2 Mae gwaith sylweddol ar arferion Penderfyniadau y Tu Allan i'r Llys wedi'i gwblhau yn 24-25; Safonau Rheoli Achosion newydd, teclyn asesu newydd, mwy o graffu yn lleol ac yn rhanbarthol a chyflwyno Penderfyniadau y Tu Allan i'r Llys mewn Dangosyddion Perfformiad Allweddol cenedlaethol. Wrth ychwanegu at y rhaglen honno, datblygu Turnaround a Chanlyniad 22, bydd gennym faes gwaith prysur a chynyddol gymhleth. Bydd angen monitro gweithrediad ein Polisi Penderfyniadau y Tu Allan i'r Llys Rhanbarthol newydd yn drylwyr yn y 12 mis nesaf i gynnal hyder yr heddlu a dioddefwyr/cymuned.

7.3 Mae Cam-fanteisio a Chaethwasiaeth Fodern yn parhau i fod yn bryder i'r holl wasanaethau sy'n gweithio gyda phlant sydd ag anghenion cymhleth. Mae busnes Gangiau/Unigolion Troseddol Cyfundrefnol bob amser yn addasu er mwyn osgoi cyfiawnder tra'n parhau i dargedu plant bregus. Bydd y gwasanaeth yn sicrhau bod staff yn cael eu hyfforddi'n rheolaidd a'u diweddaru ar fygythiad lleol a rhanbarthol a chanllawiau cenedlaethol. Byddwn hefyd yn sicrhau bod gwaith achos, dysgu a gwybodaeth yn cael ei ddefnyddio i hysbysu ein partneriaid o fewn gwasanaethau plant a'r heddlu am risgiau, gweithgarwch a niwed posibl. Bydd adnewyddu'r paneli SOC Lleol a'r Gweithrediadau Partner 'Clear Hold Build' yn Arfon yn cynnwys gweithgareddau ymgysylltu pwysig yn 2025-26 i'r gwasanaeth.

7.4 Nodir drwy gydol y ddogfen hon y cynnydd canfyddedig o ran adrodd am drais gan bobl ifanc, y credwn fod rhywfaint ohono yn gysylltiedig â chynnydd mewn defnydd o gyffuriau ac alcohol, y cyfryngau cymdeithasol, a Thrais Domestig (plentyn ar riant/brawd neu chwaer). Mae gennym dystiolaeth ddata cynyddol i ddangos bod hyn yn risg genedlaethol yn ogystal â lleol. Bydd y gwasanaeth yn ceisio dod ag eglurder i'r heriau posibl hyn yn ystod y 12 mis nesaf drwy ddadansoddi pellach, ymgysylltu â Heddlu Gogledd Cymru, cyfrannu at y prosesau Dyletswydd Trais Difrifol (cyllid DTD sy'n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc) a thrafodaethau gyda chydweithwyr YMC a BCI Cymru.

7.5 Mae'r Teclyn Asesu Atal a Dargyfeirio (PaDAT) sydd newydd ei fandadu wedi creu llwyth gwaith sylweddol i'r gwasanaeth, a gyda'n ffocws cynyddol ar Ganlyniad 22, mae hyn wedi arwain at alwadau ychwanegol ar amser staff a niferoedd llwyth achosion uwch. Mae'r Bwrdd Rheoli wedi cytuno i ariannu gweithiwr Cyn-llys ychwanegol ar gyfer 2025-26 er mwyn lleddfu rhywfaint o'r baich hwn ar staff.

7.6 Roedd ein perfformiad mewn perthynas ag Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth yn 2022-25, yn is na'r safonau; y maes a oedd yn peri'r pryder mwyaf oedd plant oed ysgol; rydym wedi cofnodi cynnydd yn nifer y: gwaharddiadau a dderbynnir gan y plant rydym yn gweithio gyda nhw, amserlenni amgen o dan y 25 awr gofynnol a chanfyddwn ddirywiad amlwg yn y berthynas rhwng ysgolion a theuluoedd. Bydd hyn yn ganolbwynt sylw sylweddol i’r gwasanaeth yn y 12 mis nesaf, gan edrych yn benodol ar y nifer a’r mathau o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) a lefelau'r profiad o drawma gan y plant hynny nad ydynt mewn addysg llawn amser.

7.7 Mae'r gwasanaeth wedi bod heb gefnogaeth Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (SLCN) ers 6 blynedd. Er gwaethaf nifer o ymdrechion a sicrhau cyllid ar gyfer secondiad, nid yw ein Tîm SLCN lleol wedi gallu darparu adnoddau. Mae'r gwaith yn parhau i archwilio opsiynau eraill ar gyfer adnoddau/cymorth, a theimlir pwysau ychwanegol yn dilyn argymhellion HMIP o'n harolygiad ym mis Tachwedd 2023. Mae ein hymdrechion yn cael eu rhwystro oherwydd penderfyniadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru i beidio â blaenoriaethu Cyfiawnder Ieuenctid yn eu hadroddiad '*60%-Rhoi Llais iddynt' (2023)* a gwrthod argymhellion 3 a 6. Dylid nodi bod ein cydweithwyr SaLT lleol wedi bod yn gefnogol iawn wrth greu cynllun hyfforddi ac adnoddau ar gyfer staff gwasanaeth.

7.8 Mae secondiad prawf yn parhau i gyflwyno anawsterau i'r gwasanaeth, yn enwedig yn dilyn canfyddiadau ein Harolygiad yn 2023 lle graddwyd absenoldeb Swyddog Prawf fel maes i'w wella. Ers 2022, mae'r gwasanaeth wedi cael secondiad PSO yn lle PO oherwydd adnoddau cyfyngedig yn ein timau prawf lleol, mae'r trefniant hwn yn gweithio'n dda i'n gwasanaeth, gan ein bod yn cynnal cysylltiadau strategol a gweithredol agos iawn â'n huwch swyddogion NPS/IOM lleol ac arweinydd DPU. Fodd bynnag, ymddengys bod barn wrthgyferbyniol gan HMIP a HMPPS ar sut mae GCI yn cael eu hadnoddau, mae hwn yn fater cenedlaethol, mae gan y gwasanaeth ddylanwad cyfyngedig ar benderfyniadau sy'n cael eu gwneud.

7.9 Mae ein ffigyrau anghymesuredd ar gyfer plant Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (BAME) yn isel, fodd bynnag mae yna blant rydym ni'n gweithio gyda nhw nad ydyn nhw'n dynodi eu hunain fel Gwyn Prydeinig, a lle mae hyn yn digwydd rydym ni'n ceisio cefnogaeth gan eraill i sicrhau bod anghenion y plentyn yn cael eu diwallu'n llawn. Bydd canolbwynt ein hanghymesuredd ar Blant â Phrofiad o fod mewn Gofal, mae'r gwasanaeth yn ganolog i'r gwaith o gyflwyno Protocol a Phecyn Cymorth newydd Llywodraeth Cymru ar Ddad-droseddoli Plant a Phobl Ifanc sydd â Phrofiad o fod mewn Gofal. Byddwn yn defnyddio ein safle o fewn y bartneriaeth i godi ymwybyddiaeth a sicrhau bod y gwaith yn cael ei gynnwys yn yr asesiad o anghenion y Ddyletswydd Trais Difrifol (SVD). Mae Tabl 9 yn amlinellu ein perfformiad anghymesuredd cyfredol.

**Tabl 9**

| GCI | Grŵp Canlyniadau Cyfreithiol | Rhywedd | Du | Arall | Gwyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwynedd ac Ynys Môn** | **Haen gyntaf** | **Benyw** | | | 7 | 7 |
| | | **Gwryw** | | 1 | 56 | 57 |
| | | **Is-gyfanswm** | | 1 | 63 | 64 |
| | **Cyn-llys** | **Benyw** | 1 | | 12 | 13 |
| | | **Gwryw** | | | 27 | 27 |
| | | **Is-gyfanswm** | 1 | | 39 | 40 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cymunedol | Gwryw | | | 17 | 17 |
| | | Is-gyfanswm | | | 17 | 17 |
| | Is-gyfanswm | | 1 | 1 | 119 | 121 |
| **Cyfanswm** | | | **1** | **1** | **119** | **121** |

- O'r 121 o achosion newydd i'r gwasanaeth yn 2024-25, nododd 2 blentyn nad ydynt yn wyn (1.6%)
- Derbyniodd y ddau blentyn ymyraethau haen gyntaf cyn-llys.

## 8. Cynllun Gweithredu

8.1 Cafodd y gwasanaeth ei arolygu gan HMIP ym mis Tachwedd 2023, adolygwyd 21 o achosion, cafodd plant a rhieni eu cyfweld a chafodd yr Arolygwyr fynediad at ystod eang iawn o bartneriaid ar gyfer ymgynghori.

8.2 Mae Bwrdd Rheoli a Staff GCI Gwynedd Môn yn falch iawn gyda graddfa gyffredinol **'Da'** o'n Harolygiad Cyfiawnder Ieuenctid HMIP diweddar. Dymunwn ddiolch i'n partneriaid yn y ddau Awdurdod Lleol, y System Cyfiawnder Troseddol Lleol, a'r Sector Gwirfoddol am eu cefnogaeth yn ystod y gwaith paratoi ac yn ystod wythnos yr Archwiliad.

8.3 Bu i'r arolygiaeth adnabod; trefniadau uwch bartneriaeth cryf sy'n llywio ac yn darparu adnoddau ar gyfer gweithio'n effeithiol â phlant a theuluoedd, a grŵp o staff sy'n cael eu cefnogi a'u goruchwylio'n dda, a bod plant a rhieni yn rhan weithredol o'r gwaith o gynllunio a chyflwyno cefnogaeth.

8.4 Mae gennym feysydd i'w gwella, ac nid oedd rhain yn llawer o syndod i ni, ac rydym nawr yn gyfrifol am weithredu arnynt i sicrhau ein bod yn darparu cefnogaeth o ansawdd uchel i blant a chymunedau Gwynedd ac Ynys Môn.

8.5 Rydym yn benodol hapus a balch y tynnwyd sylw penodol at staff y GCI am ansawdd uchel yr ymgysylltiad a'r gefnogaeth y maent yn eu rhoi i blant a'u teuluoedd. Ac ni ddylem anghofio'r plant, a bu i lawer ohonynt roi eu hamser i siarad â'r arolygwyr ac i roi adborth iddynt, ac rydym yn ddiolchgar iawn am hyn.

8.6 Cyflwynwyd ein Cynllun Gwella Arolygu (IIP) gyntaf i HMIP a'r BCI ar 5 Ebrill 2024, mae'r IIP yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan y BRhS

8.7 Mae'r adroddiad llawn ar gael yn; https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/inspections/gwynedd2024/

8.8 Roedd saith prif argymhelliad o ganfyddiadau'r Arolygwyr;

1. ***Sicrhau presenoldeb cyson yn y bwrdd rheoli gan uwch arweinwyr addysg ac iechyd, i gyflawni deilliannau addysg ac iechyd positif i'r holl blant.***
2. ***Ymdrin â'r datgysylltiad rhwng y bwrdd rheoli strategol ac ymarferwyr ar y rheng flaen.***
3. ***Ymdrin â'r bwlch yn y ddarpariaeth lleferydd, iaith a chyfathrebu i blant a sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu sy'n asesu ac yn ymateb i anghenion cyfathrebu plant.***
4. ***Gwella ansawdd y gwaith asesu a chynllunio i gadw plant yn ddiogel a rheoli'r risg o newid y maent yn ei beri i eraill.***
5. ***Sicrhau bod y trosolwg gan reolwyr yn ddigon effeithiol o ran adolygu gweithgarwch Asset Plus a chynllunio wrth gefn, fel bod ymarferwyr yn glir ynghylch beth sydd angen iddynt ei wella.***
6. ***Rhoi arweiniad cynhwysfawr i ymarferwyr sy'n cefnogi cwblhau gwaith asesu y tu allan i'r llys a chynllunio effeithiol.***
7. ***Gwella gwybodaeth a dealltwriaeth ymarferwyr i adnabod pa bryd mae plant yn cael eu hecsbloetio fel bod camau prydlon yn cael eu cymryd i gadw plant yn saff.***

8.9 **<u>Tabl 10 Cynllun Gweithredu</u>**

<u>Allwedd</u>

| Llai na 25% o'r rhaglen waith wedi'i chwblhau | 25%-40% o'r rhaglen wedi'i chwblhau | 40%-60% o'r rhaglen wedi'i chwblhau | 60%-80% o'r rhaglen wedi'i chwblhau | Rhaglen waith wedi'i chwblhau |
|---|---|---|---|---|

| Maes Gwaith | Datblygiadau wedi'u Cynllunio | Canlyniadau ac Amcanion | Cyfraniad Grant CI (YJ) | Cyfrifoldeb | Statws RAG (Chwarterol)<br><br>(Adolygwyd Mehefin 2025) |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rheoli a Llywodraethu** | **Bwrdd Rheoli Strategol**<br><br>1. Bydd Cadeirydd BRhS yn atgyfnerthu pwysigrwydd presenoldeb cyson yng Nghyfarfodydd Bwrdd GCI.<br>2. Cefnogi'r gwasanaeth i gywiro problemau cofnodi ac adrodd DPA CI ac ymateb i'r DPA ar ei newydd wedd.<br>3. Sicrhau bod y gwasanaeth yn cwblhau'r gwaith o'r Cynllun Gwella HMIP;<br>• Sicrhau presenoldeb cyson yn y bwrdd rheoli gan uwch arweinwyr addysg ac iechyd, i gyflawni deilliannau addysg ac iechyd positif i'r holl blant.<br>• Ymdrin â'r datgysylltiad rhwng y bwrdd rheoli strategol ac ymarferwyr ar y rheng flaen.<br>**Blaenoriaethau Strategol**<br><br>**Trais**<br><br>1. Bydd y Bwrdd Strategol yn cychwyn rhaglen o waith a fydd yn ceisio dysgu mwy am y sbardunau a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar drais ieuenctid, gyda ffocws penodol ar droseddau Cyllyll a Thrais Difrifol.<br><br>2. Cyfrannu tuag at yr Asesiad Anghenion Strategol sy'n ofynnol ar gyfer gweithredu'r Ddyletswydd Trais Difrifol | Cwblhau'r Cynllun Gwella HMIP yn llwyddiannus<br><br>Mwy o ddylanwad y Bwrdd rheoli a chysylltiad ag ymarfer rheng flaen.<br><br>Gweithio gyda Chynrychiolwyr Iechyd a Thîm SLC Lleol i archwilio cyfleoedd i wella adnoddau SLC o fewn y gwasanaeth<br><br>Sicrhau bod gan y BRhS a'r GRhG gytundeb ar y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau ar draws yr aelodaeth. | 3,793 | Cadeirydd y Bwrdd Rheoli<br><br>Rheolwr Gwasanaeth | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Ranbarthol, gan gynnwys dylanwad ar sut mae Cyllid DTD yn cael ei ddefnyddio yn ein hardal.<br><br>**Addysg**<br><br>3. Cryfhau cysylltiadau ag Adrannau Addysg ac Ysgolion gan gynnwys Grwpiau Penaethiaid a Llywodraethwyr i sicrhau statws blaenoriaeth i Blant yn y system gyfiawnder.<br><br>4. Bydd y Bwrdd Rheoli Strategol angen adroddiadau rheolaidd (eitem sefydlog yng nghyfarfodydd y Bwrdd) ar y 'Cynnig Addysg a Phresenoldeb' ar gyfer carfan y GCI, a bydd hyn yn cynnwys Astudiaethau Achos. Bydd hyn yn rhoi trosolwg clir o'r ddarpariaeth addysg a chyfle i sicrhau newid.<br><br>**<u>Grŵp Rheoli Gweithredol</u>**<br><br>**Trais**<br><br>1. Bydd yn cefnogi'r gwasanaeth i gwblhau arolygon pellach ac ymgysylltu â phlant i ddysgu mwy am y ffactorau sy'n arwain at drais ieuenctid.<br><br>2. Gyda grwpiau partneriaeth ehangach (gwasanaethau Addysg Ieuenctid, PDC (CSP), Iechyd) archwilio opsiynau ar gyfer prosiectau codi ymwybyddiaeth o drais ymhlith plant a phobl ifanc.<br><br>3. Gweithio gyda'r GCI i gomisiynu ac annog ymgysylltiad partneriaid â rhaglen | Mwy o hyder yn llywodraethu a darparu'r gwasanaeth, trwy gyflawni'r Cynllun Gweithredu a'r Cynllun Gwella ar ôl yr Archwiliad<br><br>Gwell cofnodi ac adrodd, darparu data gwell ar gyfer gwneud penderfyniadau strategol, a hysbysu partneriaid.<br><br>Llais cryfach y plentyn ar lefel reoli | | Aelodau'r Bwrdd Rheoli<br><br>Cadeirydd y GRhG a'r Rheolwr Gwasanaeth<br><br>Aelodau'r GRhG | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | hyfforddi Trais Domestig (Plentyn ar Rieni/Brawd neu chwaer).<br><br>**Addysg**<br><br>1. Bydd yn cefnogi'r gwasanaeth i gwblhau arolygon pellach ac ymgysylltu â phlant i ddysgu mwy am y ffactorau sy'n arwain at anawsterau gydag addysg (cysylltiad â gwaith Trais) - digwyddiadau ymgysylltu/ymyraethau posib.<br>2. Bydd y GRhG yn cefnogi'r gwasanaeth i ymchwilio a datrys cofnodi a monitro perfformiad ar gyfer Dangosyddion Perfformiad Allweddol newydd.<br>3. Adolygu aelodaeth, presenoldeb ac effeithiolrwydd y GRhG. | Ymgysylltu effeithiol ag Addysg ac Ysgolion i sicrhau gwell presenoldeb a chyflawniad i blant sy'n hysbys i'r GCI. | | | |
| **Penderfyniadau y Tu Allan i'r Llys a Gwaith Ataliol (gan gynnwys Safonau Cenedlaethol)** | **Gweithredu'r Polisi Rhanbarthol ar Benderfyniadau y Tu Allan i'r Llys yn Effeithiol.**<br><br>• Teclyn archwilio 'Tu Allan i'r Llys' newydd i'w ddatblygu a'i gyflwyno;<br>• Teclyn Archwilio Newydd i'w ymgorffori mewn ymarfer<br>• Briffio ar gyfer y Bwrdd Rheoli Strategol a'r Grŵp Rheoli Gweithredol.<br>• Monitro gweithrediad effeithiol Teclyn Asesu Penderfyniadau y Tu Allan i'r Llys newydd.<br>• Ailedrych ar hyfforddiant staff ar ddefnyddio teclyn asesu newydd (PaDAT) yn dilyn canfyddiadau o Archwiliad Mai 25. | Sefydlu ac ymgorffori adolygiad misol o ddata FTE gan y Rheolwr Ataliol a staff yr Heddlu.<br><br>Cynyddu adnoddau i gefnogaeth ataliol drwy raglen ailstrwythuro'r gwasanaeth. | 50,780 | Rheolwr Gwasanaeth<br><br>Rheolwyr | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Argymhelliad HMIP**<br>**1.** Gwella ansawdd y gwaith asesu a chynllunio i gadw plant yn ddiogel a rheoli'r risg o newid y maent yn ei beri i eraill.<br><br>Bydd newidiadau i broses a systemau Panel Penderfyniadau y Tu Allan i'r Llys;<br>• Byddwn yn symud i'r panel dyrannu wythnosol<br>• Alinio dogfennaeth â chanlyniadau'r Adolygiad Rhanbarthol.<br>• Ymarfer yn Seiliedig ar Drawma wedi'i gyflwyno i'r broses asesu.<br>• Mae angen gwneud newidiadau i'r dull o ffurfio adroddiadau FTE (ChildView) | Mae cwblhau Asesiad Newydd yn gwella ansawdd yr asesu a'r cynllunio.<br><br>Arfarnu rolau a chyfrifoldebau staff Ataliol yn unol â pholisi Cyngor Gwynedd a rhaglennu gwaith.<br><br>Hyfforddiant Asesu Asset Plus a PaD (Diogelwch a Lles risg o niwed) wedi'i drefnu ar gyfer Medi 2025. | | Gweithredol<br><br>Rheolwr Gwasanaeth<br><br>Rheolwr gweithredol<br><br>Heddlu Gogledd Cymru<br><br>Penaethiaid Gwasanaethau Plant ac Arweinwyr Teuluoedd yn Gyntaf. | |
| **Yn y Llys**<br><br>**Argymhellion HMIP** | Bydd y gwasanaeth yn datblygu dulliau gwell o sicrhau datganiadau effaith y drosedd ar y dioddefwr mewn adroddiadau'r Llys, ac yn chwilio am opsiynau â rheolwyr achos a'r tîm Cyfiawnder Adferol a'r Dioddefwr.<br><br>Bydd y gwasanaeth yn canolbwyntio ei brosesau Sicrwydd Ansawdd ar waith llys ar:<br>• Adroddiadau ar ôl y Llys, cwblhau Modiwlau Cystodaeth ar AssetPlus a'r | Gwell adroddiadau Llys | 0 | Rheolwr Gwasanaeth<br><br>Rheolwr Gweithredol Rheoli | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | camau gweithredu i'w hanfon at y Gwasanaeth Cystodaeth Ieuenctid (YCS).<br>• Gwybodaeth am ganlyniadau a phroses yn cael ei rhannu gyda rhieni a gofalwyr.<br>• Cofnod o'r drafodaeth â'r plentyn ynghylch Canlyniad y Llys.<br>• Cadarnhad o gyswllt y Dioddefwr neu gofnod o ddymuniad y Dioddefwr a'i deimladau ynghylch y ddedfryd.<br>• Canfyddiadau'r Archwiliad Ymatal i'w gario ymlaen.<br>**Archwilio NS**<br>I. Creu Dogfen Ymarfer Osgoi Remand Penodol.<br>II. Dylid canolbwyntio'n benodol ar SLC ac ADY, ar gyfer ein cydweithwyr ym maes Iechyd ac Addysg o fewn PSRs ac Adroddiadau 'Stand-down'. | Gwell gwasanaeth i ddioddefwyr<br>Gwell adborth i Reolwyr Achos<br>Gwell adroddiadau Iechyd ac Addysg yn y Llys | | Achosion<br>Fforwm y Llys Ieuenctid<br>Rheolwyr Gweithredol | |
| **Gwaith gyda Dioddefwyr**<br>**Fframwaith HMIP newydd** | Sicrhau bod y Gwasanaeth yn deall ac yn mabwysiadu holl elfennau'r ***Cod Dioddefwyr*** (Gwaith gyda Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (OPCC) a'r BCT (CJB)).<br>Mae cysylltiadau Cyfiawnder Adferol wedi'u hailsefydlu gyda'r OPCC ond yn bennaf ar lefel adrodd rhanbarthol yn y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol. Mae angen gwaith pellach i sefydlu cysylltiadau cryfach gyda'r Ganolfan Gyswllt Dioddefwyr.<br>Datblygu Teclyn Llais y Dioddefwr o fewn ein System | Gwella lefel ac ansawdd y prosesau Cyfiawnder Adferol a gyflwynir yn ystod y cam cyn y llys.<br>Mwy o ddefnyddio Cyfiawnder Adferol ym mhob maes o'r gwasanaeth.<br>Mwy o ddefnyddio | 22,567 | Rheolwr Gwasanaeth<br>Rheolwr Gweithredol<br>(Adnodd) | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Viewpoint.<br><br>**HMIP (Parodrwydd)**<br><br>Bydd y fframwaith newydd ar gyfer Archwiliad CI yn cynnwys ffocws sylweddol ar wasanaethau/cymorth i ddioddefwyr.<br><br>Cwblhau Archwiliad Boddhad Dioddefwyr Gorffennaf 2025<br>• Teclyn archwilio wedi'i greu<br>• Sesiynau briffio Safonau Dioddefwyr Newydd<br><br>Bydd y gwasanaeth yn adolygu adnoddau ac ymarfer ac yn monitro datblygiad y fframwaith, yn barod ar gyfer safonau newydd. | gwneud iawn uniongyrchol ac anuniongyrchol.<br><br>Nifer uwch o ddioddefwyr ynghlwm â gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid. | | Grŵp Rheolwyr TTI (YOT) Rhanbarthol<br><br>Rheolwr GCI a Rheolwyr Gweithredol | |
| **Yn y Gymuned**<br><br>**<u>Yn cynnwys</u>**<br><br>Ail-droseddu<br><br>Ymyraethau Trais<br><br>Diogelu (Cam-fanteisio troseddol ar blant (CCE)/Cam-fanteisio'n rhywiol ar blant(CSE)) | Datblygiadau Llinellau Sirol a CCE o fewn y gwasanaeth ac yn y bartneriaeth ehangach (ymwybyddiaeth gynyddol o risgiau penodol i Wynedd a Môn gan gynnwys Hyfforddiant Diogelu Cyd-destunol)<br><br>Cynyddu'r monitro a wneir ar adrodd am droseddau Treisgar.<br><br>Adolygiad manwl o droseddau treisgar ar draws y carfannau (Ionawr 2023).<br><br>Sicrhau bod TIP yn cael ei ymgorffori mewn ymarfer trwy raglen ymatal.<br><br>**HMIP IIP**<br><br>Cyfrannu at asesiad anghenion Troseddau Treisgar Difrifol Rhanbarthol (Llinellau Cyffuriau, Grwpiau Troseddu Cyfundrefnol a Cham-fanteisio Troseddol | Gostyngiad yng nghyfraddau aildroseddu ein carfan risg uwch (hŷn).<br><br>Gwell systemau cefnogi ar gyfer y bobl ifanc sy'n cael eu rhyddhau o gystodaeth neu sydd mewn perygl o fynd i gystodaeth. | 74,083 | Rheolwr Gwasanaeth<br><br>Rheolwr Gweithredol<br><br>(ar ôl y Llys)<br><br>Y Gwasanaeth Prawf | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | ar Blant).<br><br>Bydd y gwasanaeth yn ail-sefydlu Fforwm Rheoli Achosion bob deufis.<br><br>• Adolygu ansawdd asesiadau.<br>• Hyrwyddo safon uchel o ddadansoddi diogelwch a llesiant a Risg o Niwed.<br>• Bydd y Fforwm yn cael ei gadeirio gan y Rheolwr Gweithredol sydd â chyfrifoldeb am Sicrhau Ansawdd.<br><br>Cynnal y flaenoriaeth Rheoli Achosion Uwch (ECM) ar lefel ranbarthol a lleol.<br><br>Gwasanaeth i letya a datblygu rhwydweithiau ar gyfer y Tîm Ymddygiad Rhywiol Problemus/Ymddygiad Rhywiol Niweidiol (PSB/HSB) yng Ngwynedd. (Edrych ar rannu ymarfer a datblygiadau gydag Ynys Môn.)<br><br>Ceisio cefnogaeth ac arweiniad gan y BCI (YJB) er mwyn cynnal dadansoddiad manwl o'r aildroseddu (angen Teclyn Aildroseddu wedi'i Ddiweddaru).<br><br>Adolygu'r Ymchwil Gwydnwch i gynnwys cyflwyniadau i'r Bwrdd Rheoli Strategol a'r Grŵp Rheoli Gweithredol.<br><br>Bydd staff yn cael hyfforddiant ar gynllunio argyfwng o ran ymyrraeth a rheoli achosion.<br><br>• Monitro newidiadau mewn amgylchiadau.<br>• Cynyddu'r dadansoddi proffesiynol ar gynnydd a rhwystrau posib. | Addasu fel bo'r angen yn dilyn adolygiad y BCI (YJB) o ddata aildroseddu'r TTI (YOT).<br><br>Gwaith wedi'i dargedu'n effeithiol ar Grwpiau Troseddu Cyfundrefnol (OCG), Llinellau Cyffuriau a throseddau Cyffuriau.<br><br>Datblygu Cynllun Troseddau Treisgar Difrifol sy'n mesur Troseddau Cyllyll a'r niwed cysylltiedig. | | Grŵp Rheoli Gweithredol<br><br>Heddlu, Tân ac Achub, Ambiwlans<br><br>Grŵp Rheoli Gweithredol | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | • Mae'r modiwlau ymatal yn AssetPlus yn cael eu cwblhau ymhob achos, mae angen rhoi mwy o sylw i 'lwybrau ymatal', ac edrych ar sut i gyflawni hyn drwy adnoddau cymunedol.<br>*angen ymgorffori yn ymarferol*<br>**HMIP**<br>Bydd y gwasanaeth yn adolygu gweithrediad a swyddogaeth y 'Panel Risg' gyda'r bwriad o wella penderfyniadau a bod y camau gweithredu yn cael eu cofnodi a bod y panel yn cyfrannu at reoli diogelwch a llesiant a'r risg o niwed, yn well. | Gwell diogelwch a lles ac asesu a chynllunio Risg o Niwed o fewn Rheoli Achosion | | Rheolwr Gwasanaeth a Rheolwr Gweithredol. | |
| **Mewn lle diogel** | Gweithio â TTI (YOTs) eraill yng ngogledd Cymru i fonitro'r diogelu a'r gefnogaeth a ddarperir yn y Stadau Diogel.<br><br>Archwilio Adroddiadau Cyn-dedfrydu ac adrodd ar ganfyddiadau i'r Bwrdd Rheoli Strategol a'r Grŵp Cyflawni Diogelu Lleol.<br><br>Bydd y gwasanaeth yn cyfrannu yn strategol ac yn weithredol i ddatblygu'r Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid *Cystodaeth yng Nghymru* - ymarfer sgopio.<br><br>Adolygu ac adrodd ar yr holl Achosion Cystodaeth ers 2020-23 (gan gynnwys cyfnodau remand), adrodd i Fwrdd Rheoli'r GCI a'r Grŵp Cyflawni Diogelu Lleol (LSDG). | Lleihad yn y defnydd a wneir o Gystodaeth.<br><br>Gwell cynllunio ailsefydlu i bobl ifanc a ryddheir o gystodaeth.<br><br>Adolygiad cynhwysfawr o'r garfan Cystodaeth.<br><br>Gwella ansawdd y gefnogaeth i blant sydd wedi'u dedfrydu i gystodaeth. | 42,479 | Rheolwr Gwasanaeth<br><br>Rheolwr Gweithredol<br><br>(ar ôl y Llys)<br><br>Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol<br><br>Grŵp Rheoli Gweithredol | |
| **Trosglwyddo ac** | **HMIP IIP** | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ailsefydlu**<br><br>**Argymhellion HMIP** | Bydd y gwasanaeth yn creu Dogfen Ymarfer Adsefydlu newydd. Byddwn yn:<br>• Chwilio am arferion gorau yng Nghymru.<br>• Ail-gadarnhau gyda Chadeiryddion ac Aelodau'r Grŵp Rheoli Gweithredol eu cyfrifoldeb i lunio Panel Adsefydlu pan fo'r angen.<br>• Ymgynghori â YJB Cymru ar y deunydd darllen a'r dogfennau polisi perthnasol.<br>Sicrhau bod Amrywiaeth a Nodweddion Gwarchodedig yn cael eu cynnwys yn y ddogfen.<br>Mae angen i staff y gwasanaeth wneud gwell defnydd o gynrychiolwyr y Grŵp Rheoli Gweithredol i sicrhau bod gwasanaethau a chefnogaeth ddigonol ar gael i bobl ifanc sy'n dychwelyd i'r ardal o leoliadau diogel neu leoliadau gofal aflwyddiannus.<br>• Mae angen i'r gwasanaeth gael gwell cofnod o gysylltiadau, atgyfeiriadau a'r ymdrechion a wnaed i gaffael cefnogaeth a darpariaeth arbenigol.<br>• Mae angen gwneud ymdrechion i wella cynllunio ac ymarfer ar y cyd. | Darparu canllawiau ymarfer gwell i staff ar gyfer gwaith Pontio ac Adsefydlu.<br><br>Gwella canlyniadau ar gyfer<br>Pobl a ryddheir o Gystodaeth.<br><br>Oedolion ifanc sy'n trosglwyddo i'r gwasanaeth prawf.<br><br>Plant yn symud i mewn ac allan o'r sir ar leoliad. | 3,501 | Rheolwr y GCI<br><br>Rheolwyr Gweithredol<br><br>Cynrychiolwyr GRhG<br><br>Arweinydd IOM. | |
| **Dangosyddion Perfformiad Allweddol (Cymru)**<br><br>1. ETE (ADDYSG, | Mae angen rhaglen waith helaeth i ymchwilio i broblemau gyda chofnodi ac adrodd ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol o'n System Gwybodaeth Rheoli (Childview). Bydd y gwasanaeth yn gofyn am gymorth a chyngor gan;<br>• YJB Cymru a'r Tîm Data<br>• Darparwr CACI Childview.<br><br>Sicrhau bod Addysg ac Ysgolion yn rhan o'r Fframwaith Ymddygiad Rhywiol Problemus (HSB) a'r | Gwella adrodd i BCI ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol.<br><br>Monitro effeithiol | 80,797 | Rheolwr Gwasanaeth<br><br>Rheolwr Gweithredol (Adnoddau)<br><br>Rheolwr Gweithredol | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| HYFFORDDIANT A CHYFLOGAETH) | prosesau Archwilio newydd.<br><br>Byddwn yn datblygu'r elfennau mwy cadarnhaol o ymatal wrth ganolbwyntio ar ETE yn y broses Asesu, Goruchwylio a Chysylltiadau.<br><br>Cynnal adolygiad manwl o'r holl achosion Oedran Ysgol a gaewyd yn 2023-24, gan ymchwilio i'r rhesymau dros berfformiad ETE gwael. | parhaus yn y garfan grŵp oedran ysgol yn y gwasanaeth.<br><br>Mwy o oriau cyfranogi drwy well cysylltiadau â darparwyr hyfforddiant a chyflogaeth. | | (Adnodd)<br><br>Uwch Swyddogion Addysg<br><br>Fforwm ETE a Grŵp Rheoli Gweithredol<br><br>Rheolwr Gwasanaeth | |
| 2. Llety | Ymgysylltu â'r BCI (YJB) a LlC i adolygu mesurau DPA (KPI) Llety i Gymru.<br><br>Cwblhau asesiad o'r holl ddarparwyr llety ôl-16 yn ardal y ddwy sir.<br><br>Datblygu proses asesu risg newydd ar gyfer ceisiadau Llety.<br><br>Bydd Llety yn rhan o'r Archwiliad Safonau Cenedlaethol ar gyfer:<br>• Penderfyniadau y Tu Allan i'r Llys<br>• Cymunedol<br>• Cystodaeth<br>• Adsefydlu a Thrawsnewid | Mwy o bobl ifanc yn cael mynediad at ddarpariaeth llety priodol wrth iddynt gael eu rhyddhau o gystodaeth.<br><br>Lleihau nifer y bobl ifanc sy'n hysbys i GCI sy'n profi anawsterau gyda theuluoedd ac yn symud i fyw'n annibynnol neu ddarpariaeth Gofal. | | Rheolwr Gweithredol<br><br>(ar ôl y Llys)<br><br>Asiantaethau stoc tai<br><br>Rheolwr Gwasanaeth<br><br>Rheolwr Gweithredol<br><br>(Adnodd) | |
| 3. Camddefnyddio Sylweddau | Integreiddio'r gefnogaeth Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau newydd i Blant a Phobl Ifanc yn llawn i'r bartneriaeth GCI, i gynnwys trosolwg rheolaethol gan y Grŵp Rheoli Gweithredol. | Panel Iechyd i gynnwys mwy o bwyslais ar asesu a chefnogi Iechyd | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cwblhau Archwiliad o reolaeth achosion y Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau (GCI a Be 'di'r Sgôr).<br><br>Adolygu'r broses sgrinio SMS a Theclynnau<br><br>Cwblhau gwaith ar gael mynediad i MIS/Careworks/WCCIS ar gyfer y tîm Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau. | cyffredinol.<br><br>Cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n derbyn asesiadau Iechyd cynhwysfawr. | | | |
| **Cyfranogi a *'Llais y Plentyn'*** | Sicrhau bod ein gwaith a'n dysg yn cyfrannu at ymarfer Cyfiawnder Adferol ac ymarfer yn Seiliedig ar Drawma.<br><br>Creu cynllun Cefnogi er mwyn i Lais y Plentyn gael ei glywed yn y Bwrdd Rheoli, gan wella gosodiad a dogfennau adrodd Viewpoint.<br><br>Rheoli gweithrediad y rhaglen New Voice of the Young Person a'r holiadur cysylltiedig.<br><br>Creu Grŵp Ffocws Cyfranogi Person Ifanc i gefnogi ymarfer lleol a chyfrannu tuag at gynllunio Hwb Doeth rhanbarthol a chenedlaethol.<br><br>Ceisio cyfleoedd Achredu ar gyfer ein Strategaeth Cyfranogi. | Y Bwrdd Rheoli'n canolbwyntio mwy ar Lais y Plentyn.<br><br>Cynyddu nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n cwblhau holiaduron Viewpoint a Deud Eich Deud.<br><br>Cynyddu nifer yr astudiaethau achos a gyflwynir i'r Bwrdd Rheoli. | 4,000 | Pencampwr y Bwrdd Rheoli<br><br>Rheolwr Gwasanaeth<br><br>Gweithiwr Cyfranogi<br><br>Rheolwyr Gweithredol<br><br>Staff y Gwasanaeth | |
| **Diogelu a Sicrhau Ansawdd** | Briffio'r BRhS, GRhG a'r Partneriaid diogelu ar Adroddiad Hysbysu Digwyddiad Difrifol BCI (BCI, 2022-23, gofyniad blynyddol) | Gwella'r prosesau Trosolwg a Rheoli APIS ar draws y gwasanaeth | | Trosolwg Bwrdd Rheoli | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Argymhelliad HMIP** | Rheolwr Gweithredol (CM) i adolygu'r Panel Risg a Bregusrwydd.<br><br>Darparu Adroddiad Diogelu ar gyfer y Grŵp Cyflawni Diogelu Lleol, i gynnwys:<br>• Y defnydd o gystodaeth a remand<br>• Cyflwyniad Ymddygiad Rhywiol Niweidiol (HSB) a chynllunio i'r dyfodol (mabwysiadu tîm PSB/HSB newydd).<br>• Llinellau Cyffuriau, Grwpiau Troseddu Cyfundrefnol (OCG) a Bygythiadau o ran Cam-fanteisio.<br>**HMIP IIP**<br><br>Bydd y gwasanaeth yn gofyn i'r Swyddogion Arweiniol Cam-fanteisio ar Blant/Barnardos o'r ddwy Sir a Heddlu Gogledd Cymru i ddarparu sesiynau briffio/Hyfforddiant ar 'Exploitation and Extra Familial Harm' i staff a rheolwyr y GCI, bydd hyn yn cynnwys;<br>• Ymwybyddiaeth ac Adnabod<br>• Proses ac Ymarfer y Panel Cam-fanteisio ar Blant.<br>• Caethwasiaeth Fodern a'r Mecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol. | (prosesau AssetPlus).<br><br>Holl reolwyr a staff wedi ymgysylltu â'r broses Sicrhau Ansawdd ac yn deall y rhesymau am wella ymarfer.<br><br>Cyflawni'r lefel uchaf o ddiogelu ac amddiffyn plant.<br><br>Gwell ymwybyddiaeth staff ac ymateb i risgiau Cam-fanteisio. | 0 | Rheolwr Gwasanaeth<br><br>Holl reolwyr tîm<br><br>Rheolwr Gwasanaeth | |
| **CYFANSWM**<br><br>**2025-26** | | | **282,000** | | |

9. **Llofnodi a Chymeradwyo**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd GCI Gwynedd a Môn** | **Huw Dylan Owen** |

| | |
|---|---|
| **Dynodiad** | **Cyfarwyddwr Corfforaethol<br>Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Cyngor Gwynedd.** |
| **Llofnod** | |
| **Dyddiad** | **/06/2025** |

## 10. Atodiadau

**1. Y Strwythur Staffio**

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**2. Adroddiad Safbwynt Llais y Plentyn**

GWY_MON
Viewpoint Report 24-.

**3. Adroddiad Sicrhau Ansawdd**

SMB
Disproportionality Eth

**4. Anghyfartaledd**

Gwynedd Môn F 3

SMB
Disproportionality Eth

# *Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd ac Ynys Môn*
# *Arolygiad HMIP Tachwedd 2023*
# *Cynllun Gwella*

1. Cyflwyniad

1.1 Mae Bwrdd Rheoli Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (GCI) Gwynedd a Môn yn hynod falch gyda graddiad cyffredinol **'Da'** yn dilyn ein Harolygiad HMIP o Gyfiawnder Ieuenctid. Dymunwn ddiolch i'n partneriaid yn y ddau Awdurdod Lleol, y System Cyfiawnder Troseddol Lleol, a'r Sector Gwirfoddol am eu cefnogaeth yn ystod y gwaith paratoi ac yn ystod wythnos yr Arolygiad.

Bu i'r arolygiaeth adnabod: trefniadau partneriaeth uwch cryf sy'n llywio ac yn darparu adnoddau ar gyfer gweithio'n effeithiol â phlant a theuluoedd, grŵp o staff sy'n cael eu cefnogi a'u goruchwylio yn dda, a bod plant a rhieni yn rhan weithredol o'r gwaith o gynllunio a chyflwyno cefnogaeth.

Mae gennym feysydd i'w gwella, ac nid oedd y rhain yn llawer o syndod i ni, ac rydym nawr yn gyfrifol am weithredu arnynt i sicrhau ein bod yn darparu cefnogaeth o ansawdd uchel i blant a chymunedau Gwynedd ac Ynys Môn.

Mae'r Bwrdd Rheoli GCI a'r uwch reolwyr eisoes wedi cychwyn ar y broses o wella, a chynhaliwyd cyfarfod ar 31ain Ionawr i adolygu ein hadroddiad a'n canfyddiadau drafft er mwyn ymateb yn effeithiol ac yn effeithlon, ac mae gennym hyd at y 5ed o Ebrill i gyflwyno ein Cynllun Gwella.

Rydym yn benodol hapus a balch y tynnwyd sylw penodol at staff y GCI am ansawdd uchel yr ymgysylltiad a'r gefnogaeth y maent yn eu rhoi i blant a'u teuluoedd. Ac ni ddylem anghofio'r plant, y bu i lawer ohonynt roi eu hamser i siarad â'r arolygwyr ac i roi adborth iddynt, ac rydym yn ddiolchgar iawn am hyn.

2. Canfyddiadau (Adroddiad HMIP)

2.1 Mae'r archwiliad hwn yn rhan o'n rhaglen arolygu gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid (GCI). Rydym wedi arolygu ac wedi graddio GCI Gwynedd ac Ynys Môn ar draws tri maes eang: y trefniadau ar gyfer cyflwyno'r gwasanaeth yn sefydliadol, ansawdd y gwaith a wneir gyda phlant a ddedfrydir gan y llysoedd, ac ansawdd y gwaith gwarediadau y tu allan i'r llys (*out-of court disposals*).

Yn gyffredinol, cafodd GCI Gwynedd ac Ynys Môn ei raddio yn 'Dda'. Hefyd, bu i ni arolygu ansawdd y polisi a'r ddarpariaeth adsefydlu, a raddiwyd ar wahân fel 'Angen Gwella'.

Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar blant, ac wedi ymrwymo i gynorthwyo plant i ymwrthod â throseddu pellach. Mae defnyddio dull unigol yn helpu i sicrhau bod anghenion amrywiaeth plant yn cael eu cydnabod, a bod adnoddau yn cael eu rhoi yn eu lle i helpu iddynt ffynnu a medru mynd ati i wneud penderfyniadau positif. Mae'r staff a'r gwirfoddolwyr yn gryfder. Maent yn garedig, yn feddylgar, yn gweithio'n dda gyda'i gilydd fel un tîm, ac maent yn eiriolwyr positif ar gyfer y plant dan eu goruchwyliaeth. Mae'r gwasanaeth yn mynd ati'n effeithiol i gasglu lleisiau'r plant a'u rhieni neu ofalwyr. Mae hyn yn cael ei ddefnyddio wrth ddatblygu gwasanaethau a gwella gwasanaethau. Mae gan staff fynediad at amrediad o ymyraethau i helpu plant a'u rhieni neu ofalwyr. Yn enwedig, mae'r hyn sydd gan y Tîm Emrallt (ymddygiad rhywiol problemus a niweidiol) i'w gynnig yn wych ac yn gwneud gwir wahaniaeth i gefnogi ymarferwyr i wella agweddau ac ymddygiadau plant. Mae'r gwasanaeth Be di'r Sgôr? (gwasanaeth camddefnyddio sylweddau) yn darparu ymyraethau o ansawdd uchel.

Mae gan y bwrdd rheoli strategol rai aelodau ymrwymedig sy'n gweithio'n dda i sicrhau adnoddau ariannol ar gyfer y GCI. Fodd bynnag, ers y pandemig, mae datgysylltu wedi digwydd rhyngddyn nhw ac ymarferwyr rheng flaen. O ganlyniad, nid oes gan rai staff ddealltwriaeth lawn o waith y bwrdd. Yn ogystal, mae absenoldebau'r partneriaid iechyd ac addysg yng nghyfarfodydd y bwrdd wedi bod yn amlwg. Mae'r GCI wedi nodi bod deilliannau addysg anghymesur o wael ar gyfer eu carfan nhw o blant, ynghyd â'r angen am adnodd iaith a lleferydd. Mae angen canolbwyntio ar y canfyddiadau hyn ar lefel mwy strategol, a hynny ar fyrder. Hefyd, mae angen mwy o hwb a ffocws ar lefel strategol i sicrhau bod plant y GCI yn derbyn y gwasanaeth gorau bosib a bod y GCI yn cael ei gefnogi i gyflawni ymyraethau o ansawdd uchel.

Mae'r ymgysylltiad ac ansawdd y perthnasau sydd gan ymarferwyr â'r plant yn gryfder, ond mae gwaith sy'n gysylltiedig â chefnogi diogelwch a llesiant plant a'u potensial i beri niwed i eraill, yn amrywio. Mae angen gwella hyn. Bu i'n harolygiad ganfod, ar draws y gwaith llys a thu allan i'r llys, nad oedd pob aelod staff yn deall ac yn gweithredu'r systemau a'r prosesau yn gyson er mwyn cadw plant yn saff a'u hatal rhag achosi niwed i eraill.

Mae gan y GCI le i fod yn falch iawn o'r ffordd y mae'n estyn allan i blant gyda thrugaredd ac yn eu helpu i fyw eu bywyd gorau. Nawr, rhaid iddo ganolbwyntio ar ganfyddiadau'r arolygiad hwn fel sbardun fydd yn arwain at newid pellach. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn gwneud saith argymhelliad i fynd ati ymhellach i wella gwaith GCI Gwynedd ac Ynys Môn. Hyderwn y byddant yn cynorthwyo'r gwasanaeth wrth iddo barhau ar ei siwrne o wella.

## 2.2 <u>Paratoadau Lleol</u>

Yn y Bwrdd Rheoli Strategol ym mis Ionawr 2024, estynnodd y Bwrdd wahoddiad i aelodau'r Grŵp Rheoli Gweithredol a'r staff rheoli i ymuno â nhw i adolygu'r adroddiad Arolygiad drafft ac i ddechrau ar y broses o ymateb iddo. Mae'r Cynllun Gwella a ganlyn wedi cael ei hysbysu gan y trafodaethau hynny a'r cyfraniadau a wnaed gan y grŵp.

Yn ogystal, cynhaliodd y Grŵp Rheoli Gweithredol gyfarfod pellach ar 23 Mawrth, lle y gwnaed cyfraniadau ychwanegol i gynllunio'r ymateb.

3. Parth 1 (**Cyflwyniad Sefydliadol**)

3.1

**Argymhellion**

1. ***Sicrhau presenoldeb cyson yn y bwrdd rheoli gan uwch arweinwyr addysg ac iechyd, i gyflawni deilliannau addysg ac iechyd positif i'r holl blant.***
2. ***Ymdrin â'r datgysylltiad rhwng y bwrdd rheoli strategol ac ymarferwyr ar y rheng flaen.***
3. ***Ymdrin â'r bwlch yn y ddarpariaeth lleferydd, iaith a chyfathrebu i blant a sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu sy'n asesu ac yn ymateb i anghenion cyfathrebu plant.***

| Maes ar gyfer gwella (Argymhelliad 1 - R1) | Gweithred | Pwy | Pryd |
|---|---|---|---|
| a) *Mae angen i amlder presenoldeb a chynrychiolaeth yn y Bwrdd Rheoli Strategol fod yn gyson ar draws yr holl bartneriaid statudol.* | Bydd Cadeirydd y Bwrdd Rheoli Strategol yn ategu pa mor bwysig yw cael presenoldeb cyson yng Nghyfarfodydd Bwrdd y GCI.<br><br>Bydd Staff Gweinyddol y GCI yn cadw log presenoldeb ac yn darparu adroddiad i gadeirydd y Bwrdd Rheoli Strategol ddwywaith y flwyddyn.<br><br>Bydd angen i gynrychiolwyr adrodd i'r Bwrdd Rheoli Strategol ar gynrychiolaeth a phresenoldeb pan fo problemau yn codi.<br><br>Bydd gofynion newydd yn cael eu hychwanegu i Gylch Gorchwyl y Bwrdd Rheoli. | Cadeirydd y Bwrdd Rheoli Strategol<br><br>Rheolwr a Swyddog Gweinyddol y GCI<br><br>Holl aelodau'r Bwrdd Rheoli Strategol | Parhaus ers 1 Ebrill 2024. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| b) *Mae absenoldebau'r partneriaid iechyd ac addysg yng nghyfarfodydd y bwrdd wedi bod yn amlwg.* | Bydd Cadeirydd y Bwrdd Rheoli Strategol a'r Rheolwr Gwasanaeth yn ysgrifennu at y Cyfarwyddwyr Addysg ac Iechyd yn amlinellu canfyddiadau'r Arolygiad ac yn gwneud cais am gydweithrediad llawn gyda'r camau gweithredu a amlinellir yn **R1a.** | Cadeirydd y Bwrdd Rheoli Strategol, Rheolwr y Gwasanaeth | Ebrill 2024 |
| c) *Nid yw cynllun busnes y GCI (2023-2025) yn glir o ran adnabod neu ymdrin ag anghymesuredd ac anghenion plant sydd â nodweddion gwarchodedig amrywiol.* | Bydd gan Gynllun Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd ac Ynys Môn 2024-25 adran ar Anghymesuredd a nodweddion gwarchodedig, a bydd hyn yn cynnwys;<br>• *Rhywedd*<br>• *Anghenion Dysgu Ychwanegol*<br>• *Iechyd Meddwl a Niwro-ddatblygiadol*<br>• *Ethnigrwydd*<br>• *Iaith a Lleferydd*<br>• *Plant sydd wedi bod mewn Gofal* | Cadeirydd y Bwrdd Rheoli Strategol<br><br>Rheolwr y GCI | Gorffennaf 2024 |
| d) *Mae'r gofyniad statudol o gael swyddog prawf yn y GCI yn absennol.* | Bydd Cadeirydd y Bwrdd Rheoli a'i aelodau (gyda chefnogaeth gan y rheolwr gwasanaeth) yn parhau i gyfathrebu â'r NPS Lleol a'r HMPPS Cenedlaethol i sicrhau bod Swyddog Prawf yn cael ei secondio i'r gwasanaeth.<br><br>Yn ogystal, bydd y gwasanaeth yn cefnogi gweithrediadau Rheolwyr YOT Cymru a YJB Cymru yn eu negodi â'r HMPPS er mwyn ymdrin â'r materion cenedlaethol sy'n gysylltiedig â secondiadau'r Gwasanaeth Prawf i Gyfiawnder Ieuenctid. | Aelodau'r Bwrdd Rheoli<br><br>Cadeirydd y Bwrdd Rheoli<br><br>Rheolwr Gwasanaeth | Mai 2024 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Bydd y Bwrdd/Cadeirydd yn ysgrifennu at Arweinydd yr NPS Lleol a HMPPS Cymru i'w hysbysu ynghylch canfyddiadau arolygiad GCI Gwynedd ac Ynys Môn. | | |

3.2

| Maes ar gyfer gwella (Argymhelliad 2 - R2) | Gweithred | Pwy | Pryd |
|---|---|---|---|
| a) *Ers y pandemig, mae datgysylltiad wedi digwydd gydag ymarferwyr rheng flaen. O ganlyniad, nid oes gan rai staff ddealltwriaeth lawn o waith y bwrdd.*<br><br>b) *Mae profiad anwytho aelodau'r bwrdd yn amrywiol.* | Mae **Llawlyfr Canllawiau Anwytho Gwasanaeth** newydd **wedi'i ddatblygu (Rhagfyr 2023),** y ddogfen i'w Staff, Gwirfoddolwyr ac aelodau'r Bwrdd Rheoli ac yn cynnwys manylion ar<br>• ymweliadau'r Bwrdd Rheoli i'r Swyddfa Cyfiawnder Ieuenctid<br>• Cynrychiolaeth staff yng nghyfarfodydd y Bwrdd Rheoli Strategol<br>• Camau gweithredu a phenderfyniadau o gyfarfodydd y Bwrdd Rheoli Strategol i'w rhannu gyda staff a gwirfoddolwyr.<br>Llawlyfr Canllawiau Anwytho Newydd i'w adolygu gan y Bwrdd Rheoli yn y cyfarfod ym mis Ebrill 2024. | Aelodau'r Bwrdd Rheoli<br>Cadeirydd y Bwrdd Rheoli<br>Rheolwr Gwasanaeth<br><br>Cadeirydd y Grŵp Rheoli Gweithredol, Rheolwr Gwasanaeth, | Mehefin 2024<br><br>Mai 2024 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Bydd y Grŵp Rheoli Gweithredol yn adolygu ei Rôl a Chylch Gorchwyl ac yn adrodd i'r Bwrdd Rheoli Strategol ar newidiadau a datblygiad, gyda'r bwriad o sicrhau bod atebolrwydd clir i'r Bwrdd Rheoli Strategol ac nad oes unrhyw rwystr yn cael ei greu rhwng y gwasanaeth a'r Bwrdd Rheoli Strategol. **(Cytunwyd gan y Grŵp Rheoli Gweithredol ar 20/3/24)** | Rheolwyr Gweithredol. | |
| c) *Dylid rhoi rhagor o gyfleoedd i wirfoddolwyr a staff y GCI gyfrannu at y cynllun cyfiawnder ieuenctid.* | Bydd y Bwrdd Rheoli Strategol a'r Grŵp Rheoli Gweithredol yn estyn gwahoddiad i staff a gwirfoddolwyr adolygu'r Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid cyn iddo gael ei gyflwyno i'r YJB. | | |
| d) *Mae angen meincnodi perfformiad yn erbyn adroddiadau thematig HMIP a chanfyddiadau gwaith ymchwil arall.* | Bydd yr holl Adroddiadau Arolygiadau Thematig HMIP yn cael eu rhannu a'u hadolygu yng nghyfarfodydd y Bwrdd Rheoli Strategol a'r Grŵp Rheoli Gweithredol.<br><br>Bydd adroddiadau yn cael eu paratoi i hysbysu'r Bwrdd ynghylch sefyllfa'r gwasanaethau o ran y canfyddiadau Thematig a'r argymhellion.<br><br>Eitem sefydlog ar raglen y Bwrdd Rheoli Strategol pan fo hynny'n briodol. | Cadeirydd y Bwrdd Rheoli<br><br>Rheolwr Gwasanaeth | Parhaus ers 1 Ebrill 2024 |

3.3

| Maes ar gyfer gwella (Argymhelliad 3 - R3) | Gweithred | Pwy | Pryd |
|---|---|---|---|
| a) *Mae angen i'r Bwrdd Rheoli Strategol fod yn fwy rhagweithiol a chyflym wrth ymateb i angen sydd wedi'i adnabod - e.e. darparu adnodd iaith a lleferydd.*<br><br>b) *Nid yw'r deilliannau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, a lleferydd, iaith a chyfathrebu i blant yn ddigon uchel.* | Bydd y Bwrdd Rheoli Strategol yn parhau i gyfathrebu â'r Gwasanaeth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu Rhanbarthol i ystyried yr opsiynau am secondiad neu gefnogaeth.<br><br>Bydd y Bwrdd Rheoli Strategol yn parhau gyda'i ymrwymiad i sicrhau cyllid ar gyfer adnodd Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu.<br><br>O ran gweithred **R1(b)**, bydd y Bwrdd Rheoli Strategol yn blaenoriaethu anghenion Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth (ETE) a Chyfathrebu plant yn y system cyfiawnder drwy wneud cais am adroddiadau ar y ffactorau sy'n effeithio ar ymgysylltu ag addysg a hyfforddiant am y 12 mis nesaf. Bydd hyn yn cynnwys data KPI Cenedlaethol a data lleol/carfan ac astudiaethau achos unigol.<br><br>*Ystyried yr opsiynau ar gyfer comisiynu gwasanaeth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu Cyfiawnder Ieuenctid yn rhanbarthol.* | Cadeirydd y Bwrdd Rheoli, Cynrychiolwyr Iechyd ac Addysg a'r Rheolwr Gwasanaeth<br><br>Cadeirydd y Bwrdd Rheoli, Cynrychiolwyr Iechyd ac Addysg a'r Rheolwr Gwasanaeth<br><br>*YJS Rhanbarthol (Cadeiryddion a Rheolwyr Gwasanaeth)* | Parhaus ac yn cael ei adolygu yn chwarterol |
| c) *Ychydig iawn o dystiolaeth sydd ar gael o sgyrsiau cadarn ynghylch nodweddion gwarchodedig ac amrywiaeth yng nghyfarfodydd y Bwrdd Rheoli Strategol.* | Bydd adroddiadau chwarterol yn cael eu darparu i'r Bwrdd Rheoli Strategol ar y nodweddion gwarchodedig a'r lefelau amrywiaeth ymysg y garfan o blant sy'n | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | hysbys i'r system gyfiawnder, bydd hyn yn cynnwys;<br>• *Rhywedd*<br>• *Anghenion Dysgu Ychwanegol*<br>• *Iechyd Meddwl a Niwro-ddatblygiadol*<br>• *Ethnigrwydd*<br>• *Iaith a Lleferydd*<br>• *Plant sydd wedi bod mewn Gofal*<br>Bydd adroddiadau chwarterol a'r ymatebion gan y Bwrdd Rheoli Strategol a'r Gwasanaeth yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid blynyddol. | Cadeirydd y Bwrdd Rheoli<br>Aelodau'r Bwrdd Rheoli Strategol a'r Rheolwr Gwasanaeth. | |

4. Parth 2 (**Gorchmynion Llys**)

4.1

**Argymhellion**

1. **Gwella ansawdd y gwaith asesu a chynllunio i gadw plant yn ddiogel a rheoli'r risg o niwed y maent yn ei beri i eraill.**
2. **Sicrhau bod y trosolwg gan reolwyr yn gyson effeithiol o ran adolygu gweithgarwch Asset Plus a chynllunio wrth gefn, fel bod ymarferwyr yn glir ynghylch beth sydd angen iddynt ei wella.**
3. **Rhoi arweiniad cynhwysfawr i ymarferwyr sy'n cefnogi cwblhau gwaith asesu y tu allan i'r llys a chynllunio effeithiol.**
4. **Gwella gwybodaeth a dealltwriaeth ymarferwyr i adnabod pa bryd mae plant yn cael eu hecsbloetio fel bod camau prydlon yn cael eu cymryd i gadw plant yn saff.**

| Maes ar gyfer gwella (Argymhelliad 1 - R1) | Gweithred | Pwy | Pryd |
|---|---|---|---|
| **a)** Ni wnaeth y gweithgarwch asesu bob amser nodi'r holl risgiau i ddiogelwch a llesiant y plentyn.<br>**b)** Roedd yr asesiadau i adnabod yr holl ffactorau perthnasol sy'n gysylltiedig â chadw pobl eraill yn saff, yn wan.<br><br>**c)** Mewn rhai achosion, nid oedd yn glir tuag at bwy yr oedd y plentyn yn peri risg, a natur y risg honno. | Mae angen comisiynu Hyfforddiant Diogelwch a Llesiant a Risg o Niwed ar gyfer yr holl staff yn y gwasanaeth.<br><br>Bydd y rheolwr gwasanaeth a'r rheolwyr gweithredol yn sgopio'r darparwyr hyfforddiant Diogelwch a Llesiant sydd ar gael gyda phartneriaid lleol (Gwasanaethau Plant a'r Bwrdd Diogelu) er mwyn ymarfer cysondeb.<br><br>Bydd y gwasanaeth yn ystyried yr opsiynau Hyfforddiant Rheoli Risg gyda:<br>• LDU Gwasanaeth Prawf<br>• Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid<br>• YMC<br>ac yn comisiynu hyfforddiant priodol ar gyfer staff rheoli achos a staff cefnogi ehangach<br><br>*(Ymgynghori â'r Adran Hyfforddi yn yr Awdurdod Lleol i sicrhau cydraddoldeb o ran y comisiynu a'r ymarfer)* | Rheolwr Gwasanaeth<br><br>Rheolwyr Gweithredol ac Uwch Ymarferwyr<br><br>Rheolwr Gwasanaeth<br><br>Rheolwyr Gweithredol ac Uwch Ymarferwyr | Cwblhau erbyn mis Mehefin 2024<br><br>Cwblhau erbyn mis Gorffennaf 2024 |
| **d)** Nid oedd ymarferwyr yn mynd ati'n gyson i gasglu gwybodaeth berthnasol gan asiantaethau eraill a dadansoddi rheolaethau ac ymyraethau i hyrwyddo diogelwch a llesiant y plentyn.<br><br>**e)** Lle bo'r angen, roedd ymarferwyr yn casglu gwybodaeth gan asiantaethau | Bydd y gwasanaeth yn ail-sefydlu Fforwm Rheoli Achosion bob deufis.<br>• Adolygu ansawdd asesiadau. | Rheolwr Gwasanaeth | Mai 2024<br><br>Comisiynu Hyfforddiant erbyn Awst 2024 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| eraill ond, nid oedd hyn yn cael ei integreiddio i'w hasesiadau bob amser. | • Hyrwyddo safon uchel o ddadansoddi diogelwch a llesiant a Risg o Niwed.<br>• Bydd y Fforwm yn cael ei gadeirio gan y Rheolwr Gweithredol sydd â chyfrifoldeb am Sicrhau Ansawdd.<br><br>Hefyd, bydd y fforwm yn adolygu ansawdd y wybodaeth y gwneir cais amdani gan asiantaethau eraill yn ystod y camau asesu a chynllunio.<br><br>Bydd y gwasanaeth yn comisiynu hyfforddiant Sgiliau Dadansoddi ar gyfer y staff Rheoli Achosion, i sicrhau bod y wybodaeth sy'n cael ei chasglu o asesiadau a chan bartneriaid yn cael ei defnyddio i wella'r Asesiad Diogelwch a Llesiant a Risg o Niwed, Cynllunio ac Adolygu.<br><br>Dadansoddi a rhannu risg | Rheolwyr Gweithredol ac Uwch Ymarferwyr | Adolygu gwelliannau drwy Archwiliad Sicrwydd Ansawdd, Hydref 2024, adrodd i'r Bwrdd Rheoli yn mis Rhagfyr 2024. |
| **f)** Nid yw'r hyfforddiant ar drefniadau gwarchod y cyhoedd aml-asiantaethol (MAPPA) yn cael ei gyflwyno i'r holl staff, er mwyn darparu dealltwriaeth fwy cadarn o hyd a lled y gwaith sydd angen ei wneud i reoli risg yn effeithiol. | Cynhaliwyd hyfforddiant MAPPA ar gyfer yr holl staff rheoli achosion ar 23 Ionawr 2024 (Darparwr: Cydlynydd MAPPA Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru).<br><br>Ail-gyflwyno'r hyfforddiant MAPPA blynyddol gorfodol ar gyfer y gwasanaeth fel rhan o Gynllun Hyfforddi'r Gwasanaeth. Hyn | Rheolwr Gwasanaeth<br><br>Rheolwyr Gweithredol ac Uwch Ymarferwyr | Parhaus ers 1 Ionawr 2024 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | i'w adolygu gan y Grŵp Rheoli Gweithredol bob blwyddyn. | Cadeirydd y Grŵp Rheoli Gweithredol | |

4.2

| **Maes ar gyfer gwella (Argymhelliad 2 - R2)** | **Gweithred** | **Pwy** | **Pryd** |
|---|---|---|---|
| **a)** Nid oedd y cynllunio wrth gefn yn gyson. Angen i drefniadau fod yn llawer mwy penodol o ran y camau gweithredu angenrheidiol pe bai lefel y risg yn cynyddu.<br><br>**b)** Roedd mesurau rheoli i uchafu diogelwch a llesiant wedi cael eu hystyried yn dda, ond roedd y cynllunio argyfwng yn benodol wael ac angen sylw pellach.<br><br>**c)** Nid oedd ymarferwyr yn ymateb yn effeithiol bob amser i newidiadau mewn ffactorau yn ymwneud â'r risg o niwed, oedd yn golygu nad oedd y cynlluniau i warchod eraill rhag niwed yn cael eu haddasu. | Fel rhan o'r trefniadau comisiynu hyfforddiant sydd wedi'u hamlinellu yn **R1 (a,b,c)**, bydd y gwasanaeth angen i'r darparwr hyfforddiant sicrhau bod cynllunio wrth gefn o ran diogelwch a llesiant a'r risg o niwed, yn cael ei gynnwys.<br><br>Bydd cynllunio wrth gefn yn cael ei gynnwys yn natblygiad y prosesau sicrhau ansawdd rheoli achosion newydd **(R2 e)** i sicrhau cysondeb a monitro effeithiol. | Rheolwr Gwasanaeth<br><br>Rheolwyr Gweithredol ac Uwch Ymarferwyr | Hydref – Tachwedd 2024 |
| **d)** Yn ogystal, ni chafodd penderfyniadau a wnaed mewn paneli rheoli risg i gadw eraill yn saff, eu gweithredu'n brydlon bob amser. | Bydd y gwasanaeth yn adolygu gweithrediad a swyddogaeth y 'Panel Risg' gyda'r bwriad o wella penderfyniadau a bod y camau | Rheolwr Gwasanaeth | Mai 2024 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gweithredu yn cael eu cofnodi a bod y panel yn cyfrannu at reoli diogelwch a llesiant a'r risg o niwed, yn well. | Rheolwyr Gweithredol ac Uwch Ymarferwyr | |
| **e)** Nid yw trosolwg rheolwyr o ran gwaith diogelwch a llesiant, a'r risg o niwed, yn gyson. | Bydd y gwasanaeth yn datblygu proses a pholisi Sicrhau Ansawdd Newydd yn unol â Chanllawiau Rheoli Achosion YJB a chanfyddiadau Arolygiad HMIP;<br>• *Ymatal rhag troseddu (Desistance)*<br>• *Plentyn yn Gyntaf/Cryfderau*<br>• *Diogelwch a Llesiant*<br>• *Risg o Niwed*<br>• *Cynllunio wrth Gefn*<br>• *Cofnodi*<br>• *Dadansoddiad*<br>• *Deilliannau* | Rheolwr Gwasanaeth<br><br>Rheolwyr Gweithredol ac Uwch Ymarferwyr | Medi 2024 |
| **f)** Nid yw'r holl reolwyr wedi derbyn y lefel briodol o hyfforddiant, ar gyfer eu rôl neu gyfrifoldebau, yn y 12 mis diwethaf.<br><br>**g)** Nid yw pob aelod staff wedi cael gwerthusiad ffurfiol. | Bydd y gwasanaeth yn diweddaru'r Cynllun Hyfforddi Staff ac yn gwerthuso'r hyfforddiant rheoli i Reolwyr Gweithredol ac Uwch Ymarferwyr.<br><br>Bydd y gwasanaeth yn diweddaru'r Polisi Goruchwylio a Gwerthuso (wedi'i gynnwys yn Llawlyfr Canllaw Anwytho'r Gwasanaeth, **Parth 1 R2a**).<br><br>*Angen cyfeirio at Ganllawiau CG*<br><br>Bydd y Gwasanaeth yn adrodd bob blwyddyn i'r Bwrdd Rheoli Strategol ar Oruchwylio a Gwerthuso staff. | Rheolwr Gwasanaeth<br><br>Rheolwyr Gweithredol ac Uwch Ymarferwyr<br><br>Rheolwr Gwasanaeth<br><br>Rheolwyr Gweithredol ac Uwch Ymarferwyr | Hydref 2024<br><br>Chwefror 2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **h)** Ymyraethau penodol i ferched | Bydd y Gwasanaeth yn archwilio adnoddau o fewn y gwasanaeth sy'n targedu cefnogaeth i ferched yn benodol.<br><br>Bydd y gwasanaeth yn gwneud ymholiadau gyda chydweithwyr yng Nghymru a'r YJB a'r Fforwm Ymarfer Rhanbarthol, am arferion gorau o ran datblygu adnoddau gyda Merched.<br><br>Bydd y gwasanaeth yn ymgynghori â merched sy'n hysbys i'r gwasanaeth ynghylch y math o adnoddau a chefnogaeth fyddai'n cwrdd â'u hanghenion | Rheolwr Gwasanaeth<br>Rheolwyr Gweithredol ac Uwch Ymarferwyr<br><br>Rheolwyr achos a staff cefnogi.<br><br>Gweithiwr cyfranogi | Medi 2024. |

4.3

| **Maes ar gyfer gwella (Argymhelliad 4 - R4)**<br><br>**Rhannu â Pharth 3 (Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys - OoCD)** | **Gweithred** | **Pwy** | **Pryd** |
|---|---|---|---|
| a) Nid yw'r dysgu, datblygu a hyfforddiant hyd yma yn arwain at waith effeithiol a chyson i ymdrin â diogelwch a llesiant, a'r risg o niwed i eraill. | Bydd y gwasanaeth yn adolygu Cynllun Hyfforddi'r Gwasanaeth ac yn sicrhau bod hyfforddiant ar Ddiogelwch a Llesiant a Risg yn elfennau allweddol o'r Cynllun.<br><br>Cyfeiriwch at Barth 2 **R1 a,b,c** | Rheolwr Gwasanaeth<br>Rheolwyr Gweithredol ac Uwch Ymarferwyr | Mehefin-Gorffennaf 2024 |
| b) Mae angen rhagor o weithgarwch i lwyr gofleidio'r amrediad o nodweddion gwarchodedig sydd gan blant. | Bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu i staff a rheolwyr ar Nodweddion Gwarchodedig ac amrywiaeth/anghymesuredd.<br><br>Bydd ystyriaethau o ran gwneud penderfyniadau ar nodweddion | Rheolwr Gwasanaeth<br><br>Rheolwyr Gweithredol ac Uwch Ymarferwyr | Awst 2024 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gwarchodedig ac amrywiaeth yn cael eu cynnwys mewn adolygiad o'r Paneli Iechyd ac Addysg - data yn cael ei gasglu ar gyfer adrodd i'r Grŵp Rheoli Gweithredol a'r Bwrdd Rheoli Strategol. | | |
| c) Bu i ni adnabod methiannau i ystyried neu ymateb yn briodol i bryderon am ecsbloetio/cam-fanteisio ac rydym yn awgrymu bod hwn yn faes lle y mae angen rhagor o hyfforddiant arno, ynghyd â dealltwriaeth a ffocws gan y gwasanaeth. | Bydd y gwasanaeth yn gofyn i'r Swyddogion Arweiniol Cam-fanteisio ar Blant o'r ddwy Sir a Heddlu Gogledd Cymru i ddarparu sesiynau briffio / Hyfforddiant *'Exploitation and Extra Familial Harm'* i staff a rheolwyr y GCI, bydd hyn yn cynnwys;<br>• Ymwybyddiaeth ac Adnabod<br>• Proses ac Ymarfer y Panel Cam-fanteisio ar Blant<br>• Caethwasiaeth Fodern a'r Mecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol | Rheolwr Gwasanaeth<br><br>Rheolwyr Gweithredol ac Uwch Ymarferwyr | Mehefin 2024 |

5. <u>Parth 3</u> (**Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys**)

5.1

| **Maes ar gyfer gwella (Argymhelliad 3 - R3)** | **Gweithred** | **Pwy** | **Pryd?** |
|---|---|---|---|
| a) Nid oedd meysydd yn ymwneud â diogelwch a llesiant plant yn cael sylw amlwg yn y polisi. Sylw cyfyngedig oedd yn cael ei roi i anghenion llesiant, bregusrwydd a chanfyddiad y plentyn ynghylch ei bryderon/phryderon diogelwch. | Mae'r Gwasanaeth eisoes wedi cyflwyno'r isod, sy'n newydd:<br>• *Principles and Guidance for Prevention and Diversion (PaD) (Llywodraeth Cymru)* | Rheolwr Gwasanaeth<br><br>Rheolwyr Gweithredol ac Uwch Ymarferwyr | Mai 2024 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • *Case Management Standards for Prevention and Diversion (YJB)*<br><br>Bydd yr ymarfer yn cael ei ymgorffori yn llawn erbyn mis Mai 2024. | | |
| b) Nid oedd unrhyw ganllawiau i gefnogi ymarferwyr yn well i asesu, dadansoddi a chynllunio ar gyfer gwaith i gadw plant yn ddiogel a gwarchod eraill rhag niwed. | Bydd y gwasanaeth yn adolygu ac yn diweddaru'r Polisi Risg a Bregusrwydd i adlewyrchu ar fabwysiadu'r dogfennau PaD newydd a sicrhau bod staff yn gwbl ymwybodol o sut i ddiogelu a rheoli risg plant sy'n destun Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys. | Rheolwr Gwasanaeth<br><br>Rheolwyr Gweithredol ac Uwch Ymarferwyr | Gorffennaf 2024 |
| c) Nid oedd y teclyn asesu rhanbarthol yn darparu digon o fanylder i helpu ymarferwyr i gasglu a dadansoddi'r wybodaeth y maent ei hangen ar gyfer asesiadau effeithiol i gadw plant yn saff a gwarchod eraill rhag niwed. | Y teclyn cenedlaethol *Prevention and Diversion Assessment Tool* mandadol newydd wedi'i fabwysiadu gan y gwasanaeth ar 1 Ebrill 2024.<br><br>Hyfforddiant Cenedlaethol ddim ar gael hyd nes mis Medi-Hydref 2024.<br><br>Pob achos newydd<br><br>Cefnogaeth fewnol a chanllawiau yn cael eu darparu gan reolwyr ac uwch staff sydd â phrofiad o Asset+.<br><br>Bydd y Grŵp Rheoli Gweithredol yn cynnal archwiliad i sicrhau ansawdd. | Rheolwr Gwasanaeth<br><br>Rheolwyr Gweithredol ac Uwch Ymarferwyr<br><br>Aelodau'r Grŵp Rheoli Gweithredol (Archwiliad) | Wedi'i gwblhau yn rhannol ym mis Ebrill 2024<br><br>Hydref – Tachwedd 2024 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| d) Nid oedd unrhyw brosesau neu weithdrefnau craffu mewnol i sicrhau ansawdd y penderfyniadau a wneir. | Bydd y gwasanaeth yn ailsefydlu'r Panel Craffu Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys;<br>• Rheolwyr Gwasanaeth a Gweithredol<br>• Cadeirydd y Fainc o Ynadon<br>• Arolygydd Lleol (Heddlu Gogledd Cymru) | Rheolwyr Gwasanaeth a Gweithredol | Medi 2024 |
| e) Nid oedd trefniadau, yn cynnwys cynrychiolaeth staff gwasanaethau cymdeithasol ac addysg yn y Bureau, wedi'u hymgorffori hyd yma. | Mae cynrychiolwyr y Gwasanaethau Plant ac Addysg yn rhan o'r Paneli Dyrannu ac Adolygu Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys (Bureau); fodd bynnag, yn gynamserol i werthuso eu cyfraniad a'u profiad, bydd y gwasanaeth yn adolygu'r trefniadau hyn ac yn ymgynghori â'r Grŵp Rheoli Gweithredol a Heddlu Gogledd Cymru ynghylch datblygiadau pellach. | Rheolwr Gwasanaeth | Hydref 2024 |
| f) Ni roddwyd ystyriaeth ddigonol i gyflwyniad Deilliant 22. | Lansiodd Heddlu Gogledd Cymru a'r YJS Rhanbarthol y trefniadau ymarfer 'Second Chance' ym mis Mawrth 2024. Roedd yr ymarfer hwn yn cyflwyno Deilliant 22 fel opsiwn ar gyfer y Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys.<br>Mae'r ymarfer hwn yn y camau 'profi' cynnar; bydd y gwasanaeth yn darparu briff i'r Grŵp Rheoli Gweithredol a'r Bwrdd Rheoli Strategol ynghylch y cynnydd a'r problemau, ac yn parhau i gydweithredu â Heddlu Gogledd Cymru (Hwb Atal a'r OPCC) ar y datblygiad a'r cyflwyno. | Rheolwr Gwasanaeth<br><br>Rheolwyr Gweithredol ac Uwch Ymarferwyr | Parhaus (yn cael ei lywio'n rhannol gan gynllunio rhanbarthol a Hwb Atal Heddlu Gogledd Cymru) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Bydd y gwasanaeth yn darparu peth trosolwg a Sicrhau Ansawdd wrth ailsefydlu'r Panel Craffu Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys. | | |

6. <u>Ailsefydlu</u> **(Polisi a Gweithdrefnau)**

6.1

| Maes ar gyfer gwella (**Ailsefydlu**) | Gweithred | Pwy | Pryd |
|---|---|---|---|
| a) Ni roddwyd digon o sylw i gefnogi ymarferwyr i hyrwyddo diogelwch a llesiant plant (diogelu) a'r risg o niwed i eraill.<br>b) Nid oedd cwrdd ag anghenion dioddefwyr gwirioneddol a phosib yn glir yn y polisi.<br>c) Nid oedd unrhyw gyfeiriad at MAPPA yn y polisi.<br>d) Nid oedd y rhestr ddarllen sy'n cael ei hargymell wedi'i diweddaru i gynnwys gwybodaeth fwy cyfredol am amrywiaeth a meysydd ymarfer eraill sy'n ymwneud ag adsefydlu.<br>e) Ni roddwyd digon o sylw i nodweddion gwarchodedig ehangach. | Bydd y gwasanaeth yn creu Dogfen Ymarfer Adsefydlu newydd. Byddwn yn:<br>• Chwilio am arferion gorau yng Nghymru.<br>• Ail-gadarnhau gyda Chadeirydd ac Aelodau'r Grŵp Rheoli Gweithredol eu cyfrifoldeb i lunio Panel Adsefydlu pan fo'r angen.<br>• Ymgynghori â YJB Cymru ar y deunydd darllen a'r dogfennau polisi perthnasol.<br>• Sicrhau bod Amrywiaeth a Nodweddion Gwarchodedig yn cael eu cynnwys yn y ddogfen. | Rheolwr Gwasanaeth Rheolwyr Gweithredol ac Uwch Ymarferwyr<br><br>Grŵp Rheoli Gweithredol (Cadeirydd) | Mai 2024 |

7. <u>Siwrne'r Cynllun Gwella</u>

7.2 Wedi'i gymeradwyo gan Aelodau'r Bwrdd Rheoli Strategol ac wedi'i gyflwyno i HMIP a YJB ar 5 Ebrill 2024. Adborth gan HMIP ac ymateb erbyn diwedd mis Ebrill 2024.

7.3 Papur Cynllun Gwella HMIP i'w gyflwyno i gyfarfod y Bwrdd Rheoli Strategol ar 23 Ebrill 2024.

7.4 Cynllun Gwella HMIP i'w gyflwyno i Bwyllgorau Cabinet y Cynghorau ym mis Ebrill 2024.

7.5 Bydd Cynllun Gwella HMIP yn cael ei ymgorffori yng Nghynllun Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd a Môn (2024-25) ym mis Mehefin 2024. Bydd gweithrediad y camau gweithredu yn cael ei fonitro yng nghyfarfodydd chwarterol y Bwrdd Rheoli Strategol (YJB yn bresennol) a'r Grŵp Rheoli Gweithredol.

8. Llofnodi a Chwblhau

| Enw<br>Dynodiad | Llofnod | Dyddiad |
|---|---|---|
| ***Fôn Roberts***<br>Cadeirydd Bwrdd Rheoli GCI Gwynedd a Môn. |  | 08.04.2024 |
| ***Stephen Wood***<br>Rheolwr Gwasanaeth GCI Gwynedd a Môn. | | |

# Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd a Môn

## Ymgysylltiad a Deilliannau Ieuenctid

**Cyflwyniad a chrynodeb**

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar adborth gan bobl ifanc a ymgysylltodd â'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn 2024. Mae'n canolbwyntio ar farn pobl ifanc am eu hymgysylltiad â'r gwasanaeth a'u deilliannau.


Mewn gwaith ymchwil a gyhoeddwyd yn ddiweddar 'Child First? Examining children’s perspectives of their effective collaboration with youth justice decision making’ Rhagfyr 2024, mae Kathy Hampson (Ysgol y Gyfraith Aberystwyth) et al yn pwysleisio bod 'cyfranogiad ac ymgysylltu â phrosesau cyfiawnder ieuenctid yn hanfodol, yn enwedig gan fod y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid wedi mabwysiadu Cyfiawnder Plant yn Gyntaf fel ei egwyddor arweiniol a'i amcan strategol allweddol. Mae Plentyn yn Gyntaf yn fframwaith sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer gweithio gyda phobl ifanc sy'n ymgorffori pedair egwyddor: gweler plant yn blant; datblygu hunaniaeth rhag-gymdeithasol ar gyfer deilliannau cadarnhaol i'r plentyn; cydweithio â phlant, a hyrwyddo dargyfeirio o'r system gyfiawnder'.

Mae'r adborth gan bobl ifanc am eu profiad o weithio gyda'r GCI yn dangos sut mae'r egwyddorion Plentyn yn Gyntaf yn cael eu bodloni.

- Mae pobl ifanc yn cadarnhau'n gryf eu hymdeimlad o weithio ar y cyd a bod eu 'llais' yn cael ei barchu ac yn derbyn ymateb. Maent yn disgrifio'r profiad hwn yn eu geiriau eu hunain fel a ddyfynnir yn yr adroddiad.
- Mae pobl ifanc hefyd yn gadarnhaol am eu dysgu a newid agweddau ac ymddygiad. Maent yn gallu disgrifio'r newidiadau hyn yn eu geiriau eu hunain. Mae tystiolaeth o ddatblygiad ymddygiadau rhag-gymdeithasol a symud i ffwrdd o'r system gyfiawnder.


Yn eu hadborth, maent yn nodi'r prif broblemau y maent yn eu hwynebu yn y gymuned. Mae bod â 'dim i'w wneud' yn cael ei ystyried fel problem ac mae yna enghreifftiau o sut mae gweithio gyda'r GCI wedi rhoi pethau newydd iddyn nhw eu gwneud... ac ymddygiadau i'w hosgoi.

**Gest ti gyfle i ddweud beth roeddet ti eisiau ei ddweud yn dy Gynllun Ymyrraeth? (Gafodd dy lais ei glywed?)**




| | | | |
|---|---|---|---|
| 30 | 90.91% | Yes, always | Do, bob amser |
| 2 | 6.06% | Usually | Fel arfer |
| 1 | 3.03% | Not at all | Na, ddim o gwbl |

**Oedd y Cynllun Ymyrraeth yn cynnwys pethau oedd yn bwysig i ti?**




| | | | |
|---|---|---|---|
| 27 | 81.82% | Yes, completely | Oedd, yn llwyr |
| 4 | 12.12% | Mostly | Gan amlaf |
| 2 | 6.06% | Not much | Ddim llawer |

**Oeddet ti'n deall beth oedd yn rhaid i ti ei wneud fel rhan o dy Gynllun Ymyrraeth?**



| | | | |
|---|---|---|---|
| 23 | 69.70% | Yes, completely | Oeddwn, yn llwyr |
| 9 | 27.27% | Mostly | Gan amlaf |
| 1 | 3.03% | Not really | Nag oeddwn |

## Wyt ti'n teimlo bod dy lais wedi cael ei glywed trwy gydol dy amser gyda'r GCI?




| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Blue | 22 | 75.86% | Yes, completely | Ydw, yn llwyr |
| Red | 6 | 20.69% | Most of the time | Y rhan fwyaf o'r amser |
| Green | 1 | 3.45% | Some of the time | Rywfaint o'r amser |

## Rho enghraifft o pryd y cest ti ddweud dy farn am yr hyn oedd yn digwydd


| | |
|---|---|
| Mi helpodd Llinos fi ynglŷn ag ysgrifennu llythyr gan fy mod i'n meddwl ei fod o'n dda i'w wneud a fy ngwaith gyda Barry ro'n i bob amser yn cael rhoi fy marn ar beth oedd yn cael ei ddweud | Pan wnes i siarad efo Llinos a chael sgwrs iawn am hynny |
| pan oeddwn i a Barry yn siarad yn ein hapwyntiadau | Yn y assessments |
| Pan oeddwn i efo Llinos a ges i sgwrs am yr hyn roeddwn i wedi'i wneud a dysgu o hynny | pan oeddwn i eisiau mynd i'r gampfa |
| Felly pan ddechreuon ni gyntaf ac roeddech chi'n deall fy safbwynt ar pam y gwnes i hynny | Yn cael fy ngweld yn yr ysgol weithiau |
| Pan ofynnais am weithiwr YOTS benywaidd yn fy asesiad | Yn gwrando ar beth oedd yn digwydd y tu allan i'r ysgol |
| yn fy apwyntiadau | Pan oedd ni siarad mewn apwyntiad, oedd chi yn gwrando arna fi |
| Mi ofynnwyd i mi oeddwn i eisiau siarad am bethau yn ystod cyfarfodydd, a gofyn sut dwi'n teimlo a phethau. | Cyfarfod RJ |
| Bob tro roeddwn i'n CYFARFOD EFO UN O'R STAFF, roeddwn i'n gallu esbonio fy sefyllfa. | Pan wnaethon ni siarad am sut y gall o effeithio ar fy nyfodol |
| apwyntiad efo Barry | pan ges i fy nghyhuddo o rywbeth nad oeddwn i wedi'i wneud |
| BOB TRO GOFYN OS OEDD GENAI CWESTIYNAU | Fy marn i am y stori astudiaeth achos |
| Cael cyfarfod efo Gyrfa Cymru - dweud wrthyn nhw beth ydw i eisiau'i wneud yn y dyfodol | BOB TRO DWI'N EICH GWELD CHI |
| Pan ofynnais i gael mynd i bysgota gan ei fod o'n rhywbeth rydw i wedi bod eisiau ei wneud erioed | dim ond efo fy ymddygiad |
| fe wnaethoch chi ei esbonio fo'n dda i fi a wnaeth o fy helpu lot fawr | Yn ystod cyfarfod y Panel mi ofynnwyd i mi beth fyddai'n fy helpu fwyaf, ac roedd Llinos Evans yn aml yn gofyn beth fyddai'n fy helpu a sut roeddwn i eisiau i sesiynau redeg. |
| Ein hapwyntiadau | Mi ofynnwyd i mi yn lle fyswn i'n hoffi gwneud iawn |
| Cynhadledd RJ | |

## Ydi'r cynllun ymyrraeth wedi helpu dy feddwl a dy ymddygiad di?



| | | | |
|---|---|---|---|
| Blue | 1 | 3.45% | 0 |
| Green | 1 | 3.45% | 40 |
| Yellow | 3 | 10.34% | 60 |
| Cyan | 8 | 27.59% | 80 |
| Orange | 16 | 55.17% | 100 |

**Wnest ti ddysgu unrhyw beth o dy amser efo'r GCI?**



| | | | |
|---|---|---|---|
| | 12 | 41.38% | Yes, lots |
| | 15 | 51.72% | Yes, some |
| | 2 | 6.90% | Not much |

Do, llawer
Do, rywfaint
Dim llawer

**Rho enghreifftiau os gweli'n dda** *sut y gall ychydig bach effeithio ar rywun - llawer wedi'i ddysgu*

*sut y gall effeithio ar fy nyfodol, er enghraifft yr holl yswiriant*

*meddwl cyn gwneud, does dim rhaid i fi wneud popeth mae fy ffrindiau yn ei wneud*

*meddwl cyn gwneud*

*be gallu digwydd i fi, a empathy*

*Wnaethon nhw fy helpu fi i feddwl am ganlyniadau. Wnaethon nhw fy helpu fi i sylweddoli bod yfed a phethau yn ychwanegu ataf fi'n mynd i drwbwl.*

*Wnaeth o i mi feddwl cyn gwneud rhywbeth*

*Ro'n i'n gwybod bod y ffordd o'n i'n bihafio allan o'i le, felly roeddwn i'n gwybod fy mod yn gwneud yn anghywir peryglon smocio canabis*

*Deall beth fyddai'n digwydd os byddai gen i record droseddol gwaith gwytnwch, cofnod troseddol*

*chwarae gwyddbwyll - datrys problemau*

*gofynnodd fy ffrind i mi fynd i yfed, ac fe wnes i feddwl am y peth a dweud na*

*ffordd dwi meddwl*

*dysgu am meddwl yn well*

*sut y gall effeithio ar fy nyfodol*

*pan es i i'r Garej*

*Canlyniadau.*

*PEIDIO BOD YN DDRWG*

*sut i ymddwyn, a sut y gall hyn effeithio ar dy ddyfodol*

*Effaith ar ddioddefwyr. Hefyd, gwybodaeth gyrru - mae'n anghyfreithlon defnyddio dy ffôn symudol i dalu wrth fynd trwy 'drive through'.*

*Mae gwaith gwytnwch wedi bod yn dda - mi fydd yn helpu yn y dyfodol*


*Dysgu lle wnes i fynd o'i le y diwrnod hwnnw, a sut i reoli sefyllfaoedd anodd yn y dyfodol. Dwi wedi tawelu rŵan.*

*Dysgu bod fy ngweithredoedd yn cael canlyniadau nid yn unig arnaf fi fy hun, ond ar bobl o fy nghwmpas*

*Peidio bod yn ddrwg ar y strydoedd*

*Peidio cwffio*

**Beth ydi'r prif broblemau mae pobl ifanc yn eu hwynebu yn dy gymuned?**



| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 11 | 22.00% | Anti-Social Behaviour | Ymddygiad gwrthgymdeithasol |
| | 8 | 16.00% | No Youth Clubs | Dim Clybiau Ieuenctid |
| | 22 | 44.00% | Nothing to do | Dim i'w wneud |
| | 2 | 4.00% | Their future | Eu dyfodol |
| | 3 | 6.00% | Local services | Gwasanaethau lleol |
| | 2 | 4.00% | Transport | Cludiant |
| | 2 | 4.00% | Other [type in Notepad] | Arall [teipiwch yn Notepad] |

# GWASANAETHAU CYFIAWNDER IEUENCTID GWYNEDD MÔN
# GWYNEDD MÔN YOUTH JUSTICE SERVICES

| | |
|---|---|
| **Adrodd i:** | **Bwrdd Rheoli GCI** |
| **Dyddiad:** | **26 Mawrth 2025** |
| **Swyddog yn Adrodd:** | **Stephen Wood** |
| **Testun:** | **Diweddariad Dangosyddion Perfformiad Allweddol GCI** |

## 1. <u>Pwrpas yr adroddiad a chynnwys</u>

1.1 Mi fydd y Bwrdd yn ymwybodol o'r materion a wynebir gan y gwasanaeth a'r BCI o ran datblygu a gweithredu'r DPA newydd, mae problemau'n parhau ac mae angen sicrhau bod pawb yn cael golwg ar y materion, a'r cynnydd sy'n cael ei wneud.

1.2 Bydd yr adroddiad cryno hwn yn hysbysu'r Bwrdd ar:

- pwrpas a pharamedrau Dangosyddion unigol.
- ein perfformiad ar 31 Rhagfyr 2024 (YDS 121).
- Gwaith adfer a datblygu cynlluniedig.

*<u>Gweler atodiad PDF DPA Tableau C3 er gwybodaeth.</u>*

## 2. <u>Adolygiad Perfformiad DPA</u>

2.1 <u>DPA 1 Llety Addas</u>

Mae'r DPA Llety Addas yn edrych ar y math o lety ac addasrwydd y llety ar ddechrau a diwedd y gorchymyn yn ôl y math o orchymyn. Yn ogystal, ar gyfer y rhai sy'n gadael y ddalfa, mae'n edrych ar ba mor bell ymlaen llaw y sicrhawyd llety. Mae'n ofynnol i GCI gofnodi nifer y plant yn y gymuned sydd yn cael eu rhyddhau o'r ddalfa i drefniadau llety **addas** neu **anaddas.**

- O'r 32 achos a gaewyd yn y 3ydd chwarter roedd 30 mewn llety addas (94%)
- Dros y 12 mis hyd at Ragfyr 2024 ein sgôr cyfartalog ar gyfer y 144 o achosion a gaewyd yw 87%.
- Perfformiad **DA** ar y cyfan.

2.2 DPA 2: *Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth*

Mae'r DPA Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth (ETE) yn edrych ar nifer a chyfran y plant mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn ôl addasrwydd, math o ddarpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth a math o orchymyn ar gyfer plant oedran ysgol a phlant hŷn nag oedran ysgol a faint o oriau a gynigiwyd ac a fynychwyd.

- O'r 32 achos a gaewyd yn Chwarter 3, roedd 19 mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth addas (59%).
- Dros y 12 mis hyd at Ragfyr 2024 ein sgôr gyfartalog ar gyfer y 144 o achosion a gaewyd yw 58%.
- Perfformiad GWAEL ar y cyfan.
- Ychydig yn is na chyfraddau Rhanbarthol a Chenedlaethol, ond mae cymariaethau'n anodd.

2.3 DPA 3: *Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau (AAAA) ag Anghenion Dysgu Ychwaengol (ADY)*

Mae’r DPA Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau (SEND)/Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn edrych ar nifer y plant ag AAA ar gyfer Lloegr neu ADY ar gyfer Cymru yn ôl y math o orchymyn, ag a oes ganddynt gynllun ffurfiol ar waith ac a ydynt mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth addas.

- O'r 4 plentyn a nodwyd ag ADY yn y 3 Chwarter diwethaf, mae 3 wedi cael cynllun ffurfiol ac mewn addysg briodol, 75%.
- Byddwch yn sylwi fod 2 Chwarter heb unrhyw wybodaeth, roedd hwn yn gyfnod pan oeddem yn newid ein dulliau cofnodi ac roedd gwybodaeth wedi'i cholli.
- Er bod y perfformiad yn edrych yn DDA, y broblem sydd gennym gyda'r dangosydd hwn yw gyda'r plant hynny sy'n aros am asesiad neu sydd ag angen heb ei ganfod.
- Yn ogystal, rydym yn parhau i weithio gyda thîm data'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i wella cywirdeb ein data.

2.4 DPA 4: *Iechyd Meddwl a Lles Emosiynol*

Mae'r DPA hwn yn ei gwneud yn ofynnol i GCI gofnodi faint o blant sy'n cael eu sgrinio neu eu hasesu i ddeall eu hanghenion iechyd meddwl a lles emosiynol.

Ar gyfer plant sydd eisoes mewn trefniant i gefnogi eu hiechyd meddwl a'u lles emosiynol, mae'r ffurflen yn gofyn am gael gwybod a oes cymorth mewn lle.

- Dim gwybodaeth/data ar gael ar hyn o bryd, mae'r DPA a’r casgliad data yma wedi profi i fod y mwyaf problematig i Wasanaethau a'r GCI.
- Mae'r gwasanaeth yn parhau i ddilyn ein hanghenion Iechyd Meddwl a Lles Emosiynol drwy ein Panel Iechyd mewnol (cyfarfodydd bob pythefnos) dan

arweiniad ein cydweithwyr Iechyd a CAMHS, mae plant yn cael eu sgrinio a'u hasesu lle nodir anghenion.
- Mae GCI yn parhau i weithio gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i fynd i'r afael â materion.
- Statws perfformiad Anhysbys!

2.5 DPA 5: *Camddefnyddio Sylweddau*

Mae'r DPA hwn yn ei gwneud yn ofynnol i GCI gofnodi nifer y plant sydd ag angen wedi'i sgrinio neu wedi'i nodi am ymyriad neu driniaeth i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau ac o hynny, nifer y driniaeth wedi'i chynllunio/cynnig a nifer y plant sy'n mynychu ymyriad/triniaeth.
Bydd rhai plant ar lwyth achosion y GCI eisoes yn cael cymorth ar ddechrau eu gorchymyn. Mae'r DPA hwn yn ei gwneud yn ofynnol i GCI gofnodi lle mae hyn yn wir. Bydd hyn yn llywio dealltwriaeth o angen heb ei ddiwallu sydd gan blant ar y llwyth achosion.

- • O'r 32 achos a gaewyd yn y 3ydd Chwarter roedd 7 (22%) angen asesiad a thriniaeth ar lefel Haen 2 neu uwch.
- • O'r 144 a gaewyd yn y 12 mis hyd at Ragfyr, roedd angen asesiad a thriniaeth ar 14% neu 20 o blant.
- Mae ein perfformiad 12 mis ychydig yn is o gymharu â lefelau cenedlaethol, oherwydd cofnodi data anghywir neu anghyflawn yn y 2 chwarter cyntaf, mae hyn bellach wedi'i gywiro, amcangyfrifwn fod ein perfformiad yn nes at 16-20%, byddwn yn parhau i fonitro newid a chywirdeb.
- Mae’r gwasanaeth yn elwa’n fawr o weithio o’r un lleoliad â Be di’r Sgôr sy’n caniatáu fod cyfeiriadau’n digwydd yn gyflym ac yn effeithiol drwy ein Panel Iechyd.
- Mae ein hyder yn y set ddata hon yn cynyddu, rydym yn asesu bod y DPA hwn yn gwella.

2.6 DPA 6: *Penderfyniadau y tu allan i Lys*

Mae'r DPA hwn yn ei gwneud yn ofynnol i GCI gofnodi: nifer y plant ag ymyriadau sy'n dod i ben yn y cyfnod, nifer y plant a gwblhaodd y rhaglenni ymyrraeth yn y chwarter a nifer y plant na chwblhaodd rhaglenni ymyrraeth yn y chwarter.

- Yn y 3ydd chwarter fe wnaethom gyflawni cyfradd cwblhau lwyddiannus o 80%, mae hyn ychydig yn is na'r chwarteri blaenorol, yn bosibl oherwydd y niferoedd uchel o gyfeiriadau a llwyth achosion (bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn Chwarter 4 ac yna Chwarter 1 o 2025-26.
- Mae ein perfformiad o ran cwblhau’n llwyddiannus yn DDA, rydym wedi cyflawni cyfraddau llwyddiant o 88% dros y 12 mis hyd at Ragfyr 2024.
- Dylem gymryd i ystyriaeth y bydd cwblhau rhai ymyriadau llwyddiannus y tu allan i baramedrau arferol, mae'n cymryd mwy na 3 mis i ni eu cwblhau ar rai ymyriadau oherwydd daearyddiaeth / logisteg teithio.

2.7 DPA 7: *Gwasanaethau Ehangach*

Mae’r DPA hwn yn ei gwneud yn ofynnol i GCI gofnodi plant sy’n cael eu dosbarthu fel plentyn sydd â phrofiad o ofal ar hyn o bryd (a adwaenir mewn statud fel ‘Plentyn sy’n Derbyn Gofal’), ‘Plentyn mewn Angen’ neu sydd ar ‘Gynllun Amddiffyn Plant’, ‘Cynllun Ymyrraeth Gynnar’ neu sy’n cael eu cyfeirio at wasanaethau Cymorth Cynnar.
Mae cofnodi'r data hwn yn annog gwasanaethau i gydweithio i gydlynu cymorth a roddir i blant o fewn yr awdurdod lleol.

- Roedd 3 o'r 32 o blant a gaewyd yn hysbys i wasanaethau ehangach, 9%.
- Am y cyfnod Ionawr i Ragfyr 24, o'r 144 o blant roedd 23 o blant yn hysbys i wasanaethau ehangach a chyfartaledd o 16%.
- Mae ein perfformiad yn debyg i'r GCI yn y rhanbarth ond ychydig yn is na'r cyfartaleddau Cenedlaethol.
- Rydym yn ansicr o'n cofnodion ein hunain yn y maes hwn, (mae staff wedi derbyn hyfforddiant pellach yn y maes data hwn yn ddiweddar) gan nad yw terminoleg yn ein system rheoli achosion yn cyfateb i gategorïau System Gofal Cymru.
- Rydym yn asesu ein perfformiad fel ei fod yn Gwella.

2.8 DPA 8: *Presenoldeb Bwrdd Rheoli*

Mae'r DPA hwn yn ei gwneud yn ofynnol i GCI gofnodi nifer yr uwch bartneriaid sy'n mynychu'r cyfarfodydd chwarterol, ac o'r uwch bartneriaid hynny cyflwynwyd data a oedd yn nodi ymhle roedd anghymesuredd.

Yn unol â Thelerau ac Amodau grant, bydd yn ofynnol i fyrddau rheoli gyfarfod bob chwarter. Ni fydd presenoldeb bwrdd rheoli yn cael ei integreiddio i'r system rheoli achosion. ***Felly mae'n ofynnol i GCI fewnbynnu presenoldeb â llaw i'r templed***. Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn monitro'r data hwn i sicrhau bod y data hwn yn gywir.

- Sylwch nad oeddem yn gallu newid y cofnod data ar gyfer Chwarter 2 a ddylai ddarllen 3 nid 2, ein gwall ni.
- Gwasanaeth Prawf a’r Heddlu yn absennol o Chwarter 1.
- Gwasanaeth Prawf yn absennol o Chwarter 2.
- Gwasanaeth Prawf a’r Heddlu yn absennol o Chwarter 3.
- Perfformiad GWAEL

2.9 DPA 9: *Trais Difrifol*

Mae'r DPA hwn yn ei gwneud yn ofynnol i GCI gofnodi plant a rybuddiwyd neu a gafwyd yn euog o Drais Difrifol ar lwyth achosion y GCI.
At ddibenion y DPA hwn, cofnodir Trais Difrifol yn unol â diffiniad y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid fel unrhyw drosedd cyffuriau, lladrad neu drais yn erbyn person sydd â sgôr difrifoldeb o bump neu fwy sy'n arwain at rybuddiad neu ddedfryd llys.

- Mae data'n cael ei dynnu'n uniongyrchol o'r System Rheoli Achosion a gofnodwyd oddi wrth hysbysiad gan yr heddlu/llys, ychydig iawn o le i gamgymeriadau.
- Mae ein cyfraddau'n isel o gymharu â pherfformiad cenedlaethol.
- Mae'r gyfradd yn ôl 10,000 o'r boblogaeth.
- 5 trosedd yn Chwarter 3 sy'n arwain at gyfradd o 3 fesul 10,000.
- 7 trosedd ar draws y 12 mis, perfformiad anodd ei sgorio.

2.10 DPA 10: *Dioddefwyr*

Mae'r DPA hwn yn edrych ar nifer y dioddefwyr o ganlyniad i droseddau a gyflawnwyd gan blant ar lwyth achosion y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, y nifer y cysylltwyd â hwy, a'r nifer a gymerodd ran mewn cyfleoedd cyfiawnder adferol yn ogystal â'r rhai a ofynnodd am ragor o wybodaeth a chymorth ac a gafodd gymorth.

- Dim data ar gael, mae’r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn gweithio i gywiro'r set ddata hon, problem genedlaethol.

## 3. Argymhellion

3.1 Mae gwell darlun o ran cofnodi ac adrodd ar DPA Cyfiawnder Ieuenctid, ond mae gwaith yn parhau gyda Gweithdai Data pellach wedi'u cynllunio gyda Thîm Data YJD, Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid a staff WIOG.

3.2 Bydd y gwasanaeth yn cynhyrchu DPA Perfformiad Cyfiawnder Ieuenctid ym mhob Bwrdd Rheoli (heb ddisgrifyddion) i fonitro newid.

3.3 Mae’r gwasanaeth yn gofyn i’r Bwrdd Rheoli ddewis 2 DPA fesul cyfarfod ar gyfer dadansoddiad dwfn o yrwyr perfformiad.

3.4 Amlinellir y newidiadau drafft diwygiedig i fesurau DPA Cyfiawnder Ieuenctid yn Atodiad 1, (gweler isod).

DRAFT_OFFICIAL_SENSITIVE_KPI refineme

# GWASANAETHAU CYFIAWNDER IEUENCTID GWYNEDD MÔN
# GWYNEDD MÔN YOUTH JUSTICE SERVICES

**Adroddiad i:** **Bwrdd Rheoli'r GCI**

**Dyddiad:** **Mehefin 25ain, 2025**

**Swyddog yn Adrodd:** **Stephen Wood**

**Testun:** **Archwiliad Sicrwydd Ansawdd (Asesiad Mai 2025)**

## 1. Diben yr adroddiad a'r cynnwys

1.1 Rhoi gwybodaeth i'r Bwrdd Rheoli am sut y cynhaliwyd yr Archwiliad Sicrwydd Ansawdd.

1.2 Rhoi gwybodaeth i'r Bwrdd Rheoli am ganlyniadau'r Archwiliad.

1.3 Esbonio sut y bydd y gwasanaeth yn defnyddio canlyniadau'r archwiliad er mwyn effeithio ar newid/gwelliant.

## 2. Cyd-destun

2.1 Cynhelir sicrwydd ansawdd rheoli achosion gan reolwyr wrth gasglu gwybodaeth ac ar bob asesiad wedi'i gwblhau, gydag adborth ffurfiol yn cael ei roi i reolwyr achosion ar gyfer newidiadau a gwelliannau.

2.2 Nododd ein Harolygiad HMIP ym mis Tachwedd 2023 fod gwelliannau i'w gwneud yn ein gwaith asesu a chynllunio yn y meysydd canlynol;

- *Diogelwch a Lles*
- *Risg o Niwed*
- *Cynllunio Wrth Gefn*
- *Tystiolaeth o ddadansoddiad proffesiynol*

2.3 Yn ogystal, bu newidiadau a gofynion sylweddol i'n prosesau asesu gyda chyflwyniad *Offeryn Asesu Atal a Dargyfeirio Gorfodol y BCI* ym mis Medi 2024. Mae'r asesiad newydd hwn yn sylweddol fwy ac yn fwy cynhwysfawr na'r asesiad Atal blaenorol.

2.4 Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae aelodau'r Bwrdd wedi cael eu diweddaru'n rheolaidd am yr hyfforddiant a gomisiynwyd a ddarparwyd i staff, roedd yr hyfforddiant hwn yn ymateb i ganfyddiadau HMIP a'n Cynllun Gweithredu;

- **Risg o Niwed (RoN)** Mae hyfforddiant wedi'i gomisiynu gan Silver Bullet (darparwr Cyfiawnder Ieuenctid hir sefydlog) ym mis Medi a mis Hydref 2024 i staff a rheolwyr.
- Mae **Diogelwch a Lles** hefyd wedi'i gomisiynu gan Silver Bullet fel rhan o Hyfforddiant Cynllunio Asesu, Ymyrraeth a Goruchwylio. Bydd y ddau set o hyfforddiant yn cynnwys **Cysondeb Cofnodi** a **Chynllunio Wrth Gefn**.
- Mae Dr Kathy Hampson wedi cytuno i gyflwyno hyfforddiant ar **Sgiliau Dadansoddi a Chofnodi**, bydd yr hyfforddiant hwn yn digwydd ym mis Hydref a mis Tachwedd 2024.
- Derbyniodd pob rheolwr ag aelod o staff sy'n rheoli achosion **hyfforddiant MAPPA** ym mis Ionawr 2024 a Mawrth 2025 gan gydlynydd lleol yr NPS, sydd bellach yn hyfforddiant gorfodol.

2.5 Bydd canlyniadau'r Archwiliad yn cael eu cynnwys yn ein Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid 2025-26 a byddwn yn diweddaru ein Cynllun Gweithredu'r HMIP, gan ddarparu tystiolaeth o gynnydd ar gamau gweithredu.

2.6 Mae dau brif asesiad yn cael eu cwblhau gan y gwasanaeth sy'n sail i'r holl waith cynllunio, diogelu, ymyriadau a rheoli risg a wnawn gyda phlant;

- **Offeryn Asesu Atal a Dargyfeirio** (a gyflwynwyd ym mis Medi 2024). Defnyddir yr asesiad hwn ar gyfer pob achos lle mae penderfyniad ffurfiol y tu allan i'r llys i'w gyflawni, mae'n asesiad gorfodol gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid/MoJ bellach.
- **AssetPlus** (mae'r fersiwn gyfredol wedi bod mewn defnydd ers 10+ mlynedd) fe'i defnyddir ar gyfer pob gorchymyn llys, Adroddiad Cyn-Dedfrydu ac fe'i defnyddir ar gyfer Rhybuddion Amodol Ieuenctid. Asesiad gorfodol YJB/MOJ.

## 3. <u>Y Broses</u>

3.1 Crëwyd rhestr hir o samplau o'n System Gwybodaeth Reoli (*ChildView*) o'r holl Asesiadau AssetPlus a gwblhawyd gan y gwasanaeth yn y cyfnod rhwng 1af Ebrill 2024 – 31ain Mawrth 2025 (**24**)

3.2 Crëwyd rhestr sampl hir o ChildView o'r holl Asesiadau Atal a Dargyfeirio a gwblhawyd gan y gwasanaeth yn y cyfnod rhwng 1af Medi 2024 – 31ain Mawrth 2025 (*82*)

3.3 Er mwyn diduedddrwydd a thryloywder, cwblhawyd dewis achosion archwilio gan aelodau o Grŵp Rheoli Gweithredol y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Rhoddwyd sampl hir ddienw iddynt a gofynnwyd iddynt ddewis achosion ar sail rhyw, rheolwr achos, a lefel risg.

- **7 –** sef nifer o achosion AssetPlus a ddewiswyd **(29%)**
- **14** – sef nifer o achosion Asesiadau Atal a Dargyfeirio a ddewiswyd **(17%)**

3.4 Gan ddefnyddio'r offer Archwilio Asesu a argymhellir gan y BCI, mae'r gwasanaeth wedi gweithio gyda Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid eraill i greu Offer Archwilio pwrpasol, gweler **atodiadau 1 a 2**. Mae'r offer yn cynnig systemau sgorio ar gyfer cwblhau meysydd o'r asesiad a chyfle ar gyfer sgorio ychwanegol a nodiadau ar ansawdd a dadansoddi tystiolaeth.

3.5 Yng nghyfarfod Grŵp Rheoli Cyffredinol YJS ar 30 Ebrill, cytunwyd ar ddyddiadau 29 a 30 Mai gan yr aelodau i gwblhau'r Archwiliadau, cytunodd yr aelodau hefyd i ddarparu goruchwyliaeth ychwanegol i'r Archwiliadau trwy ymuno â ni fel *ffrindiau beirniadol*. (**Gweler atodiad 3**)

3.6 Manteisiodd Rheolwr y Gwasanaeth ar y cyfle i samplu canlyniadau archwiliadau ar ôl eu cwblhau, y nod oedd sicrhau cysondeb sgoriau archwilio ar draws y ddau sampl. Samplwyd 6 achos; 3 AssetPlus a 3 Atal a Dargyfeirio.

## 4. Canlyniadau

4.1 Cyfeiriwch at Dabl Canlyniadau **Atodiad 4**

4.2 Tabl 1 (canfyddiadau)

| Asset+ | Da Iawn | Da | Angen Gwella | Annigonol |
|---|---|---|---|---|
| **7** | 3 | 4 | 0 | 0 |
| Atal a Dargyfeirio | | | | |
| **14** | 5 | 7 | 2 | 0 |
| | | | | |
| **Cyfanswm** | **8** | **11** | **2** | 0 |

***Noder.***
*Yn ystod ymarfer gwirio sgorio a gynhaliwyd gan Reolwr y Gwasanaeth, daeth yn amlwg bod yr offeryn archwilio wedi gor-sgorio asesiadau oherwydd gwallau wrth ddatblygu'r offeryn. Newidiwyd y system sgorio, a chanlyniad hynny oedd lefelau sgôr is (a mwy cywir) ar gyfer rhai asesiadau.*

4.3 Archwiliwyd **20%** o gyfanswm yr Asesiadau a gwblhawyd yn ystod y cyfnod..

4.4 Nid oedd unrhyw asesiad o safon ***Annigonol***, a dim ond 2 asesiad Atal a Dargyfeirio oedd o safon ***Angen Gwella***.

4.5 Roedd **38%** o'r asesiadau a archwiliwyd o safon ***Dda Iawn*** ac roedd **52%** yn sgorio'n ***Dda***.

4.6 Mae staff sy'n cwblhau Asset+ wedi bod yn cwblhau'r asesiadau hyn ers cyfnod sylweddol o amser, maent wedi profi archwiliadau blaenorol ac wedi cwblhau 1 neu fwy o Arolygiadau HMIP. Mae gan y mwyafrif gymwysterau proffesiynol (Gweithiwr Cymdeithasol, Prawf).

4.7 Mae staff sy'n cwblhau asesiadau Atal a Dargyfeirio yn newydd i gwblhau asesiadau cynhwysfawr, a dim ond ym mis Medi 2024 y cyflwynwyd yr asesiad Atal a Dargyfeirio i staff, a darparwyd hyfforddiant. Nid oes gan y mwyafrif gymhwyster proffesiynol, er bod gennym 2 athro cymwys yn gweithio yn y tîm hwn.

4.8 Mae'r canfyddiadau cyffredinol yn dda ac yn dangos safon uchel o safon asesu o fewn y gwasanaeth. Mae nifer o faterion a nodwyd yn ein Harolygiad HMIP (Tachwedd 2023) sy'n parhau;

Anghenion Gwasanaeth

- Nid yw sgiliau Dadansoddi Proffesiynol wedi'u hymgorffori'n effeithiol yn y gwasanaeth.
- Mae cynllunio wrth gefn yn parhau i fod yn wan i rai staff.
- Mae cofnodi Diogelwch a Llesiant a Risg o Niwed wedi gwella, fodd bynnag mae tystiolaeth nad yw rhai staff yn defnyddio gwybodaeth o wasanaethau ehangach yn llawn nac yn cynnwys yr elfennau hyn ym mhob agwedd ar yr asesiad.
- • Mae esboniadau a chyfrifon, ar adegau, yn parhau i gael eu gyrru gan naratif ac nid ydynt yn dangos gallu'r rheolwyr achos i ddeall natur ymddygiad y plentyn a'r rhesymau posibl dros hyn.

Staff Unigol

- Nid oedd cofnodi 'Llais y Plentyn' bob amser yn adlewyrchu llais y plentyn, geiriad y trydydd person, ac roedd o ansawdd anghyson.
- Roedd gwallau sillafu a gramadeg yn rhy gyffredin, gyda gwallau teipio yn cyfrannu at ddryswch.
- Roedd gan asesiadau Atal a Dargyfeirio a gwblhawyd yn y cyfnod Medi-Hydref 2024 nifer sylweddol o adrannau anghyflawn (blychau heb eu ticio).
- Tystiolaeth o asesiadau brysiog a 'blinder asesu', (mae adrannau diwedd asesiadau o ansawdd gwaeth na'r adrannau cynharach).
- Tystiolaeth o wybodaeth 'Copy-Paste' o ddogfennau allanol eraill.

## 5. Argymhellion

5.1 Bydd rheolwyr yn adolygu canlyniadau archwiliadau asesu gyda staff unigol o dan oruchwyliaeth, gyda chynlluniau gweithredu unigol yn cael eu creu.

5.2 Bydd rheolwyr yn adolygu ein Hofferynnau Archwilio Sicrhau Ansawdd, yn mynd i'r afael â materion a nodwyd yn ystod y broses archwilio ac yn ymateb i rywfaint o'r adborth gan archwilwyr allanol. Byddwn yn cynnwys Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru yn y broses hon.

5.3 Bydd y gwasanaeth yn comisiynu hyfforddiant staff pellach ar gyfer *Sgiliau Dadansoddi* a *Chynllunio Wrth Gefn*.

5.4 Bydd y gwasanaeth yn trefnu sesiynau archwilio gan gymheiriaid i staff gan ddefnyddio'r Offeryn Archwilio diwygiedig.

5.6 Bydd y gwasanaeth yn creu offeryn sicrhau ansawdd byr ar gyfer adborth cyffredinol i staff, i'w ddefnyddio lle bo angen yn ystod y camau Dechrau, Adolygu a Gorffen.

## 6. Atodiadau

Atodiad 1 Offeryn Archwilio AssetPlus

Gwynedd Mon A+
Audit tool May 2025-

Atodiad 2 Offeryn Archwilio Atal a Dargyfeirio

Gwynedd Mon
PaDAT QA Audit Tool

Atodiad 3 Dyrannu Achosion ac Amserlen

Gwynedd Mon YJS
Audit Schedule and Ca

Atodiad 4 Tabl Canlyniadau

Appendix 3 Audit
Results Table June 20

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Gofal |
| **DYDDIAD** | 29 Ionawr 2026 |
| **TEITL** | Tim 16+ (Gadael Gofal) |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Sicrwydd o ran y ddarpariaeth ar gyfer rhai 16 oed+ |
| **AWDUR** | Aled Gibbard |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd Menna Trenholme |

## 1. Pam bod angen craffu?

1.1 Er mwyn cael sicrwydd bod y Cyngor yn darparu gwasanaethau addas ac yn darparu gwerth am arian.

## 2. Beth yn union sydd angen ei graffu?

1. Maes gwaith y tîm a'r galw am wasanaethau
2. Sut mae'r tîm yn delio gyda defnyddwyr gwasanaeth gan gynnwys rhai rhwng 16 ac 18 a cheiswyr lloches, unrhyw heriau ac oblygiadau hynny ar adnoddau'r Cyngor?

## 3. Cefndir

3.1 Mae'r Tîm Ôl 16 wedi ei sefydlu fel tîm penodol i ganolbwyntio ar yr achosion hynny sy'n agored i'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd rhwng 16 a 25 oed.

3.2 Mae gwaith y tîm yn cael ei ddehongli o fewn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. Yn benodol mae hynny o dan:

- Rhan 3 o'r Ddeddf, sef y ddyletswydd i asesu anghenion plentyn am ofal a chefnogaeth,
- Rhan 6 o'r ddeddf sy'n ymwneud a phlant mewn gofal a'r ddyletswydd i ddatblygu cynlluniau a chefnogi plant a'u teuluoedd a'u hadolygu'n rheolaidd.
- Rhan 6 o'r ddeddf sy'n ymwneud a chefnogi pobl ifanc sy'n gadael gofal.

3.3 Mae cyfanswm cyllideb y Tîm ar gyfer diwallu anghenion pobl ifanc yn £1,040 miliwn. Mae £800,000 o'r gyllideb hwnnw ar gyfer anghenion llety a chefnogaeth. Mae £88,000 ar gyfer cefnogaeth ymarferol i achosion Gofal a Chefnogaeth a phlant mewn gofal. Ceir cyllideb o £92,000 ar gyfer cynnal lwfansau i bobl ifanc ( gan gofio nad yw pobl ifanc ar Orchymyn Gofal yn gymwys ar gyfer budd-daliadau gan fod yr awdurdod lleol riant corfforaethol).

## 4. Y galw am y gwasanaeth

4.1 Ar gyfer achosion Gofal a Chefnogaeth mae'r tîm yn derbyn cyfeiriadau'n uniongyrchol gan y Tîm Derbyn Cyfeiriadau yn ogystal â cheisiadau am asesiadau ar y cyd gyda'r uned Ddigartrefedd yn yr Adran Dai.

4.2 Yn ystod y cyfnod Ebrill 2024 i Fawrth 2025 fe dderbyniodd y Tîm 44 cyfeiriad newydd am asesiad. Mae hyn yn cymharu gyda 32 dros yr un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol.

4.3 Rhwng Ebrill 2024 a Rhagfyr 2025 fe drosglwyddwyd 14 achos plentyn mewn gofal a oedd yn cyrraedd 16 oed.

4.4 Ar ddechrau Ionawr 2026 roedd cyfanswm o 249 achos yn agored i'r Tîm.


4.5

| **Achosion Agored Ionawr 2026** | |
|---|---|
| Gofal a Chefnogaeth 16-17 oed( Rhan 3) | 45 |
| Plant Mewn Gofal (16-17 oed) | 45 |
| Pobl Ifanc sydd wedi gadael gofal ( 18-24 oed) | 159 |
| **Cyfanswm** | **249** |

4.6 Eleni hyd yn hyn mae 15 ymholiad diogelu Adran 47 wedi cymryd lle a 46 cyfarfod strategaeth o dan y Canllawiau Diogelu. Mae cynnydd wedi bod yn y nifer o bobl ifanc 16 ac 17 oed sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

4.7 Mae cynnydd yn yr achosion sy'n agored i'r Tîm ers 2017-18 yn 48%. Wrth gwrs mae Ceiswyr Lloches yn cyfri am rywfaint o'r cynnydd hwn, ond mae'r galw ar lefel cyffredinol wedi cynyddu yn yr un cyfnod. Gweler isod cynnydd yn y galw dros amser:

4.8



## 5. Sut mae’r tîm yn delio gyda defnyddwyr gwasanaeth?

5.1 Mae gweithiwr yn cael ei ddynodi ar gyfer bob achos. Mae’r math o weithiwr yn ddibynnol ar y math o achos.

5.2 Ar gyfer achosion Gofal a Chefnogaeth mae Gweithiwr Cymdeithasol yn ymgymryd â’r asesiad. Ar ôl asesiad gall yr achos gael ei redeg gan Ymarferydd Gofal Cymdeithasol neu Weithiwr Cymdeithasol. Mae mwyafrif yr achosion hyn yn ymwneud un ai a materion diogelu neu lle mae anghydfod a thensiwn rhwng rhieni a’r person ifanc, yn aml lle mae posibilrwydd o fod yn ddigartref.

5.3 Mae 45 plentyn mewn gofal yn agored i’r Tim ac fe ddynodir Gweithiwr Cymdeithasol ar gyfer pob un.

5.4 Ar gyfer pobl ifanc sy’n gadael gofal rydym yn dynodi Cynghorydd Personol yn unol â’r Ddeddf.

5.5 Mae’r ymyrraeth a gynigir yn ddibynnol ar yr achos unigol, ond ar lefel gyffredinol golyga hyn weithio gydag asiantaethau eraill i gynllunio a diwallu anghenion yr unigolyn. Mae gweithio gydag asiantaethau eraill yn rhan greiddiol o’u gwaith.

5.6 Mae gwaith achos y Tim yn canolbwyntio ar lesiant, sefydlogrwydd, addysg , gwaith neu hyfforddiant a datblygu sgiliau annibyniaeth.

5.7 Tra bod person ifanc o dan 18 oed ac angen llety cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw darganfod a threfnu’r llety hwnnw. Mae hyn yn cael ei ddiwallu mewn sawl ffordd. Y flaenoriaeth gyntaf i’r achosion hynny sy’n byw gyda’i rhieni yw cefnogi a chynnal y sefyllfa yn y cartref, os yw’n ddiogel i wneud hynny. Ar gyfer pobl ifanc mewn gofal mae’r mwyafrif mewn gofal maeth (24). Mae 3 o’r bobl ifanc mewn gofal preswyl, 4 yn byw gyda rhieni o dan drefniant Gorchymyn Gofal a 14 yn byw yn lled annibynnol gyda chefnogaeth.

5.8 Mae darpariaeth llety efo cefnogaeth yn elfen greiddiol o ddarpariaeth i’r Tim ac i’r bobl ifanc. I ddiwallu’r angen hwn mae croestoriad o drefniadau gan weithio efo partneriaid eraill. Mae ganddom Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Gisda a Chymdeithas Tai Gogledd Cymru. Mae’r Tim hefyd yn defnyddio 2 ddarparwr preifat sy’n medru cynnig llety a chefnogaeth i unigolion.

5.9 Wrth droi deunaw oed mae cefnogaeth y Tim yn parhau. Disgwylir i bob person ifanc sy’n gadael gofal fod a Chynllun Llwybr (Pathway Plan), a gellir cadarnhau bod perfformiad ar hyn yn 100%. Ni chynhelir Adolygiadau Statudol unwaith mae person ifanc yn gadael gofal, ond mae’r cynllun llwybr yn cael ei adolygu yn ôl yr angen.

5.10 Gall person ifanc ddewis i beidio â chael cefnogaeth unwaith maent yn cyrraedd deunaw oed. Mae dymuniad yr unigolyn yn cael ei barchu, ond mae dyletswydd ar yr awdurdod i fod yn cadw cysylltiad. Gwneir hyn o leiaf yn flynyddol. Mae gan yr unigolyn yr hawl i ail gysylltu am gefnogaeth pe

dymunir. Ychydig iawn o bobl ifanc sy'n dewis peidio â chadw mewn cysylltiad o gwbl.

5.11 Gweler **Atodiad 1** sy'n rhoi dadansoddiad yn dilyn cynnal holiadur gydag aelodau'r Tim.

## 6. Ceiswyr Lloches

6.1 Fel rhan o Gynllun Trosglwyddo Cenedlaethol y Swyddfa Gartref, mae pob awdurdod lleol wedi derbyn cwota o bobl ifanc i dderbyn dan y cynllun. O'r cyfanswm 249 achos sy'n agored i'r Tim, mae 32 o'r rhain yn Geiswyr Lloches ( Uanccompanied Asylum Seeking Children).

6.2 Tra bod y person ifanc o dan 18 oed, maent yn cael eu trin fel plant mewn gofal. Wrth droi deunaw oed maent yn dod yn Adawyr Gofal ac yn gyfrifoldeb ar yr awdurdod lleol nes eu bod yn 25 oed.

6.3 Bellach mae 4 o'r Ceiswyr Lloches o dan 18 oed, gyda'r gweddill yn oedolion sy'n derbyn cefnogaeth Ôl-ofal. Mae 9 ohonynt yn bwy yng Ngwynedd, 8 yn Ne Cymru a'r gweddill yn Lloegr.

6.4 Rhai o'r heriau ac oblygiadau

- Diffyg gwybodaeth gefndirol, dymuniadau, anghenion, trawma, lles emosiynol. Wrth dderbyn cyfeiriad gwybodaeth sylfaenol iawn sydd ynddo. Nid oes modd gwirio a chadarnhau gwybodaeth sylfaenol am y person ifanc.
- Iaith - Amrywiaeth sylweddol yng ngwledydd gwreiddiol yr unigolion. Daw'r mwyafrif o Afghanistan, gyda chynrychiolaeth yn ei gyfanrwydd o 13 gwlad ymysg y bobl ifanc.
- Ansicrwydd y bobl ifanc, diffyg dealltwriaeth am y broses, rheoli disgwyliadau. Fel arfer maent yn dod yn gyfrifoldeb i Wynedd ar ôl treulio cyfnod byr mewn canolfan. Mae'r broses o hawlio lloches yn gymhleth ac nid yw'n hawdd esbonio popeth. Yn ogystal daw rhai pobl ifanc gyda disgwyliadau clir eu bod am fyw mewn dinas ac nid ardal wledig fel Gwynedd.
- Lleoliadau - Nid yw darganfod lleoliad neu lety addas yn hawdd. Nifer eisiau byw mewn dinas. Weithiau maent mewn cysylltiad efo eraill mewn rhan arall o'r wlad. Yn aml mae eu lleoliad yn gyfuniad o'u dymuniadau a be sydd ar gael iddynt.
- Ecsploetiaeth. Pryderon "traffickio". Gyda diffyg gwybodaeth gefndirol mae'n anodd canfod a oes ffactorau eraill yn y cefndir. Cynhelir cyfarfodydd strategaeth lle ceir amheuaeth i drafod ymhellach.
- Y broses hawlio lloches yn cymryd amser hir. Yn ogystal nid yw bob amser yn hawdd darganfod cyfreithiwr i ddelio a'r cais. 17 o'r 32 yng Ngwynedd wedi cael yr hawl i aros. 12 wedi cael eu gwrthod.
- Asesiadau oedran yn gymhlethdod ychwanegol. Gan nad oes modd cadarnhau oedran yr unigolion, ceir adegau lle mae amheuaeth os yn blentyn ai peidio. Yn yr achosion hyn mae angen ymgymryd ag asesiad oedran. Mae angen hyfforddiant penodol i ymgymryd yr asesiad hwn.
- Gofynion ar y gweithwyr yn uchel e.e. ymweliadau, anodd creu perthynas, cyfathrebu drwy gyfieithydd, cynllunio ar eu cyfer.
- Ar gyfer 2024-25 roedd y gost o gartrefu a chefnogi Ceiswyr Lloches i Wynedd oddeutu £780,000. Mae'r Cyngor yn derbyn ad-daliad sydd wedi ei osod ar lefel gan y Swyddfa gartref. Ar gyfer 2024-25 roedd yr ad-daliad hwn yn £686,000.

- Mae’r Cyngor wedi dyrannu arian ychwanegol dros dro i gyflogi 2 Weithiwr o fewn y Tim i gynyddu capasiti i ddelio gyda'r achosion ychwanegol hyn.

**5. Ymgynghori**

5.1 Nid ydym wedi ymgynghori gyda defnyddwyr gwasanaeth i bwrpas yr adroddiad hwn.

**6. Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015**

6.1 A ydych wedi ystyried **cydweithio**?

6.2 Mae cydweithio’n hanfodol fel rhan o’r gwaith. Mae gan y Tim gysylltiad rheolaidd gydag asiantaethau eraill megis Heddlu Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, Coleg Menai, Gisda, Cymdeithas Tai Gogledd Cymru, Adran Tai Cyngor Gwynedd.

6.3 Beth sydd wedi ei wneud neu bydd yn cael ei wneud i **atal** problemau rhag codi neu waethygu yn y dyfodol?

6.4 Nid oes gwaith penodol wedi ei wneud ar atal problemau rhag codi neu waethygu yn y dyfodol.

6.5 Sut ydych wedi ystyried yr **hirdymor** a beth fydd anghenion pobl mewn blynyddoedd i ddod?

6.6 Mae asesiad Anghenion poblogaeth ar lefel rhanbarthol wedi ei gwblhau a bydd yn cael ei ddiweddaru.

**7. Effaith ar nodweddion cydraddoldeb, y Gymraeg a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol**

7.1 Rydym wedi rhoi sylw i’r nodweddion uchod ac rydym fel Adran yn dilyn Deddf Cydraddoldeb 2010 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn ein gwaith yn ddyddiol. Mae hyn yn gwneud yn siŵr bod unigolion a theuluoedd yn derbyn gwasanaeth a chael ei asesiadau yn eu hiaith o’i dewis.

**<u>Atodiadau</u>**

Holiadur Ôl 16

# HOLIADUR ÔL 16

**Cwestiwn**

Roedd 3 prif gwestiwn y gofynnwyd am bob unigolyn

**Sefyllfa byw?**

Ble mae'r unigolyn yn byw nawr?

**Swyddogion**

Cynorthwyodd 14 o swyddogion tîm ôl 16 gyda'r adolygiad

**Digartref?**

A ydynt wedi bod yn ddigartref? Os do, pam?

**Unigolion**


Cafwyd dogfen i adolygu gyda 237 o enwau unigolion y mae'r tîm ôl 16 yn ei gynorthwyo

**Gweld?**

Pa mor aml bydd swyddog yn gweld neu'n cael cyswllt gyda'r unigolyn?

# Manylion Unigolion

Yn y ddogfen adolygwyd, roedd 237 o unigolion yn cael eu cefnogi gan y tîm ôl 16.




## Dynion

Mae 140 ohonynt yn ddynion

## Merched

94 yn ferched

## Non-Binary

2 yn non-binary

## Dim manylion

Dim manylion i 1

Mae un unigolyn ar fin newid o ferch i ddyn, ond nid yw hyn yn swyddogol eto

# Categori Oedran

Oedran cyfartalog yr unigolion a dderbynnir cymorth yw 19.71 mlwydd oed,
isod rhennir pawb i grwpiau oedran

| 16 - 17 | 18 - 19 | 20 - 21 | 22 - 23 | 24+ |
|---|---|---|---|---|
| 79 | 64 | 42 | 32 | 20 |

# Dyraniad Gwaith

Gwelir sut dyrennir yr achosion fesul swyddog:

| | |
|---|---|
| SWYDDOG 1 | 15 |
| SWYDDOG 2 | 15 |
| SWYDDOG 3 | 39 |
| SWYDDOG 4 | 6 |
| SWYDDOG 5 | 36 |
| SWYDDOG 6 | 18 |
| SWYDDOG 7 | 16 |
| SWYDDOG 8 | 1 |
| SWYDDOG 9 | 13 |
| SWYDDOG 10 | 3 |
| SWYDDOG 11 | 18 |
| SWYDDOG 12 | 17 |
| SWYDDOG 13 | 15 |
| SWYDDOG 14 | 25 |

# Amlder Cyfarfod

Gweler isod drawstoriad o ba mor aml y mae unigolion yn cwrdd neu'n cael cyswllt â staff tîm ôl 16

**Mae rhan fwyaf yn cael eu gweld ar sail 'fel sydd angen', hynny yw fel mae'r unigolyn angen.**

**Misol yw'r amlder cyfarfod fwyaf cyffredin**

**4 - 6 wythnos yr ail fwyaf cyffredin o ran cyfarfod.**

**Gwelir rhai unigolion bob dau ddiwrnod, er mwyn ymateb i'w anghenion.**

**Cyswllt digidol yn ffordd boblogaidd o gyfarfod.**

**Yn anffodus ceir problemau gyda chysylltu â nifer, ond mae'r swyddogion yn parhau i geisio gwneud cyswllt.**

# Categori Byw

Gellir grwpio sefyllfaoedd byw'r 237 unigolion  i gategorïau eang fel gwelir isod:

**67 yn byw gyda rhieni / teulu estynedig**

**37 yn byw gyda theulu maeth**

**70 yn byw'n annibynnol**

**36 mewn llety Cefnogol / Anheddau / Bed Space / Byw Bywiog / GISDA / Gorwel / Pen Dinas / Hostel**

**6 mewn llety gwahanol bob nos / gwesty / digartref**

**4 wedi symud i'r Brifysgol**

**2 mewn lleoliad Preswyl**

**3 yn y carchar**


**12 yn y carchar wedi cau neu wedi stopio ymgysylltu**

# Lleoliad fwyaf cyffredin i'r unigolion fyw:

- CAERNARFON: 45
- BANGOR: 38
- PWLLHELI: 16
- BLAENAU FFESTINIOG: 11
- PORTHMADOG: 11
- CAERDYDD: 6

# Digartref

- Nodwyd fod 69 wedi cyflwyno'n ddigartref yn ystod eu hamser gyda thîm ôl 16
- Aneglur os bu i 9 fod yn ddigartref a'i pheidio
- 159 wedi nodi nad ydynt erioed wedi cyflwyno'n ddigartref.



# Rhesymau Dros y Digartrefedd

**GADAEL GOFAL**

Nifer yn mynd yn ddigartref ar ôl gadael lleoliad gofal neu pan fu i sefyllfa maethu dorri lawr.

**FFOADUR**

Roedd canran uchel yn ffoaduriaid oedd wedi cyrraedd y wlad heb unman i fyw.

**TEULU**

Perthynas wael gyda theulu yn rheswm mawr dros nifer o'r sefyllfaoedd digartref.

**PERTHYNAS**

Perthynas yn torri lawr yn arwain i rhai fod yn ddigartref.

**PWRPASOL**

Eraill yn mynd yn ddigartref yn bwrpasol neu yn torri rheolau ac felly'n gorfod gadael lleoliadau.

**ARALL**

Rhesymau eraill dros y digartrefedd oedd dychwelyd i ardal, dyledion, sefyllfaoedd bregus a phroblemau.